Y
Comisiwn
Etholiadol

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

2025-26




HC 367

ELC/2026/02

GEN-LD18102

# Y Comisiwn Etholiadol

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2025 - 2026

### Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026

Wedi'i gyflwyno gerbron Senedd y DU yn unol ag Atodlen 1, Paragraffau 20(1) a 18(2)(b) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Dan orchymyn Tŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 14 Gorffennaf 2026

Wedi'i gyflwyno gerbron Senedd yr Alban yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 20A(1) Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Wedi'i gyflwyno gerbron Senedd Cymru yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 20(A1) Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

HC 367

ELC/2026/02

GEN-LD18102

© Y Comisiwn Etholiadol 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.electoralcommission.org.uk/cy.

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad gael eu hanfon atom yn Y Comisiwn Etholiadol, 3 Bunhill Row, Llundain EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 1031928  E-bost: info@electoralcommission.org.uk

ISBN 978-1-5286-6496-7

E03597713 07/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Global Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


Rhagair gan ein Cadeirydd.....6

Neges gan ein Prif Weithredwr.....8

Adroddiad Perfformiad ..... 11

Trosolwg.....12

Uchafbwyntiau'r flwyddyn.....14

Ein blwyddyn mewn rhifau.....15

Ein hamcanion strategol.....16

Dadansoddiad perfformiad .....16

Defnyddio ein hadnoddau i gyflawni ein nodau .....28

Adroddiad cynaliadwyedd .....31

Defnyddio ein hadnoddau ariannol yn effeithlon.....35

Adroddiad pwerau a sancsiynau .....43

Adroddiad blynyddol Gogledd Iwerddon .....45

Adroddiad blynyddol Cymru .....47

Adroddiad blynyddol yr Alban.....50

Adroddiad atebolrwydd.....57

Adroddiad llywodraethu corfforaethol .....58

Adroddiad Cydnabyddiaeth a staff ...77

Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwiliad .....92

Tystysgrif y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban .105

Y datganiadau ariannol ..... 112

Cyfarwyddyd Cyfrifon .....141

Cysylltwch â ni .....142

# Rhagair gan ein Cadeirydd



Mae'r Comisiwn wedi cryfhau dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chymorth a gwaith ymgysylltu gan Bwyllgor y Llefarydd ar ran y Comisiwn Etholiadol, Corff Corfforedig Senedd yr Alban a Phwyllgor y Llywydd yn y Senedd, ac mae pob un wedi craffu ac arwain ein gwaith, a chymeradwyo ein cynlluniau a chyllidebau.

Rydym wedi sgwrsio'n helaeth â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a phleidleiswyr ar draws y wlad. Mae dadl ddemocrataidd y DU yn fywiog, ac rydym yn talu teyrnged i bawb sydd wedi sefyll am swydd etholedig, sy'n rhedeg etholiadau, a'r gwirfoddolwyr helaeth sy'n rhoi cymorth hanfodol.

Mae etholiadau'n rhan hollbwysig o'n seilwaith cenedlaethol. Mae angen eu diogelu i sicrhau eu bod yn parhau'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae etholiadau teg a thryloyw yn wynebu bygythiadau drwy fygylu ac aflonyddu ymgyrchwyr, camwybodaeth a thwyllwybodaeth, ymosodiadau seiber a thwyll pleidleiswyr. Rydym wedi cryfhau ein gwaith ar bob un o'r meysydd hyn, yn enwedig er mwyn cefnogi'r gwaith o roi argymhellion Pwyllgor y Llefarydd ar waith, gan weithio'n agos â'r heddlu a'r Swyddogion Canlyniadau ar draws y wlad. Mae gwaith wedi dechrau ar God Ymddygiad. Byddai'n rhaid i bleidiau gytuno arno a byddai ar gael i'r cyhoedd. Byddai'n amlinellu sut y dylai pleidiau gwleidyddol eu hunain gymryd camau cadarn os yw eu hymgeiswyr yn gyfrifol am fygylu neu aflonyddu ymgeiswyr eraill. Mae dulliau amddiffyn seiber y Comisiwn wedi cryfhau'n sylweddol, ac rydym yn gweithio gyda llawer o bartneriaid i ymgorffori'r rhain yn bellach ar draws y sector.

Cafodd Bil Cynrychiolaeth y Bobl ei gyflwyno yn Senedd y DU ar ddechrau 2026 ac mae'n cynnwys llawer o argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol. Rydym o'r farn y bydd y diwygiadau hyn yn cryfhau gwydnwch ac uniondeb ein system etholiadol, yn mynd i'r afael â llawer o'r bygythiadau a ddaw i'w rhan, ac yn gwella sut y mae etholiadau'n gweithio i bleidleiswyr, ymgyrchwyr, pleidiau a gweinyddwyr. Rydym yn parhau i gynghori ar y Bil a'i weithrediad, a'i drafod, gyda seneddwyr, ac yn darparu ymchwil ar

gyfer trafodaethau ar sail gwybodaeth. Fel rhan o'r Bil, cyhoeddodd y llywodraeth fod y pŵer i osod Strategaeth a Datganiad Polisi ar gyfer y Comisiwn Etholiadol yn cael ei ddiddymu. Mae hyn yn hanfodol i ni. Rydym yn atebol i Senedd y DU, y Senedd a Senedd yr Alban, ond mae'n rhaid i ni barhau'n rheoleiddiwr annibynnol, bod yn ddiduedd yn amlwg, ac yn gallu pennu ein blaenoriaethau strategol a pholisi ein hunain a sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau.

Rhan bwysig o'n rôl yw helpu i gefnogi pleidleiswyr i gymryd rhan mewn etholiadau. Mae ein hymchwil yn dangos nad yw cymaint ag 8 miliwn ar y gofrestr etholiadol ar hyn o bryd. Rydym wedi annog seneddwyr i weithredu'n gyflym i fynd i'r afael â'r mater hwn ledled y DU. Rydym hefyd yn gwybod bod gan hyn effaith lawer yn fwy ar rai grwpiau, megis pobl rhwng 18 a 34 mlwydd oed, a phobl ag anableddau. Felly, eleni, rydym wedi diweddaru ein canllawiau i'w cefnogi nhw. Gallai'r rhai sy'n rhentu eiddo preifat a all fod yn symud llety yn fwy rheolaidd ac felly heb ddiweddaru eu manylion hefyd fod yn rhai o'r bobl nad ydynt ar gofrestr. Rydym wedi gwerthuso cynlluniau peilot cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yng Nghymru, ac rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar roi cofrestru awtomatig ar waith yng Nghymru, a chyda Llywodraeth y DU ar ddarpariaethau ym Mil Cynrychiolaeth y Bobl i alluogi newid tebyg yn genedlaethol. Mae'r gyfres hon o newidiadau yn hanfodol, ac rydym yn gofyn yn daer am weithrediad cyflym, ond mae'n rhaid cydlynu hyn yn ofalus ar draws y wlad.

Mae'r gyfraith etholiadol yn y DU yn anghyfredol, yn rhy gymhleth, ac yn anghyson. Fel y rheoleiddwr statudol, rydym wedi parhau i roi cyngor annibynnol i Senedd y DU, y Senedd, a Senedd yr Alban ar newidiadau i bolisi a deddfwriaeth, gan dynnu ar brofiad ac arbenigedd perthnasol. Rydym yn falch o weld llawer o'r cynigion wedi'u hamlinellu ym Mil Cynrychiolaeth y Bobl ac wrth iddo fwrw ymlaen, fe fyddwn yn eglur ynghylch graddfa a chymhlethdod y newidiadau ac a oes modd eu cyflawni'n effeithiol heb beryglu diogelwch neu hygyrchedd.

Hoffwn orffen drwy ddiolch i'n Comisiynwyr sy'n ymadael, yr Arglwydd Stephen Gilbert a Sarah Chambers, am eu cyfraniadau pwysig i'r Comisiwn ers llawer o flynyddoedd a hoffwn groesawu Rashik Parmar ac Alan Mabbutt sy'n ymuno â ni.

**John Pullinger CB**
**Cadeirydd**

# Neges gan ein Prif Weithredwr



Mae hon wedi bod yn flwyddyn fyrlymus o gynnal etholiadau, prosiectau newydd, a newidiadau wrth i ni gwblhau blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol 2025 - 2030. Cytunodd Bwyllgor y Llefarydd, Pwyllgor Llywydd y Senedd a Senedd yr Alban ar y Cynllun y llynedd, ac rwy'n hapus iawn gyda'r cynnydd rydym ni wedi ei wneud.

Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi ymrwymo i gefnogi pleidleiswyr a chael rhagor o bobl i gyfranogi, moderneiddio'r system etholiadol, diogelu ac amddiffyn y system, arwain trafodaeth ar sail gwybodaeth ynghylch dyfodol etholiadau, a chryfhau'r Comisiwn Etholiadol.

Eleni, rydym wedi helpu i gynnal etholiadau lleol a maerol ym mis Mai 2025 yn Lloegr, ac rydym wedi paratoi at yr etholiadau lleol a maerol yn Lloegr, etholiadau Senedd yr Alban, ac etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026.

Fel rhan o'n blaenoriaeth i gefnogi pleidleiswyr a chael rhagor o bobl i gyfranogi, fe gynhalion ni ymgyrch ymwybyddiaeth pleidleiswyr llwyddiannus ar gyfer etholiadau mis Mai 2025 a sicrhaodd dros 300,000 o geisiadau i'r gofrestr etholiadol, ynghyd ag ymgyrchoedd i dynnu sylw at y gofynion ar gyfer ID Pleidleisiwr. Fe wnaethom sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o dwyll etholiadol posibl drwy ein hymgyrch Dy Bleidlais Di a Neb Arall. Yn ôl ein hymchwil ar ôl etholiad, roedd 79% o bobl yn hyderus bod etholiadau'n cael eu rhedeg yn dda, roedd 95% yn fodlon â'r broses bleidleisio, ac roedd 90% o'r bobl yn gwybod bod angen iddynt ddangos ID i bleidleisio. Serch hynny, roedd dangosyddion defnyddiol o'r ymchwil hon ar gyfer gwella sut rydym yn cynnal etholiadau yn y dyfodol.

Ein rôl yw cefnogi pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â rheoliadau etholiadol, ond hefyd i fod yn hyderus y gallant ymgyrchu'n deg ac yn ddiogel. Rydym wedi moderneiddio ein canllawiau etholiadol yn ddiweddar, gan ddylunio hyfforddiant pwrpasol a fideos animeiddiedig i gefnogi ymgeiswyr ac asiantiaid, a chyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer cynnal etholiadau

Senedd yr Alban a'r Senedd, sy'n cynnwys diweddariadau arwyddocaol yn sgil newid i ddeddfwriaeth. Hefyd, mae ein prosiect i ddisodli ein system Cyllid Gwleidyddol Ar-lein, lle y mae ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn cofrestru eu data ariannol, yn mynd yn dda, a bydd yn ein caniatáu i sicrhau bod cyllid gwleidyddol yn dryloyw.

Fodd bynnag, rydym yn gweld bygythiadau mwyfwy i'n system ddemocrataidd.

Roedd etholiadau 2025 yn dal i ddangos cynnydd mewn achosion o fygylu a chamdrin ymgeiswyr, ac yn ôl ein hymchwil ymgeiswyr diweddaraf, profodd 61% o'r ymatebwyr aflonyddu neu fygythiadau i ddiogelwch yn ystod eu hymgyrchoedd. Dywedodd 71% eu bod wedi osgoi rhai gweithgarwch ymgyrch, fel ymgyrchu ar eu pen eu hunain neu yn ystod y nos. Mae hyn niweidio'r ffordd y mae pleidleiswyr yn siarad ag ymgeiswyr, sydd yn rhan hollbwysig o ddemocratiaeth, felly mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Cyflwynodd Gynhadledd y Llefarydd argymhellion allweddol, ac rydym yn eu rhoi ar waith. Mae'r Comisiwn yn cefnogi gweinyddwyr etholiadol i sicrhau bod etholiadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Mae wedi siarad yn y cyfryngau i godi ymwybyddiaeth, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r heddlu i annog yr heddluoedd i gyd i ymdrin ag honiadau o ddifrif ac yn gyson.

Un o'r bygythiadau eraill i'n proses ddemocrataidd yw cynnwys gwleidyddol ffugiad dwfn, sy'n parhau i gael ei rannu ar-lein a dylanwadu ar farn y cyhoedd. Cyn etholiadau mis Mai 2026, fe lansion ni ein cynllun peilot Canfod Cynnwys Ffugiad Dwfn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae hyn yn ein galluogi i sganio a monitro am ddeunydd etholiadol ffugiad dwfn. Mae gennym ystod o adnoddau i fynd i'r afael â deunyddiau o'r fath, yn enwedig pan fyddant yn camarwain pleidleiswyr am y broses etholiadol. Rydym yn gweithio'n agos i gefnogi unrhyw ymgeiswyr neu bleidiau sy'n dioddef ffugiad dwf, a rhybuddio'r rhai sydd angen gwybod. Gyda'n partneriaid byddwn yn cadw unrhyw dystiolaeth i ennill dealltwriaeth well o sut y daw ffugiadau dwfn i fodolaeth - a phwy sydd y tu ôl iddynt.

Rydym yn parhau i rannu arferion gorau gyda phobl eraill ar hyd a lled y byd sy'n rheoli etholiadau. Eleni, rydym wedi cwrdd â dirprwyaethau o lunwyr deddfau a chyrff rheoli etholiadau a oedd yn ymweld â'r DU o Sweden, De Korea a Japan. Ddiwedd haf 2025, fe gynhalion ni ymweliad gan Gomisiwn Etholiadol Wcráin i Lundain. Bryd hynny, fe lofnodon ni gytundeb rhwng Comisiwn Etholiadol y DU a Chomisiwn Etholiadol Canolog Wcráin i ddatblygu a dyfnhau cydweithredu ar faterion etholiadol. Bydd yn hyn cynnwys trafod datblygu ac arloesi ar weinyddiaeth etholiadol, seiberddiogelwch, ac addysg i bleidleiswyr. Rydym yn falch o rannu â'n cydweithwyr rhyngwladol, a dysgu oddi ganddynt, a hynny er budd nod cyffredin o ddemocratiaeth iach a rhydd, ac rydym yn barod i gefnogi Wcráin i baratoi at etholiadau yn y dyfodol.

Yn olaf, mae ein gwaith o ymgysylltu â phleidleiswyr ifanc wedi tyfu'n sylweddol. Nod ein prosiect Gwella Addysg Ddemocrataidd yw helpu i baratoi pobl ifanc cyn cynlluniau Llywodraeth y DU i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 mlwydd oed yn Lloegr a Gogledd Iwerddon i fod yr un fath â Chymru a'r Alban, a byddwn yn darparu deunyddiau addysgol mewn ysgolion, colegau a chymunedau. Roedd ein hymgyrch 'Wythnos Croeso i Dy Bleidlais' yn gyfle i glywed gan tua 700,000 o bobl ifanc ledled Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Cynhaliodd Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon ddigwyddiad lansio'r Wythnos Croeso i Dy Bleidlais, cynhaliodd ein swyddfa yng Nghymru ddigwyddiad yn y Senedd i 400 o bobl, ac yn yr Alban rydym wedi bod yn gweithio â phartneriaid i godi ymwybyddiaeth a chofrestrodd 150 o ysgolion i gymryd rhan yn sgil hynny. Un o'r uchafbwyntiau arbennig i mi oedd cael fy holi'n dwll gan bobl ifanc yn Niwrnod Strategaeth y Democracy Classroom, a ddangosodd eu gwybodaeth, eu craffter, a'u boddhad mewn trafodaeth gadarn. Diolch o galon i'n holl bartneriaid yn y gwaith hanfodol hwn.

**Vijay Rangarajan**
**Prif Weithredwr**

# Adroddiad Perfformiad



# Trosolwg

Mae'r rhan hon yn rhoi trosolwg o'r Comisiwn Etholiadol; ein diben, ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r prif bethau sy'n peryglu ein gwaith o gyflawni ein nodau.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r wybodaeth ariannol yn yr adroddiad perfformiad. Mae hwn yn tynnu sylw at brif bwyntiau'r datganiadau ariannol sydd i'w cael yn bellach ymlaen yn y ddogfen hon, sy'n rhoi rhagor o fanylion.

Rydym wedi paratoi ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blynyddol 2025/26 yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF dan baragraff 17 (2) o Atodlen 1 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Rydym wedi paratoi'r adroddiad pwerau a sancsiynau ar dudalen 43 yn unol â pharagraff 15, Atodlen 19(b) a pharagraff 27, Atodlen 19(c) PPERA.

## Ein rôl

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i fagu hyder y cyhoedd yn y system etholiadol a sicrhau ei huniondeb. Rydym yn annibynnol o lywodraethau a phleidiau gwleidyddol ac yn uniongyrchol atebol i Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban.



Rydym yn cyflawni dros bleidleiswyr ar draws pob rhan o'r DU, gyda swyddfeydd y Comisiwn Etholiadol yng **Nghaerdydd**, **Belfast**, **Caeredin** a **Llundain**. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Rydym yn atebol i Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban, a chawn ein hariannu gan bob un o'r rhain ar gyfer y gwaith a wneir ar etholiadau dan eu pwerau datganoledig neu eu pwerau a gedwir. Nid yw'r gyfraith etholiadol wedi ei datganoli yng Ngogledd Iwerddon ac mae'n parhau i gael ei chadw i San Steffan.

Mae'r Comisiwn yn sefydliad ledled y DU, ac mae'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn gwneud penderfyniadau gyda hynny dan sylw. Yn unol â gofynion deddfwriaethol, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn canolbwyntio ar y gwaith a wneir mewn perthynas â'n rôl a'n hatebolrwydd i Senedd y DU. Mae gwybodaeth ar wahân ar

gael o ran ein gwaith ar etholiadau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, ac ein hatebolrwydd i'r seneddau hynny, ar dudalennau 47 a 50.


# Uchafbwyntiau’r flwyddyn




Adnoddau ymwybyddiaeth o dwyll etholiadol ‘Dy Bleidlais Di a Neb Arall’




Ymgyrchoedd Cofrestru Pleidleisiwr ac ID Pleidleisiwr ar gyfer etholiadau Mai 2025 ar draws Lloegr



Cynlluniau peilot Canfod Cynnwys Ffugiad Dwfn yn lansio yng Nghymru, Lloegr a’r Alban




Lansion ni ein sianel TikTok



Bil Cynrychiolaeth y Bobl, a oedd yn cynnwys ein hargymhellion polisi o flaenoriaeth



Yr Adolygiad Rycroft, a oedd hefyd yn adlewyrchu ein hargymhellion polisi o flaenoriaeth




Fe ymgynghoron ni ar ganllawiau wedi’u diweddaru i weinyddwyr etholiadol, a’u cyhoeddi, i helpu i wella hygyrchedd etholiadau i bleidleiswyr anabl



Fe ddatblygon ni hyfforddiant newydd ac ystod o adnoddau newydd i gefnogi pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid i gydymffurfio â’r gyfraith, yn ogystal â’u cyflwyno




Fe gyhoeddon ni ganllawiau diwygiedig ar gynnal etholiadau’r Senedd a Senedd yr Alban

# Ein blwyddyn mewn rhifau

**312,835**

o geisiadau i gofrestru i bleidleisio yn ystod ein hymgyrch 2025

**5,532**

o ymatebion wedi'u rhoi i ymholiadau gan y cyhoedd

**700,000**

o bobl ifanc wedi ymgysylltu â'r Wythnos Croeso i Dy Bleidlais

**91%**

o etholwyr Lloegr yn ymwybodol o ofynion ID Pleidleisiwr

**406**

o bleidiau gwleidyddol ar ein cofrestrau

**£65m**

Gwerth cwta £65m o roddion wedi'u cyhoeddi

**5.5 miliwn**

o bobl wedi defnyddio ein gwasanaeth chwilio am god post i gael gwybodaeth am sut i bleidleisio yn eu hardal

**5**

o bwyllgorau seneddol y DU wedi cymryd tystiolaeth gan y Comisiwn

# Ein hamcanion strategol

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod pobl yn ymddiried mewn etholiadau a refferenda, yn eu gwerthfawrogi ac yn cymryd rhan ynddynt. Rydym yn cefnogi hyn drwy gyflawni'r nodau strategol a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol newydd, a lansiodd ym mis Ebrill 2025. Mae'r amcanion strategol hyn yn sail i sut rydym yn gwerthuso perfformiad y Comisiwn am y flwyddyn.

- **Cefnogi pleidleiswyr a chynyddu cyfranogiad**
- **Moderneiddio'r system etholiadol**
- **Diogelu ac amddiffyn y system**
- **Arwain trafodaeth wybodus ynghylch dyfodol etholiadau**
- **Atgyfnerthu'r Comisiwn Etholiadol**

# Dadansoddiad perfformiad

Mae'r rhannau canlynol yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn 2025/26 i gyflawni pob un o bum nod strategol y Comisiwn. Rydym yn falch o fod wedi bodloni neu ragori ar y mwyafrif o'n targedau.

## Cefnogi pleidleiswyr a chynyddu cyfranogiad

Ein nod yw:

- Gwella dealltwriaeth, hyder a chynhwysiant pleidleiswyr drwy wneud gwybodaeth ddibynadwy ar gael yn fwy rhwydd, helpu pobl i ganfod camwybodaeth a thwyllwybodaeth, a lleihau rhwystrau i grwpiau nad oes digon ohonynt yn cofrestru, nad ydynt yn cael eu cyrraedd ddigon, a grwpiau gydag anghenion hygyrchedd.

- Hybu cyfranogiad democrataidd drwy gael rhagor o bobl i gofrestru i bleidleisio, gwella ymwybyddiaeth o ID Pleidleisiwr a chael rhagor o bobl i gael Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr, sy'n arwain at bleidleiswyr sy'n dangos mwy o ddiddordeb ac sydd â mwy o wybodaeth.

Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn:

- Fe gynhalion ni ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd i bleidleiswyr yn Lloegr yn y cyfnod hyd at etholiadau mis Mai 2025 i sicrhau bod gan bleidleiswyr yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan. Cafodd ein hymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr ac ID Pleidleisiwr eu gwylio dros filiwn o weithiau ac yn eu sgil cafwyd 312,835 o geisiadau i'r gofrestr ac roedd 90% o bobl yn ymwybodol bod angen iddynt ddod ag ID ffotograffig i bleidleisio. Yn ogystal â thargedu pleidleiswyr cymwys mewn ardaloedd etholiadol, canolbwyntiodd yr ymgyrchoedd yn arbennig ar gynulleidfaoedd neu grwpiau cofrestredig a oedd yn llai ymwybodol o'r angen i ddod ag ID i'r orsaf bleidleisio, megis pobl ifanc a phobl o rai cefndiroedd lleiafrif ethnig.

- Cyn etholiadau mis Mai 2026, fe gyhoeddon ni llyfrynnau ar gyfer y cartref yng Nghymru a'r Alban a oedd yn cynnwys gwybodaeth i bleidleiswyr, a lansion ni ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Caiff y rhain eu gwerthuso yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2026/27.

- Fe weithion ni gydag awdurdodau lleol a sefydliadau cymdeithas sifil i ddarparu adnoddau amlieithog a hygyrch i godi ymwybyddiaeth o ID

Pleidleisiwr a'r Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr (VAC). Yr un fath ag ymgyrchoedd blaenorol, roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth sy'n bwrpasol i grwpiau nad oes gan lawer ohonynt ID. Cafodd yr adnoddau hyn eu rhannu gyda thros 2,700 o gysylltiadau cymdeithas sifil ac awdurdod lleol.

- Ymgysylltodd dros hanner miliwn o bobl ifanc ag Wythnos Croeso i Dy Bleidlais eleni. Cynorthwyodd ein Hyrwyddwyr Lleisiau Ieuenctid i bennu'r thema 'Bod yn wybodus a chymryd rhan'. Fe gefnogon ni bobl ifanc i gyrchu gwybodaeth ddibynadwy i fod yn wybodus ynghylch gwleidyddiaeth, democratiaeth ac etholiadau, a chymryd y camau cyntaf i gymryd rhan yn yr ardal leol. Yn ystod yr wythnos, fe gyhoeddon ni ymchwil a oedd yn edrych ar farn pobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed ynghylch gwleidyddiaeth a phleidleisio. Daeth i'r amlwg bod y mwyafrif eisiau dysgu rhagor am etholiadau a democratiaeth yn yr ysgol. Dyma agwedd ar y gwaith yr ydym yn bwriadu ehangu rhagor arni, o ystyried pwysigrwydd ennyn diddordeb y cenedlaethau a fydd yn pleidleisio yn y dyfodol, yn enwedig pan fo'r etholfraint yn cael ei gostwng i 16 mlwydd oed ar gyfer etholiadau San Steffan. Fel y dywedodd Fatima o'n Rhwydwaith Lleisiau Ieuenctid, "*Mae'r oedolion sy'n gwneud penderfyniadau ar ein rhan ni oll yn cael effaith enfawr ar ein bywydau bob dydd, felly mae'n bwysig iawn bod pobl ifanc yn deall sut y mae democratiaeth yn gweithio a sut i gymryd rhan*."
- Er mwyn gwneud yn siŵr bod gwybodaeth berthnasol yn hawdd i bleidleiswyr ddod o hyd iddi ar-lein, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda defnyddwyr gwefannau i ddysgu am eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau a diweddaru ein gwefan yn unol â hynny i'w gwneud mor hygyrch â phosibl, a chynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl arni. Rydym yn parhau i ddefnyddio sianeli cyfathrebu digidol i gyrraedd cynulleidfaoedd allweddol. Gwnaethom gynnal rhaglen adolygu a gwella ar gyfer ein gwefan, creu cyfrif TikTok a dechrau'r prosiect i ddod â'r gwasanaeth chwilio am god post yn fewnol. Mae'r rhain oll yn cefnogi cyfranogiad a gwybodaeth i bleidleiswyr.

**Ein perfformiad**

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | Targed | 2025/26 |
|---|---|---|
| Ymateb yn brydlon i ymholiadau gan y cyhoedd drwy alwadau, llythyrau a negeseuon e-bost ymhen dau ddiwrnod gwaith. | **98%** | **99%** |

| | | |
|---|---|---|
| Ymateb i gwynion dilys ymhen 20 diwrnod gwaith | **90% (codi i 95% yn 2026/27)** | **100%** |
| Ymwybyddiaeth o ofynion ID Pleidleisiwr: % o ymatebwyr yn gwybod bod angen iddynt ddod ag ID i bleidleisio | **90%** | **90%** |

**Cwynion**

Cawsom 12 o gwynion ffurfiol ac ymatebon i 100% ohonynt o fewn yr amserlen gytunedig. O'r rhain, ni chafodd deg eu cadarnhau, cafodd un ei gadarnhau yn rhannol, ac un ei gadarnhau. Cafodd un gŵyn arall ei gwneud a'i thynnu'n ôl felly nid yw wedi'i chynnwys yn y 12 a nodwyd yma. Cafodd y Comisiwn hefyd bum cais ar gyfer adolygiadau mewnol a chafodd 10 cwyn eu gwneud i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ynghylch ein prosesau Rhyddid Gwybodaeth, a oedd yn uwch na'r tair blynedd flaenorol.

## Moderneiddio'r system etholiadol

Ein nod yw:

- Moderneiddio a symleiddio'r system etholiadol drwy leihau cymhlethdod cyfreithiol, cysoni a diweddaru prosesau, a gwneud canllawiau clir ar gael yn fwy rhwydd - sy'n gwneud gwaith gweinyddol yn haws, yn cryfhau cydymffurfedd, ac yn gwella ymddiriedaeth mewn sut y caiff etholiadau eu rhedeg a'u hariannu.

- Gwella ymgysylltiad a chyfranogiad drwy hybu gwydnwch gweinyddwyr etholiadol, gwella cymorth i ymgyrchwyr ac ymgeiswyr, a gwneud etholiadau yn fwy hygyrch i bleidleiswyr ieuengach, pleidleiswyr tramor, a'r rhai ag anghenion mynediad.

Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn:

- Rydym yn cefnogi gweinyddwyr i leihau'r rhwystrau sy'n wynebu pleidleiswyr anabl i sicrhau y gall pawb gyfranogi. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau hygyrchedd wedi'u diweddaru i wella'r profiad pleidleisio. Cafodd y canllawiau hyn eu datblygu mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau ac maent yn cynrychioli ystod o leisiau pobl anabl.

- Bûm yn cefnogi'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) gyda'u cynigion ar gyfer y cynlluniau peilot pleidleisio hyblyg yn etholiadau lleol mis Mai 2026 yn Lloegr. Bu'r rhain yn treialu arloesiadau fel pleidleisio cynnar a hybiau pleidleisio. Byddwn yn gwerthuso'r cynlluniau peilot yn annibynnol i ddeall eu heffaith ar gyfleustra, boddhad a hygyrchedd pleidleiswyr. Byddwn hefyd yn ymchwilio i ba mor dda mae'r cynlluniau peilot yn gweithio mewn sefyllfa go iawn a'u heffeithiolrwydd o ran cost wrth gyflawni cadernid a phleidleisio diogel.
- Rydym yn parhau i foderneiddio ein darpariaeth canllawiau, gan gyhoeddi canllawiau etholiadol Senedd yr Alban a'r Senedd mewn fformat HTML ar wefan. Yn ogystal â hyn, rydym wedi ehangu ein cyfres o adnoddau animeiddiedig i gefnogi'r gwaith o lenwi papurau enwebu ar gyfer y pleidleisiau hyn.

**Ein perfformiad**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed | 2025/26 |
|---|---|---|
| Mae'r Gweinyddwyr Etholiadol, a'r Swyddogion Adrodd a'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn fodlon gyda'n canllawiau. | **95% (codi i 98% erbyn 2029/30)** | **97.8%** |

## Diogelu ac amddiffyn y system

Ein nod yw:

- Cryfhau ymddiriedaeth ac uniondeb mewn etholiadau drwy wella tryloywder cyllid gwleidyddol, rhoi eglurder ar reolau rhoi a benthyg, gwella prosesau goruchwylio drwy bwerau cryfach a monitro rhagweithiol, a darparu cronfa ddata ar-lein newydd i roi cipolwg cliriach i'r cyhoedd ar gyllid ymgyrch.
- Diogelu'r system etholiadol a phleidleiswyr drwy wrthbwyso camwybodaeth a thwyllwybodaeth, lleihau ymddygiad niweidiol sy'n tanseilio hyder, diogelu rhag ymyrraeth dramor, a meithrin galluoedd Deallusrwydd Artiffisial a digidol i fonitro technolegau newydd yn fwy effeithiol.

- Gwella hyder a chyfranogiad ymhlith ymgeiswyr a gweinyddwyr drwy sicrhau camau i fynd i'r afael â cham-drin a bygylu, gan greu amgylchedd mwy diogel a mwy amrywiol i ymgeiswyr, a darparu canllawiau a chefnogaeth gliriach i gynnal arferion ymgyrchu teg a chyson.

Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn:

- Mae ein hymchwil yn dangos bod camdriniaeth a bygylu yn cael effaith sylweddol ar weithgarwch ymgyrchu ymgeiswyr, ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fe gynigion ni argymhellion ar gyfer newidiadau effeithiol ac ar sail tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth ar lafar i Gynhadledd y Llefarydd. Ym mis Rhagfyr, fe ddarparon ni ymateb llawn i'w hadroddiad terfynol ac fe alwon ni am newidiadau i sicrhau nad yw ymgeiswyr y dyfodol yn cael eu rhwystro rhag sefyll dros etholiad. Yn ogystal, fe ddiweddaron ein canllawiau i'r rhai sy'n cynnal etholiadau i adlewyrchu'r newidiadau i ddiogelwch ymgeiswyr. Mae gan heddluoedd bellach gynghorwyr heddlu lleol sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt sengl ac yn cynnal sesiynau briffio diogelwch i ymgeiswyr. Fe lunion ni ffurflenni cyswllt ymgeiswyr newydd i gefnogi cynghorwyr yr heddlu i ymgysylltu'n uniongyrchol ag ymgeiswyr i gynnal arweiniad a sesiynau briffio ar ddiogelwch.

- Cyn etholiadau mis Mai 2026, fe weithion ni gyda phleidiau i ddatblygu cyfres lefel uchel o egwyddorion i lywio'r sefyllfa ymgyrchu y gallwch eu gweld ar ein gwefan. Mae'r egwyddorion yn ychwanegu at yr ymddygiad a'r themâu cyffredin sy'n deillio o godau ymddygiad y pleidiau eu hunain. Er bod gan bleidiau eu codau ymddygiad eu hunain ar gyfer eu haelodau, roeddem am roi safonau ymddygiad cyffredin sy'n adlewyrchu'r gofynion lleiaf posibl o ran ymddygiad ar waith i wneud yn siŵr bod ymgyrchwyr ac ymgeiswyr annibynnol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn. Ar ôl etholiadau mis Mai, byddwn yn asesu a gwerthuso sut y gweithiodd yr egwyddorion dewisol yn ymarferol. Byddwn yn defnyddio'r asesiad hwn i ddatblygu agwedd fanwl ar y cod ymddygiad estynedig, a byddwn yn gweithio arno gyda phleidiau, ymgyrchwyr, a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ei fod yn cofnodi heriau a realiti penodol sefyllfa ymgyrchu heddiw.

- Rydym yn datblygu rhagor o allu ac arbenigedd o ran Deallusrwydd Artiffisial ac adnoddau digidol i ddadansoddi effaith cynnwys ffugiad dwfn gwleidyddol mewn etholiadau ar farn y cyhoedd. Mae cynllun peilot canfod cynnwys Ffugiad Dwfn ar waith ar gyfer etholiadau mis Mai 2026. Nod y cynllun peilot hwn yw canfod cynnwys ffugiad dwfn gwleidyddol a dadansoddi ei effaith. Bydd hyn yn caniatáu i ni olrhain tueddiadau cyffredinol, ac os oes angen, cymryd camau priodol yn unol â'n cylch gwaith rheoleiddio neu gysylltu ag eraill a all weithredu, megis Ofcom, darlledwyr, yr heddlu, yn ogystal â phleidiau gwleidyddol.

- Rydym wedi cynyddu ein cymorth rheoleiddio i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid. Darparon ni becynnau hyfforddiant pwrpasol i nifer o bleidiau

gwleidyddol a dylunion ni raglenni diddorol a hawdd eu defnyddio i ganiatáu i ymgeiswyr, asiantiaid a thrysoryddion ddeall y gyfraith mewn ffordd sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau ymarferol y rôl ac yn eu grymuso i wneud eu rôl yn hyderus.

- Cyhoeddon ni ffurflenni gwariant wedi'u diweddaru ar gyfer Senedd yr Alban, y Senedd ac etholiadau lleol yn Lloegr yn 2026. Roedd nodweddion hawdd eu defnyddio newydd yn ei gwneud yn haws i ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol lenwi eu ffurflenni, a oedd yn cynnwys cyfrifo cyfansymiau'n awtomatig, nodiadau wedi'u symleiddio wedi'u hymgorffori ar y ffurflen gwariant, a threfnu'r ffurflen yn ôl math y taliad, yn hytrach na chategorïau gwariant, sef rhywbeth yr ydym yn gwybod ei fod yn haws i ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol ei ddefnyddio'n ymarferol.
- Fe lunion ni grynodeb drafft dwy dudalen o gyfrifoldebau ariannol asiant etholiad, sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y rhai sy'n gweithredu fel asiant etholiad am y tro cyntaf. Cafodd hyn ei gynnwys fel rhan o becyn ymgeisydd swyddog canlyniadau, ond bu galw mawr amdano o ystyried nifer yr asiantiaid am y tro cyntaf rydym yn eu gweld ym mhob etholiad.

**Ein perfformiad**

| **Dangosyddion perfformiad allweddol** | **Targed** | **2025/26** |
|---|---|---|
| Cyhoeddi adroddiadau rhoddion/benthyciadau a datganiadau cyfrifon a geir cyn y dyddiad statudol ymhen 30 a 60 diwrnod yn y drefn honno. | **100%** | **100%** |
| Prydlondeb cyngor i bleidiau ac ymgyrchwyr, ymgeiswyr ac asiantiaid ar faterion rheoleiddio, ymhen 3 diwrnod gwaith ar gyfer achosion rheolaidd, 5 diwrnod gwaith ar gyfer achosion o gymhlethdod canolig a dau fis ar gyfer achosion mwy cymhleth; ac ar gyfer y ddau fis cyn ac ar ôl etholiad, 2 ddiwrnod gwaith. | **90% (yn codi i 92% yn 2026/27 a 95% erbyn 2029/30)** | **98%** |
| Mynd i'r afael ag ymchwiliadau i gyllid gwleidyddol yn brydlon, a'u dirwyn i ben yn brydlon.<br><br>Yn ddibynnol ar gategori:<br>Achosion syml ymhen 90 diwrnod, achosion cymhleth ymhen 180 diwrnod, ac<br>achosion cymhleth iawn ymhen 365 diwrnod, er efallai | **100%** | **67%** |

| | | |
|---|---|---|
| y bydd eithriadau i hyn lle bo asiantaethau eraill ynghlwm | | |
| Gwasanaeth prydlon o ran penderfyniadau sancsiwn dechreuol a hysbysiadau terfynol (yn dilyn cyfnod ar gyfer cynrychioliadau) ymhen 28 diwrnod calendr. | **90%** (codi i 95% erbyn 2028/29) | **10%** |
| Ymateb i ymholiadau gan bwyntiau cyswllt unigol yr heddlu ymhen amserlen benodol yn dibynnu ar gategori:<br>categori 1 ymhen 3 diwrnod gwaith,<br>categori 2 ymhen 5 diwrnod gwaith, a<br>chategori 3 ymhen 10 diwrnod gwaith | **90%** (yn codi i 95% erbyn 2028/29) | **96%** |

Mae ein gwaith gorfodi yn cynnwys mwy a mwy o achosion cymhleth sy'n gofyn am gydweithio agos gyda phartneriaid allanol. Er bod y dull hwn yn hanfodol i sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu'n gadarn a phenderfyniadau'n cael eu gwneud yn gymesur, gall ymestyn amserlenni gan fod camau allweddol yn dibynnu ar flaenoriaethau a phrosesau statudol partneriaid. Rydym yn lliniaru hyn drwy ymgysylltu'n gynt â phartneriaid, blaenoriaethu achosion yn well, ac adolygu dangosyddion perfformiad allweddol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu natur ymchwiliadau cymhleth yn gywir. Mae nifer yr achosion yn fach hefyd; er enghraifft, yn Ch1, cawsom un achos o'r fath.

## Arwain trafodaeth ar sail gwybodaeth ynghylch dyfodol etholiadau

Ein nod yw:

- Sicrhau bod llunwyr polisi, seneddau, a llywodraethu'r DU yn gallu cael gafael yn haws ar gyngor a thystiolaeth annibynnol ar yr heriau tymor canolig a hirdymor sy'n wynebu etholiadau yn y DU.
- Datblygu cynigion polisi sydd wedi'u gwreiddio mewn tystiolaeth gadarn, sy'n adlewyrchu profiadau pleidleiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadol, ac sy'n helpu i gyflawni eu hanghenion a'u disgwyliadau yn well.
- Cyflwyno cynigion polisi sy'n ymarferol i'w rhoi ar waith ac yn gallu cael eu cyflawni'n effeithiol gan ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadol.

Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn:

- Roedd strategaeth Llywodraeth y DU ar gyfer etholiadau modern a diogel, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025, yn adlewyrchu llawer o'n hargymhellion polisi hirsefydlog i wella etholiadau a rheoleiddio cyllid gwleidyddol. Cyn cyflwyno Bil Cynrychiolaeth y Bobl, fe barheuon ni i roi ein craffter, tystiolaeth a'n harbenigedd ar bolisïau etholiadol i gefnogi Gweinidogion a seneddwyr, ac rydym yn cynllunio sut y byddwn yn cefnogi rhoi unrhyw newidiadau ar waith yn y dyfodol. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod newidiadau yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gweithio i bleidleiswyr, gweinyddwyr, pleidiau ac ymgyrchwyr - a chyflawni gwelliannau go iawn i'r system bleidleisio.
- Parhaom i gyflwyno'r achos dros ddiwygio cyfreithiau cyllid gwleidyddol er mwyn sicrhau bod y system yn cael ei hamddiffyn rhag y posibilrwydd o ddylanwad o dramor. Cyflwynon ni dystiolaeth i'r Cyd-bwyllgor ar y Strategaeth Diogelwch Cenedlaethol ym mis Medi a chyflwynon ni dystiolaeth a gwybodaeth i gefnogi adolygiad Philip Rycroft o wrthbwyso dylanwad ac ymyrraeth ariannol tramor ar wleidyddiaeth y DU. Nododd y Pwyllgor ac Adolygiad Rycroft nifer o argymhellion pwysig a fyddai'n helpu i ddiogelu ein democratiaeth rhag ymyrraeth dramor yn well.
- Rydym wedi ymrwymo i dyfu cronfa dystiolaeth gadarn, gan gasglu cipolygon a data gan randdeiliaid ar draws y system etholiadol. Roedd hyn yn cynnwys ein proses flynyddol i olrhain agweddau'r cyhoedd, gan ystyried y farn ar etholiadau a democratiaeth yn y DU. Dyma'r ail mewn cyfres o adroddiadau ar agweddau bobl ifanc ar ddemocratiaeth, gwleidyddiaeth a phleidleisio.
- Rydym hefyd wedi gwneud rhagor o waith ymgysylltu gyda chymheiriaid rhyngwladol, gan ddysgu oddi gan eu profiadau diweddar a rhannu arferion gorau. Ym mis Awst, fe groesawon ni Comisiwn Etholiadol Canolog Wcráin i drafod pleidleisio oddi allan i'r wlad a chynllunio ar gyfer etholiadau wedi'r rhyfel yn y dyfodol. Bûm hefyd yn cwrdd â dirprwyaethau o lunwyr deddfau a chyrff rheoli etholiadau a oedd yn ymweld â'r DU o Sweden, De Korea a Japan.

## Ein perfformiad

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed | 2025/26 |
|---|---|---|
| Cyhoeddi adroddiadau etholiad/refferendwm ymhen chwe mis o'r diwrnod pleidleisio neu'r diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno ffurflenni | **100%** | **100%** |
| Rydym yn ymateb i bob cynnig polisi, ymgynghoriadau deddfwriaethol ac ymholiadau Seneddol o fewn yr amserlen ofynnol, neu'n rhoi sylwadau arnynt | **100%** | **100%** |

| | | |
|---|---|---|
| Rydym yn ymateb i ohebiaeth a chwestiynau Seneddol gan gynrychiolwyr etholedig ymhen 10 diwrnod gwaith | **100%** | **96.5%** |
| Bodlonrwydd â'n cymorth materion cyhoeddus ymhlith aelodau cyrff goruchwylio Seneddol, llefaryddion Cysgodi a Gweinidogol allweddol | **70% (codi i 80% erbyn 2028/29)** | **Dim data ar gyfer 2025/26** |

Roeddem yn is na'n targed i ymateb i ohebiaeth a chwestiynau Seneddol gan gynrychiolwyr etholedig ymhen 10 diwrnod gwaith. Roedd problemau â chapasiti staff yn Ch1 yn golygu ei bod yn cymryd hirach i ymateb i ddau lythyr AS a oedd yn gofyn am adolygiad ac ymchwiliad pellach.

Rydym yn cynnig ein bod yn ail-edrych ar y dangosydd perfformiad allweddol ynghylch boddhad â chymorth materion cyhoeddus yn ystod 2026/27 i sicrhau ei fod yn rhoi adlewyrchiad cywir o'n perfformiad. 2023 oedd y tro diwethaf i ni gasglu'r data hwn, lle'r oedd y gyfradd fodlonrwydd ar gyfer Aelodau Seneddol yn 45% a 57% i gymheiriaid. Mae hyn yn seiliedig ar nifer fach o ymatebwyr. Rydym yn ystyried sut i wella'r data hwn.

## Cryfhau'r Comisiwn Etholiadol

Ein nod yw:

- Cryfhau ein systemau a'n diogelwch gwybodaeth i leihau risgiau gweithredol, atal toriadau data, a defnyddio data'n well er budd y sefydliad a'r cyhoedd.
- Lansio system cyllid gwleidyddol newydd ar-lein a fydd yn lleihau baich gweinyddol ar ymgyrchwyr ac yn gwella cydymffurfedd. Manteisio yn rhagor ar awtomeiddio data ac adnoddau digidol newydd i wella hygyrchedd ein data.
- Cyflawni gwerth am arian ac atebolrwydd drwy gefnogi a grymuso ein staff, a thrwy fod yn dryloyw, adrodd yn rheolaidd a chraffu'n effeithiol.

Gwaith a wnaed i gyflawni'r nod hwn:

- Rydym yn gweithio tuag at greu system Cyllid Gwleidyddol Ar-lein newydd. Ymgynghoron ni â phleidiau a'r gymuned reoleiddedig mewn ystod o fforymau i ddysgu beth sydd eu hangen arnynt gan y system. Bydd y system newydd yn lleihau'r baich gweinyddol arnynt ac yn gwella tryloywder i bleidleiswyr.
- Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn seiberddiogelwch. Cyflawnon ni achrediad Cyber Essentials Plus ym mis Awst 2025, sef cynllun sy'n cael ei gefnogi gan y Llywodraeth a'i argymell gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol - dyma ran o Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU (GCHQ) sy'n helpu busnesau, y sector cyhoeddus ac unigolion i ddiogelu'r gwasanaethau ar-lein a'r dyfeisiau rydym ni oll yn dibynnu arnynt. Mae hyn yn

ein galluogi i sicrhau ein rhanddeiliaid bod gennym y mesurau diogelwch diweddaraf ar waith.

- Mae cyflymder ein hymateb, graddfa'r buddsoddiad, a'r ystod eang o welliannau seiberddiogelwch wedi bod yn hanfodol i ni lwyddo. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein seiberddiogelwch yn gyfredol mewn ymateb i fygythiadau presennol a newydd ac yn parhau'n wyliadwrus o'r risgiau ehangach a ddaw i ran ein system etholiadol gan actorion maleisus.
- Cyflwynon ni system rheoli perfformiad newydd, sy'n cynnwys elfen dalu sy'n gysylltiedig â pherfformiad sy'n cymell a gwobrwyo perfformiad personol rhagorol. Roedd y gwaith cefndirol i'r prosiect hwn yn cynnwys cynnal adolygiad o gyflog a oedd yn meincnodi cyflog y Comisiwn yn erbyn miloedd o rolau ar draws rheoleiddwyr a sefydliadau'r sector cyhoeddus er mwyn asesu a mireinio ein cynnig o ran buddion.
- Fel rhan o'r Strategaeth Pobl newydd, rydym wedi gweithredu swyddogaeth recriwtio newydd i fodloni anghenion darparu adnoddau ein Cynllun Corfforaethol.
- Yn dilyn cyflwyno ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024/25 erbyn yr amserlen ofynnol cyn y toriad a chyda barn archwilio diamod, rydym wedi parhau i gryfhau ein rheolaeth ariannol drwy gydol y flwyddyn ariannol hon. Mae cywirdeb ein prosesau rhagweld ariannol yn parhau i wella, ac o ganlyniad i'r gallu rhagweld gwell hwn, rydym mewn sefyllfa i ddychwelyd £3.4 miliwn o'n cyllideb neilltuedig drwy'r broses Amcangyfrifon Atodol.
- Mae cyflawni'r mentrau hyn yn seiliedig ar gefnogaeth sylweddol gan Dîm Caffael y Comisiwn. Drwy weithio'n agos ar draws y sefydliad, mae'r tîm wedi sicrhau bod yr holl wasanaethau a'r nwyddau a ddaw o ffynonellau allanol yn bodloni ein rhwymedigaethau statudol dan Ddeddf Caffael 2023, yn dilyn llwybrau caffael tryloyw a chystadleuol, ac yn dangos gwerth clir am arian. Mewn sawl achos, mae ail-negodi ar gontractau wedi arbed symiau sylweddol o arian.

## Ein perfformiad

Mae dangosyddion perfformiad yn cynnwys y bydd ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r tair Senedd cyn toriad yr haf. Rydym yn gobeithio y bydd ein datganiad ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cael barn archwilio ddiamod gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed | 2025/26 |
|---|---|---|
| Ymateb i ymholiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen statudol o 20 diwrnod gwaith neu ymhen estyniad y cytunwyd arno. | **90% (codi i 95% erbyn 2028/29)** | **66%** |
| Bydd yr holl staff sy'n gweithio ar brosesau sgrinio cydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael hyfforddiant a fydd yn cynnwys unrhyw effaith ar gydraddoldeb cyfleoedd a/neu gysylltiadau da | **100%** | **Dim data ar gyfer 2025/26, gweler y nodyn isod** |
| Talu anfonebau'n brydlon, ac anfonebau diddadl a dilys yn cael eu talu ymhen 10 diwrnod gwaith | **90% (yn codi i 95% yn 2028/29)** | **93.3%** |

Er nad oes gennym ddata ar hyn o bryd i adrodd ar staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gallwn gadarnhau bod y broses ar gyfer cwblhau prosesau sgrinio effaith ar gydraddoldeb wedi'u diweddaru ac fe ddyluniwyd ffurflen newydd ar-lein sy'n haws ei defnyddio. Mae cymorth un-i-un gan y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a mynediad at adnoddau hyfforddiant ar-lein ar gael.  Rydym yn datblygu rhaglen hyfforddiant a phecyn cymorth newydd i ddefnyddwyr. Rydym yn gobeithio eu lansio yn hydref 2026, a fydd yn ein caniatáu i gofnodi data cywir ar ganran y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol.

### Perfformiad Rhyddid Gwybodaeth

Yn 2025/26, cawsom 190 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a oedd yn fwy na'r arfer ac yn fwy cymhleth. Roeddem yn siomedig nad oeddem yn gallu ymateb i'r rhain oll o fewn yr amserlen. Rydym wedi sefydlu nifer o brosesau newydd er mwyn gwella perfformiad. O'r herwydd, mae perfformiad yn gwella'n sylweddol, ac rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflawni ein targed erbyn diwedd chwarter cyntaf 2026-27. Ymatebon ni i'r holl Geisiadau Am Fynediad At Ddata Gan y Testun dilys ymhen mis, gan gyflawni ein targed o 100%.

# Defnyddio ein hadnoddau i gyflawni ein nodau

## Ein pobl

### Ymgysylltiad a chysylltiadau staff

Mae staff ymroddedig ac arbenigol y Comisiwn i'w cael ledled y DU; 78% yn ein pedwar swyddfa a 22% yn gweithio gartref ar hyd a lled y DU fel gweithwyr o bell sy'n gweithio â staff etholiadau lleol. Rydym yn defnyddio cyfathrebu mewnol i sicrhau bod ein holl staff wedi cysylltu â'r Comisiwn a'u cydweithwyr. Mae hyn yn cynnwys cylchlythyrau wythnosol, diweddariadau gan y Prif Weithredwr, digwyddiadau i'r holl staff, sesiynau 'dysgu am awr' a'r fewnrwyd.

Mae grŵp ymgysylltiad staff yn cwrdd o bryd i'w gilydd i drafod materion corfforaethol a diwylliant y Comisiwn, sy'n ceisio casglu barn a chipolygon gan bob tîm a phob lefel a galluogi llais staff wrth wneud penderfyniadau. Caiff hyn ei gefnogi gan gyfarfodydd prosiect ar draws timau, cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd cadw golwg gyda rheolwyr llinell yn rheolaidd. Rydym yn cynnal Arolwg Pobl blynyddol ac mae'r canlyniadau'n llunio cynllun gweithredu a roddir ar waith gan grwpiau gorchwyl a gorffen ar draws adrannau. Caiff cynnydd ei adrodd yn rheolaidd drwy sianeli cyfathrebu mewnol fel y fewnrwyd a sesiynau briffio i'r holl staff.

Mae llawer o bethau cadarnhaol i'w cael yn ein canlyniad o'r Arolwg Pobl 2025. Cwblhaodd 80% o staff y Comisiwn Etholiadol yr arolwg, a dangosodd y canlyniadau sgorau cryf ar draws meysydd fel cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chytunodd 86% bod y Comisiwn yn darparu gweithle lle maent yn teimlo nad oes rhaid iddynt guddio pwy ydynt, gydag 88% yn cytuno bod y Comisiwn wedi ymrwymo i greu gweithle amrywiol a chynhwysol. Mae 87% o staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu gan eu cydweithwyr, ac 85% yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith. Mae nifer y staff sy'n cytuno bod gan y Comisiwn Etholiadol ddiwylliant cadarnhaol yn 74%, sy'n uwch na 64% yn 2024.

Rydym yn falch o weld canlyniadau gwell mewn meysydd y gwnaethom eu targedu i'w gwella ar ôl Arolwg Pobl 2024. Mae 55% o staff yn cytuno y cymerwyd camau o ganlyniad i'r Arolwg Pobl blaenorol, sy'n uwch na 38% yn 2024 a 34% yn 2023. Mae metrigau o gwmpas TG o fewn y Comisiwn wedi gwella'n sylweddol, gyda 78% yn cytuno bod y Comisiwn yn darparu'r systemau TG sydd eu hangen arnynt i wneud eu swydd yn effeithiol, sydd 31 pwynt yn uwch na 47% yn 2024, ac roedd boddhad â

swyddfeydd yn 93% yn 2025 o'i gymharu ag 83% yn 2024, yn dilyn buddsoddi sylweddol yn ein seilwaith gweithio yn seiliedig ar adborth staff.

Mae canfyddiadau ynghylch recriwtio a chadw wedi gwella'n sylweddol eleni, wrth i ragor o staff gytuno bod y Comisiwn yn recriwtio gweithwyr o'r radd flaenaf (63% yn 2025, o'i gymharu â 52% yn 2024), bod cyfleoedd ar gyfer datblygu gyrfa (50%, o'i gymharu â 35% yn 2024), a bod y Comisiwn yn dda am gadw pobl fedrus. Mae ychydig dan hanner o'r ymatebwyr (47%) wedi dweud nad ydynt yn ystyried gadael y Comisiwn yn y tair blynedd nesaf, sydd ar ei fyny o'i gymharu â 31% yn 2024.

Mae gan y Comisiwn undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) weithredol, ac mae ei Phwyllgor Gweithredol ar gyfer y Gangen yn cwrdd yn rheolaidd â'r Prif Weithredwr i drafod materion sy'n berthnasol i staff.

**Y meysydd lle roeddem yn cymharu'n ffafriol gyda'r cyfartaledd yn y Gwasanaeth Sifil:**

Roedd **83%** yn argymell y Comisiwn fel lle i weithio ynddo (cyfartaledd o 63%)

Mae gennyf gysylltiad personol cryf â'r Comisiwn Etholiadol **71%** (cyfartaledd o 51%)

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i greu gweithle amrywiol a chynhwysol, **88%** (cyfartaledd o 78%)

Gallaf gyfrannu fy marn cyn i benderfyniadau gael eu gwneud **57%** (cyfartaledd o 39%)

Rwy'n credu y buaswn yn cael fy nghefnogi petaswn yn rhoi cynnig ar syniad newydd hyd yn oed os na fyddai'n gweithio: **76%** (cyfartaledd o 75%)

Mae cyfathrebu o fewn y Comisiwn yn fy hysbysu ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi, **74%** (cyfartaledd o 39%)

**Y meysydd lle roeddem yn cymharu'n llai ffafriol gyda'r cyfartaledd yn y Gwasanaeth Sifil:**

Dywedodd **28%** fod newid yn cael ei reoli'n dda (cyfartaledd o 33%)

Rwy'n teimlo bod ffydd ynof i wneud fy swydd yn effeithiol **85%** (cyfartaledd o 90%)

Mae gennyf gyfleoedd i ddatblygu **50%** (cyfartaledd o 52%)

*Yn ôl canlyniadau'r Arolwg Pobl, mis Rhagfyr 2025, mae cyfartaledd y Comisiwn yn uwch na'n meincnod Gwasanaeth Sifil ar sawl un o'n metrigau.*

**Ein perfformiad**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed | 2025/26 |
|---|---|---|
| Sgôr ymgysylltiad staff wedi'i gynnal yn yr arolwg staff | **70%** (yn codi i 75% erbyn 2028/29) | **71%** |

Mae ein sgôr ymgysylltiad staff yn dangos cynnydd sefydlog o 61% yn 2023 a 68% yn 2024 i gyrraedd y sgôr uchaf erioed o 71% eleni, sy'n uwch na'r meincnodi Gwasanaeth Sifil yn gyson. Roedd ein sgôr llesiant staff o 73% ychydig yn is na'n targed o 77%, ac roedd adborth staff yn yr Arolwg Pobl yn tynnu sylw at lwyth gwaith cynyddol fel ffactor a oedd yn dylanwadu ar hynny. Wrth i ni dyfu, mae'r Comisiwn yn recriwtio rhagor o staff i wneud ein gwaith i sicrhau bod modd cynnal llwythi gwaith.

## Iechyd a diogelwch galwedigaethol

Rydym yn adolygu ein polisi iechyd a diogelwch yn flynyddol. Mae gennym hefyd weithdrefnau, canllawiau ac asesiadau risg yn eu lle i gwmpasu ein holl weithgareddau craidd. Mae pwyllgor iechyd a diogelwch yn cwrdd pob chwarter ac yn goruchwylio ein trefniadau.

Rydym yn ysgogi archwiliadau iechyd a diogelwch mewnol o'n lleoliadau pob blwyddyn, sy'n cynnwys archwilio gweithleoedd ac adolygu systemau rheoli diogelwch. Mae'r archwiliadau hyn yn dweud wrthym a yw ein trefniadau yn briodol ac yn tynnu sylw at unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud. Yn 2025/26 fe wnaethom:

- Gyflwyno diffibrilwyr ym mhob un o'n swyddfeydd
- Cynnal asesiadau cyfarpar sgrin arddangos (DSE) i'r holl staff, gan ein bod ni oll yn gweithio'n hybrid - yn hytrach na gwneud yr asesiadau ar gael i'r rhai sy'n gweithio o adref yn llawn amser yn unig
- Cyflwyno TCC i wylio mynedfeydd swyddfeydd a storfeydd i ofalu am y staff sy'n gweithio mewn swyddfeydd
- Cynyddu nifer y swyddogion tân a swyddogion cymorth cyntaf ar draws yr holl swyddfeydd
- Cyflwyno synwyryddion HALO i fonitro ansawdd yr aer mewn swyddfeydd

# Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i fod yn weithle cynaliadwy. Rydym yn cydnabod bod cyflawni ein gweithgareddau yn effeithio ar yr amgylchedd ac rydym yn parhau i weithio i leihau'r effaith hon.

Rydym yn adrodd gwybodaeth amgylcheddol lle y mae effeithiau'n sylweddol ar ein gweithrediadau, lle y gallwn ddylanwadu'n ystyrlon ar ganlyniadau, a lle y gellir casglu data yn ddibynadwy ac yn dryloyw. Nid ydym yn adrodd ar feysydd nad ydw'r effeithiau arnynt yn sylweddol, ar feysydd sydd ymhell y tu hwnt i'n rheolaeth, neu lle mae ansawdd data'n dibynnu'n bennaf ar drydydd partïon. Mae'r dull hwn yn gyson â chanllawiau adrodd ar gynaliadwyedd Trysorlys EF a'i fwriad yw darparu eglurder, tryloywder a gwerth i ddefnyddwyr.

Rydym yn cymryd gofod swyddfa ar brydles mewn pedair dinas o gyfuniad o berchnogion eiddo o'r sector gyhoeddus a'r sector breifat. Nid oes gennym reolaeth uniongyrchol dros gyflenwyr cyfleustodau a gwaredu gwastraff yn ein heiddo. Yn ein holl swyddfeydd, mae perchennog yr eiddo yn rheoli defnydd o ynni a dŵr a gwaredu gwastraff ac mae'n adfer y gost drwy dâl gwasanaeth sydd wedi'i gydgrynhoi.

Mae safonau adrodd cynaliadwyedd yn datblygu'n gyflym ar draws sectorau cyhoeddus a phreifat, sy'n cael eu hysgogi gan ofynion byd-eang mwyfwy ar gyfer rhagor o dryloywder ac atebolrwydd ar faterion yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Yn y DU, mae Trysorlys Ei Fawrhydi wedi cyflwyno gofynion adrodd graddol o 2023-24 ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog a chyrff hyd braich mwy sy'n unol â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD). Mae'r gofynion hyn yn ategu mentrau fel Fframwaith Datgelu Tasglu'r Cynllun Pontio, Strategaeth Arian Gwyrdd y DU, ac Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth a ddiweddarwyd. Maent oll yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Sero Net y DU a'r Cynllun Ffyniant Gwyrdd.

Mae'r meini prawf hyn yn cwmpasu pedair thema: llywodraethu, strategaeth, rheoli risg, a metrigau a thargedau. Oherwydd maint a statws y Comisiwn fel corff Seneddol annibynnol ac nid adran na chorff hyd braich, mae hyn yn golygu nad yw TCFD yn berthnasol. Serch hynny, rydym yn parhau wedi ein hymrwymo i weithredu mewn ffordd gynaliadwy, gwneud dewisiadau sy'n ystyriol o'r amgylchedd, a lleihau ein hôl troed carbon pan fo modd mewn meysydd y maen gennym ddylanwadu uniongyrchol drostynt a data dibynadwy ar eu cyfer.

**Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Cwmpas 3 (Teithio Busnes)**

Rydym yn adrodd allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 3 sy'n gysylltiedig â theithio busnes swyddogol. Mae allyriadau teithio yn berthnasol i'n gweithrediadau ac yn cynrychioli'r effaith amgylcheddol fwyaf arwyddocaol sydd o fewn ein rheolaeth uniongyrchol. Yn wahanol i ddata gwastraff, dŵr ac ynni ar gyfer adeiladau, lle bo cyfrifoldeb ac ansawdd data yn disgyn yn bennaf ar landlordiaid, caiff penderfyniadau teithio eu gwneud gan y Comisiwn, a gellir casglu data allyriadau yn gyson ac yn ddibynadwy. Mae adrodd ar y maes hwn felly'n darparu tryloywder ac atebolrwydd ystyrlon i ddefnyddwyr.

Mae defnyddio teithiau awyren domestig yn caniatáu i weithwyr ymweld â'r swyddfeydd datganoledig. Yr allyriadau mwyaf o'n teithiau awyren domestig eleni oedd 345CO2e, a chyfanswm y gwariant mewn perthynas â hynny oedd £53,000.

Er ein bod yn ceisio cadw'r pellter a deithir gan hediadau busnes rhyngwladol i'r lleiaf posibl, fe deithion ni dramor i ymgysylltu â phartneriaid mewn gwledydd gwahanol i ddysgu oddi gan eu profiadau a rhannu arferion gorau. Rydym wedi cyflwyno polisi teithio cynaliadwy sy'n cynnwys lleihau nifer yr hediadau rhyngwladol drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu eraill fel telegynadledda fideo.

Mae ein data cynaliadwyedd ar gael yn atodiad yr adroddiad hwn.

**Rydym wedi mynd i'r afael â'n heffaith amgylcheddol ymhellach drwy:**

- weithio gyda'r holl gyflenwyr yn unol â Safonau Prynu'r Llywodraethu ac yn unol â'r Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth (GGC). Rydym wedi ymrwymo i gynaliadwyedd o ran y ffordd y caiff nwyddau a gwasanaethau eu caffael ac yn gweithio gyda chyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr i wella perfformiad, ynghyd â sicrhau gwerth am arian.
- Caiff cyfarpar TG ei wneud o blastig a ailgylchwyd a chaiff eitemau eu hailgylchu'n rheolaidd tan na fyddant yn weithredol mwyach neu nad ydynt yn gydweddol ar gyfer anghenion y Comisiwn mwyach.
- lleihau nifer yr adnoddau argraffedig a ddarperir i weinyddwyr etholiadol a grwpiau eraill, gan ganolbwyntio ar ddeunyddiau electronig pan fo modd
- mae gweithio hybrid/o bell yn helpu i leihau ôl troed carbon ein gweithwyr
- annog defnyddio fideo a thelegynadledda i osgoi teithio diangen sy'n creu allyriadau CO2 o ganlyniad
- rhoi cyfleusterau ailgylchu yn eu lle ym mhob un o'n swyddfeydd.

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Rydym yn parhau wedi ein hymrwymo i wreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar y Comisiwn ac yn ein holl weithgarwch gyda phleidleiswyr, ymgeiswyr, gweinyddwyr a rhanddeiliaid eraill.

Fel un o sefydliadau Sector Cyhoeddus y DU, mae gennym ystod o rwymedigaethau statudol i sicrhau ein bod yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau da yn unol â'n cyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon (1998) a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Rydym wedi llunio ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn seiliedig ar dri nod strategol

- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y broses ddemocrataidd: sicrhau y gall pawb cymwys gyfranogi yn y broses etholiadol, boed hynny fel pleidleisiwr, ymgyrchydd neu ymgeisydd - drwy nodi rhwystrau, gwneud argymhellion a gweithio gyda phobl eraill i'w chwalu

- Gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl waith: sicrhau ein bod yn gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gyflawni ein holl waith, trin ein holl randdeiliaid a phartneriaid yn deg a chyda pharch, bod yn dryloyw ynghylch y penderfyniadau a wnawn
- Rhoi cyfleoedd cyfartal i'r holl staff: sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bawb sy'n gweithio yn y Comisiwn Etholiadol a sicrhau bod ein holl staff yn cael eu trin yn deg a chyda pharch

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y broses ddemocrataidd**

Rydym yn cefnogi pleidleiswyr drwy sicrhau bod ein hymgyrchoedd a'n hadnoddau mor hygyrch â phosibl. Rydym yn cynnal ymchwil sy'n cynnwys arolygon olrhain ac adroddiadau yn dilyn pleidleisiau i nodi rhwystrau i bleidleisio. Fel rhan o'n hadroddiad, rydym yn tynnu sylw at brofiadau pleidleiswyr anabl, cyflawni ein dyletswydd statudol a gwneud argymhellion i fynd i'r afael â'r rhwystrau a ddaw i ran pobl.

Mae'r holl ddeunyddiau perthnasol yn bodloni Safonau'r Gymraeg a chânt eu dylunio'n ddwyieithog.

**Gwreiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein holl waith**

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ennyn sylw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y broses ddemocrataidd, megis pobl ifanc, pobl anabl a'r rhai sy'n profi digartrefedd. Mae gan ein proses gaffael yn cynnwys ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chaiff penderfyniadau eu gwneud gydag effeithiau ar gydraddoldeb dan sylw.

Rydym yn darparu canllawiau clir ar gyfer y broses cynnal etholiadau, ac yn defnyddio safonau perfformio i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i gyflawni gwasanaethau hygyrch a chynhwysol.

Rydym hefyd yn cefnogi ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol i gyfranogi mewn modd sy'n cydymffurfio, drwy roi canllawiau clir a hygyrch, sy'n cynnwys adnoddau wedi'u hanimeiddio a fformatau mwy syml.

**Cyfleoedd cyfartal i'r holl staff**

Rydym yn parhau wedi ein hymrwymo i'r Siarter Hil yn y Gwaith ac rydym yn Gyflogwr sy'n Hyderus o ran Anabledd. Fel rhan o'n strategaeth llety, rydym yn diweddaru ein holl swyddfeydd i'w gwneud yn fwy hygyrch. Mae ein rhwydweithiau

staff yn chwarae rhan allweddol o ran cryfhau lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chefnogi staff ar draws y Comisiwn.

Caiff cyfathrebiadau mewnol eu cyflwyno drwy gynllun cydgysylltiedig a chalendr cynhwysiant, sy'n cael eu cefnogi gan gylchlythyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 'Cipolygon ar Gynhwysiant' misol a chynnwys rheolaidd ar draws sianeli staff. Mae ymgysylltu wedi cynyddu'n sylweddol yn 2025, wrth i bostiadau gael eu gweld dros 8,500 o weithiau, a thros 1,750 yn hoffi a rhyngweithio. Mae rhagor o staff bellach yn hyderus i rannu eu straeon a meddyliau personol.
Rydym wedi ehangu cyfleoedd dysgu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sylweddol a chaiff pob aelod newydd o staff wybodaeth bwrpasol ar ddysg, rhwydweithiau ac adnoddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Rydym yn parhau i fesur effaith drwy ein Harolwg Pobl. Mae 88% o'n staff yn cytuno bod y Comisiwn wedi ymrwymo i greu gweithle amrywiol a chynhwysol (o'i gymharu ag 83% yn 2024). Rydym hefyd yn falch ein bod wedi bod yn rownd derfynol ar gyfer y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau yn Engage Awards 2025.

# Defnyddio ein hadnoddau ariannol yn effeithlon

Ariennir ein hadnoddau gan dair senedd – y Senedd, Senedd y DU a Senedd yr Alban.

Gwerth yr adnodd cyfunol a oedd ar gael i'r Comisiwn gan Senedd y DU ar gyfer 2025/26 oedd £44.7m ar gyfer gweithgarwch y pleidleisiwyd drosto ar ôl i ni ddychwelyd £3.44m yn ein Hamcangyfrif Atodol. Cawsom hefyd gyllid gwerth £259k na phleidleisiwyd drosto i dalu ffioedd y Comisiynwyr. Mae hyn yn eithrio'r gyllideb a gafwyd gan Senedd yr Alban a Senedd Cymru, ac mae'r symiau hyn i'w gweld yn y tabl isod.

**Dadansoddiad o'n cyllideb derfynol**

| | Pleidleisiwyd drosto<br>£m | Heb Bleidleisio<br>£m | Cyfanswm<br>£m |
|---|---|---|---|
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | |
| Adnodd | 42.4 | 0.3 | 42.7 |
| Cyfalaf | 2.1 | 0.0 | 2.1 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Adnodd | 0.1 | 0.0 | 0.1 |
| Cyfalaf | 0.1 | 0.0 | 0.1 |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | | | |
| Adnodd | 42.5 | 0.3 | 42.8 |
| Cyfalaf | 2.2 | 0.0 | 2.2 |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | 44.7 | 0.3 | 45.0 |
| | | | |
| **Gofyniad arian parod net*** | 43.1 | - | 43.1 |

*Y gofyniad arian parod net yw swm yr arian sydd ei angen ar gyfer gwariant ar ôl i'r holl incwm ac eitemau nad ydynt yn arian parod gael eu tynnu

Dangosir y £4.3 miliwn o gyllideb Senedd yr Alban a £2.7 miliwn o gyllideb y Senedd fel incwm drwy gydol y cyfrifon ac yn y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SoPS). Mae gweddill y gyllideb a dynnwyd o'r Senedd a Senedd yr Alban ac nad yw wedi'i wario wedi'i gynnwys fel incwm gohiriedig yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## Perfformiad ariannol 2025-26

**Ein perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn 2025/26:**

| | Alldro - Pleidleisiwyd drosto £m | Alldro - Heb Bleidleisio £m | Alldro - Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | |
| Adnodd | 37.0 | 0.2 | 37.2 |
| Cyfalaf | 0.2 | 0.0 | 0.2 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Adnodd | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Cyfalaf | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Cyfanswm Alldro Net** | | | |
| Adnodd | 37.0 | 0.2 | 37.2 |
| Cyfalaf | 0.2 | 0.0 | 0.2 |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | 37.2 | 0.2 | 37.4 |
| | | | |
| **Gofyniad arian parod net*** | 31.3 | - | 31.3 |

Roedd gwariant o fewn cyfanswm rheoli Seneddol ac adroddon ni gyfanswm o alldro £37.4m ar draws ein gwariant y pleidleisiwyd drosto a heb bleidleisio drosto. Mae

49% o'n gwariant adnoddau yn gysylltiedig â'n costau staff (49% o wariant adnoddau ac eithrio gwariant yr Alban a'r Senedd). Mae'r gweddill yn gysylltiedig â digwyddiadau a phrosiectau, gan gynnwys ein prosiectau Cynllun Corfforaethol a chostau prynu cyfryngau ar gyfer etholiadau lleol mis Mai 2025 yn ogystal â chostau cynhyrchu ymgyrchoedd ar gyfer etholiadau mis Mai 2026.

**Gwariant cyffredinol**


Mae ein halldro o £37.4m yn cynnwys incwm a gafwyd gan Senedd yr Alban a'r Senedd i ariannu eu cyfran o'r gwariant.

Yn ystod 2025/26, gwnaeth y Comisiwn ail-fesur y rhwymedigaeth brydles a'r ased hawl-i-ddefnyddio cyfatebol ar gyfer ei brydles 3 Bunhill Row Llundain yn dilyn newid mewn taliadau prydlesi yn deillio o gyfnod dim rhent o fis Hydref 2025 i fis Gorffennaf 2026.

Oherwydd yr ail-fesur, roedd gostyngiad yn y rhwymedigaeth brydles, ac addasiad cyfatebol i'r ased hawl-i-ddefnyddio yn unol â Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16. Mae effaith yr ail-fesur hwn i'w weld yn yr adran ychwanegiadau/gwarediadau yn y nodyn hwn a daeth gostyngiad o £0.42m mewn gwariant cyfalaf yn ei sgil. Gwnaeth hefyd leihau costau dibrisio a llog gan £0.14m a £0.01m yn y drefn honno yn DEL Adnoddau (RDEL), fel yr adroddir yn y Datganiad o Gyflenwad Seneddol (SoPS).

Mae gwariant y Senedd a Senedd yr Alban yn y tabl isod yn is-set o'r gost gyffredinol. Mae ein costau gweithredu yn cynrychioli ein pryniant o nwyddau a gwasanaethau, a ddangosir yn nodyn 3 y cyfrifon, ac eithrio gwariant Adran 13. Mae adran 13, sydd hefyd yn cael ei galw'n ymwybyddiaeth gyhoeddus, yn gofyn i ni hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol presennol ac yn yr arfaeth yn y DU. Mae'n ein galluogi i greu a chyflwyno cynnwys a rhaglenni addysg neu wybodaeth i'r cyhoedd a darparu grantiau i bobl neu gyrff eraill i'w galluogi nhw i wneud hynny.

### Gwariant y Comisiwn Etholiadol 2025/26




## Gwahaniaeth rhwng cyllideb a gwariant

Roedd yr amrywiant o £7.4m rhwng y gyllideb a'r gwariant gwirioneddol yn bennaf oherwydd:

Tanwariant cronfa wrth gefn £2.3m: roedd gwariant gofynnol yn erbyn cynlluniau wrth gefn cytunedig ar gyfer prosiectau Cynllun Corfforaethol wedi'u cyflymu, gweithgareddau Adran 13 ychwanegol, canlyniadau adolygiad o dâl a chwyddiant heb fod yn dâl yn llawer is nas rhagwelwyd.

Arbedion o £1.9m, gydag enghreifftiau o effeithlonrwydd ar draws y Comisiwn isod:

**Swyddfa Llundain:** mae rhoi lle i'r Comisiwn Ffiniau wedi lleihau ein costau £100k y flwyddyn, yn ogystal â chaniatáu i swyddfeydd cyhoeddus gael eu defnyddio'n fwy effeithlon yn gyffredinol. Rydym hefyd wedi cyflawni lleihad sylweddol mewn costau cyfleustodau o ganlyniad i ddefnyddio cyfarpar modern, megis gostyngiad o 50% mewn costau pŵer.

**Swyddfa Belfast**: fe wnaeth negodi a chamau rheoli cyflym ein caniatáu i gytuno ar osgoi £92k o gostau dadfeilio.

**Contract gweinydd a bwrdd gwaith TG (gwasanaeth a reolir)**: gwnaeth negodi a chysoni contractau ar wahân i un gwasanaeth a reolir arbed £100k.

**System olrhain perfformiad corfforaethol**: gan fanteisio ar alluoedd technoleg fwy newydd, arbedon ni tua £140k o ran costau gweithredu drwy roi'r system newydd ar waith.

**Tanwariant cyfalaf o £2.0m**: Roedd hyn yn bennaf oherwydd ein prosiect Cyllid Gwleidyddol Ar-lein a gwaith cyflawni datblygu gwefan yn cael eu gohirio tan y flwyddyn nesaf, ynghyd ag ail-fesur eiddo Bunhill Row, a wnaeth leihau sefyllfa gyffredinol y gwariant cyfalaf.

**Tanwariant dibrisio o £0.6m**: caiff hwn ei arwain gan ein hasedau sy'n mynd yn fyw ar gyfer datblygu gwefan a meddalwedd TG yn cael ei roi ar waith yn hwyrach na fwriadwyd.

**Tanwariant o £0.4m o ran costau staff**: allan o'r 90 o rolau yr oeddem yn rhagweld y byddent yn cael ei llenwi yn ystod y flwyddyn ariannol, fe wnaethom lenwi 72. Mae'r tanwariant yn bennaf oherwydd swyddi gwag, sy'n cael ei wrthbwyso gan gostau staff dros dro i wneud swyddi wrth i recriwtio fynd rhagddo.

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)**
Gwerth yr alldro terfyn gwariant adrannol adnoddau y pleidleisiwyd drosto ar gyfer y flwyddyn oedd £37.4m yn erbyn terfyn gwerth £42.4m y pleidleisiwyd drosto; tanwariant o £5m.

Gwerth ein halldro DEL cyfalaf oedd £0.2m yn erbyn cyllideb y pleidleisiwyd drosti werth £2.1m, gyda thanwariant o £1.9m.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)**
Gwerth ein halldro AME adnoddau, a wariwyd ar unrhyw ddarpariaethau gyda'r gyllideb sy'n cynnwys rhwymedigaeth bensiwn i Gyn-gomisiynwyr Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr oedd £27k. Gweler ein SOPS 1.1 a Nodyn 11 o'r Cyfrifon.

Ein halldro AME cyfalaf oedd £20k, a oedd yn gysylltiedig â phrydlesi adeiladau newydd. Ni chafwyd unrhyw brydlesi newydd yn ystod 2025/26, a dyna pam mae tanwariant yn erbyn ein cyllideb £0.1m. Gellir canfod y manylion yn ein hadroddiad SOPS 1.2 ac yn nodyn 11 yn y Cyfrifon.

**Incwm**
Ein prif ffynhonnell incwm yw cyllid a geir gan Bwyllgor y Llywydd yn y Senedd a Chorff Corfforedig Senedd yr Alban i gefnogi ein gwaith ar etholiadau datganoledig. Caiff incwm ychwanegol ei gynhyrchu drwy gostau statudol ar gyfer cofrestru pleidiau gwleidyddol.

Caiff yr holl incwm yn cael ei gydnabod yn llawn yn nodyn 4 y Cyfrifon.

Rydym ni hefyd yn casglu dirwyon a godir ar bleidiau gwleidyddol ac unigolion am fethu â chydymffurfio â'r rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau ac rydym yna'n ildio'r rhain i'r Gronfa Gyfunol fel y mynnir gan y gyfraith. Felly nid yw rhan o'n hincwm wedi'i dangos yn nodyn 4; caiff y rhan hon ei chydnabod yn yr adroddiad Pwerau a Sancsiynau.

**Arian Parod**
Yn ogystal â monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, fe reolon ni ein terfynau arian parod a osodwyd gan Senedd y DU. Fe dynnon ni £31.3m i lawr i ariannu ein gweithgareddau y pleidleisiwyd drostynt, a oedd £11.8m yn is na'r £43.1m a awdurdodwyd yn yr Amcangyfrif Atodol oherwydd y tanwariant a ddisgrifir uchod. Caiff unrhyw falans a gedwir yn y cyfrifon banc ei drosglwyddo i 2026-27 a chaiff ei wrthbwyso gan y gofyniad arian parod net.

Mae cysoni alldro adnoddau net i ofynion arian parod net, yn yr adroddiad atebolrwydd, yn darparu cysoniad o'n halldro i'r arian parod net yr oeddem ei angen yn ystod y flwyddyn. Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos mai £9k oedd y balans arian parod ar 31 Mawrth 2026 sy'n amlygu adrodd cywir gan mai dyma oedd diwrnod olaf y flwyddyn ariannol sy'n golygu ein bod yn gallu defnyddio'r arian parod a neilltuwyd ar gyfer 2025/26.

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel y mae ar 31 Mawrth 2026 yn dangos diffyg ar ecwiti trethdalwyr. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu bodloni drwy ddarparu cyllid cyflenwi yn y dyfodol.

**Taliadau Cyflenwyr**

Mae gennym y nod o gydymffurfio â'r Cod Talu'n Brydlon sydd ar waith ar draws y sector cyhoeddus, ac roeddem yn falch o fodloni'r Cod i'r eithaf eleni. Y targed yw talu anfonebau nad oes anghydfod yn eu cylch ymhen 30 diwrnod. Yn 2025/26, fe dalon ni gyfanswm o 1820 o anfonebau (2024/25 1687). Talwyd 95% ohonynt ymhen 10 diwrnod, a 100% ymhen 30 diwrnod.

**Amcangyfrif ar gyfer 2026/27**

Mae ein Prif Amcangyfrif Cyflenwi ar gyfer 2026/27 (HC1812) yn darparu ar gyfer gofyniad adnoddau net o £50.4m. Mae hyn yn gynnydd o 19% o'n cyllideb 2025/26. Mae'r prif newidiadau o ran cyllidebau DEL adnoddau o'u cymharu â 2025/26 fel a ganlyn:

| **Cyllidebau DEL Adnoddau** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgogwyr Amrywiant y Comisiwn Etholiadol** | **Cost Lai** | **Cost Uwch** | **Amrywiant Net Cronnol** |
| **Eitem** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Arian Wrth Gefn Cronfa Ganolog (1)** | 2.6 | | 2.6 |
| **Dibrisiant (2)** | 1.9 | | 4.5 |
| **Cynllun Corfforaethol (3)** | | -1.9 | 2.6 |
| **Ymgyrchoedd (4)** | | -2.8 | -0.2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Twf (5)** | | -1.0 | -1.2 |
| **Effaith IFRS 16 (6)** | | -0.5 | -1.7 |
| **Diogelwch TG (7)** | | -1.0 | -2.7 |
| **Cyfanswm** | 4.5 | -6.7 | -2.7 |

1. Yn dilyn patrwm cyson o danddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn a gedwir yn y Gronfa Ganolog yn y blynyddoedd cynt, ac oherwydd gwelliannau mewn gallu rhagweld, cynhaliodd y Comisiwn asesiad risg o dybiaethau cronfeydd wrth gefn, a oedd yn galluogi gostyngiad sylweddol mewn arian wrth gefn Cronfa Ganolog. Mae hyn yn lleihau ein gofyniad ariannu yn sylweddol, sy'n gyson â'n bwriad i ofyn am gyllid sy'n hanfodol i gyflawni ein prif swyddogaeth a nodau.
2. Tynnu'r Dibrisiant o'r Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau (RDEL). Symudwyd i Wariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer Adnoddau (RAME) yn dilyn arweiniad Trysorlys EF
3. Costau sy'n gysylltiedig â'n prosiectau Cynllun Corfforaethol, gan gyflawni ein 5 blaenoriaeth strategol.
4. Costau ar gyfer ymgyrchoedd ar gyfer Etholiadau'r DU.
5. Cynnydd ar sail twf ar seilwaith TG, cyfleusterau, a swyddogaethau corfforaethol i gefnogi gweithlu sydd yn fwy yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn costau cyflog.
6. Costau TAW a llog uwch mewn perthynas â swyddfa newydd yn yr Alban ac estyniad ar swyddfa yng Ngogledd Iwerddon. Mae costau llog cynyddol oherwydd cyfrifiadau IFRS16 ac yn orfodol pan fo prydlesi newydd/addasiadau prydlesi'n digwydd.
7. Gwell diogelwch TG i leihau bygythiad ymosodiadau seiber yn y dyfodol a thrwyddedu newydd i wella systemau o fewn y Comisiwn. Yn 2025, fe gyflawnon ni ein Hachrediad 'Plus' gan Cyber Essentials, gyda chyfradd basio o 100% o'r archwiliad ar gyfer yr Achrediad 'Plus' uwch. O ystyried ymosodiadau seiber y gorffennol a'r rhai sy'n parhau, rydym wedi canolbwyntio ar ddiogelwch TG, yn bennaf ar wella seilwaith digidol ymhellach, mabwysiadau technolegau uwch, a sicrhau mesurau seiberddiogelwch cadarn, fel ein bod yn cynnal ein hachrediad lefel uchaf. Rydym bellach yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i gefnogi eu dulliau hamddiffyn seiber.

Bydd ein cais cyllid cyfalaf yn 2026/27 yn ariannu'r System Cyllid Gwleidyddol Ar-lein a gwelliannau diogelwch TG parhaus yn ogystal â chytundebau prydlesu newydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a chostau gosod cysylltiedig. Bydd hefyd yn ariannu gwelliannau i swyddfa Bunhill Row y Comisiwn Etholiadol a fydd yn cynnwys nodweddion gwrthsain, ystafelloedd gweinyddion a diweddariadau i ystafell gyfryngau. Bydd llawer o'r newidiadau cyfalaf yn effeithio ar RAME a RDEL drwy ddibrisio a llog tybiannol ar gyfer prydlesi.

**Mae ein Prif Amcangyfrif wedi'i rannu fel a ganlyn:**

| | **Pleidleisiwyd drosto**<br>**£m** | **Heb Bleidleisio**<br>**£m** | **Cyfanswm**<br>**£m** |
|---|---|---|---|
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | |
| Adnodd | 48.5 | 0.3 | 48.8 |
| Cyfalaf | 4.2 | 0.0 | 4.2 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Adnodd | 1.9 | 0.0 | 1.9 |
| Cyfalaf | 0.2 | 0.0 | 0.2 |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | | | |
| Adnodd | 50.4 | 0.3 | 50.7 |
| Cyfalaf | 4.4 | 0.0 | 4.4 |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | 54.8 | 0.3 | 55.1 |
| | | | |
| **Gofyniad arian parod net*** | 53.6 | - | 53.6 |

*Y gofyniad arian parod net yw swm yr arian sydd ei angen ar gyfer gwariant ar ôl i'r holl incwm ac eitemau nad ydynt yn arian parod gael eu tynnu

Cymeradwywyd yr amcangyfrif hwn gan Bwyllgor y Llefarydd ar 12 Mawrth 2026, ac fe'i cyflwynwyd gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 13 Ebrill 2026. Sefydlwyd y Comisiwn gan ddeddfwriaeth a drwy ddilyn egwyddorion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, tybir bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n barhaus, nid oes unrhyw beth sy'n awgrymu y bydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn yn dod i ben neu na fydd cyllid yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

# Adroddiad pwerau a sancsiynau

**Defnyddio ein pwerau a'n sancsiynau rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026**

Byddwn yn annog y rhai rydym yn eu rheoleiddio i gydymffurfio â'r gyfraith drwy ddarparu cefnogaeth ac arweiniad. Fodd bynnag, lle mae'n briodol, rydym yn cymryd camau gweithredu pan nad ydynt yn dilyn y gyfraith.

**Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (2000) (PPERA) yn rhoi pwerau ymchwilio i ni**

**Defnyddio pwerau ymchwilio**

Mae gofyn i ni adrodd ar ein defnydd o bwerau ymchwilio, yn arbennig mewn achosion lle:

- rydym wedi rhoi hysbysiad datgeliad neu ymchwiliad
- aethpwyd i eiddo gyda gwarant ymchwilio a gyhoeddwyd gan yr Ynad Heddwch
- ymgeision ni i'r llys am orchymyn datgelu

Nid yw'n ofynnol i ni gynnwys gwybodaeth lle byddai gwneud hynny, neu y gallai hynny, yn ein barn ni, fod yn anghyfreithlon, neu y gallai gael effaith niweidiol ar ymchwiliadau neu achosion presennol.

- Ni chyhoeddon ni unrhyw hysbysiadau ymchwilio.
- Ni chyhoeddon ni unrhyw hysbysiadau datgelu.
- Ni ddefnyddion ni ein pwerau i ymgeisio am warant ymchwilio i fynd i mewn i eiddo nac i ymgeisio am unrhyw orchmynion llys i ddatgelu.

**Ymchwiliadau a gwblhawyd**

Cwblhaom ni naw ymchwiliad yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â 14 yn y flwyddyn flaenorol.


Rydym yn parhau i ddefnyddio dull rheoleiddiol sy'n gymesur ac yn cynnig cefnogaeth arbenigol i'n cymuned a reoleiddir. Mae gennym ragor o waith partneriaeth yn mynd rhagddo gyda rhanddeiliaid allanol, sy'n cynnwys yr heddlu a rheoleiddwyr eraill. Rydym hefyd wedi ehangu cwmpas yr ymholiadau rydym yn eu cynnal yn ystod y cam asesu, sydd wedi ein galluogi i egluro materion yn ystod cam cynharach, sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau cymesur a lleihau'r angen am ymchwiliad ffurfiol.

**Defnyddio sancsiynau sifil**

Mae gofyn i ni adrodd ar ein defnydd o sancsiynau sifil, yn arbennig mewn achosion lle:

- bu'n rhaid gosod cosb ariannol sefydlog neu ofyniad heb fod yn ariannol neu lle bu'n rhaid cyflwyno hysbysiad atal (ac eithrio achosion lle mae'r gosb, y gofyniad neu'r hysbysiad wedi'i wyrdroi yn dilyn apêl)
- cafodd atebolrwydd am gosb ariannol sefydlog ei dalu cyn cael hysbysiad yn ei chyflwyno
- derbyniwyd ymgymeriad gorfodi

Cosbau a osodwyd




Cosbau

Cyfeiriwyd chwe ymchwiliad i'w hystyried ar gyfer sancsiynau yn ystod y cyfnod. Gosodon ni ddwy gosb ar draws chwe achos. Ni chyhoeddwyd unrhyw sancsiwn ar gyfer pedwar o'r chwe achos yn dilyn y datganiadau a gawsom. Gosodwyd cyfanswm o £1,250 o sancsiynau. Dychwelwyd un rhodd nas caniateir gwerth £50,000 i'r rhoddwr yn wirfoddol.

Mae manylion yr holl gosbau a osodwyd yn ystod 2025/26 ar gael ar ein gwefan.

Ni chafodd unrhyw ymgymeriadau gorfodi eu cynnig i ni yn ystod 2025/26. Ni chyhoeddon ni unrhyw hysbysiadau cydymffurfio na hysbysiadau atal hyd at ac yn cynnwys 31 Mawrth 2026. Ni wnaed unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau i osod sancsiynau sifil.

# Adroddiad blynyddol Gogledd Iwerddon

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gwaith ar faterion datganoledig yng Ngogledd Iwerddon ac yn edrych ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae manylion am y wybodaeth ariannol ar gael yn y datganiadau ariannol.

**Gwaith a wnaed i gyflawni ein nodau**

- Chwaraeodd tîm Gogledd Iwerddon ran weithredol wrth baratoi Bil Cynrychiolaeth y Bobl, sy'n cynnig safbwynt o Ogledd Iwerddon. Cyhoeddon ni sesiwn friffio penodol i Ogledd Iwerddon ar gyfer rhanddeiliaid allweddol yn dilyn cyhoeddi'r Bil, ymgysyllton ni â Chadeirydd Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon a chyflwynon ni dystiolaeth i Bwyllgor y Bil ar oblygiadau Bil Cynrychiolaeth y Bobl yng Ngogledd Iwerddon.
- Cynhaliwyd adolygiad o Banel Pleidiau Cynlluniad Gogledd Iwerddon. Lluniom gyfres o argymhellion a'u rhoi ar waith i sicrhau bod yr NIAPP yn rhedeg yn fwy didrafferth.
- Bûm yn cwrdd â sawl rhandaliad fel rhan o brosiect y Cynllun Corfforaethol ar effaith y safonau y lluniwyd deddf ar eu cyfer yn Neddf Hunaniaeth ac Iaith (Gogledd Iwerddon) 2022 a sut y dylai'r Comisiwn fynd i'r afael â hyn.
- Yn unol â Chynllun Twf y Comisiwn Etholiadol, mae tîm Gogledd Iwerddon a swyddfa Belfast y Comisiwn wedi tyfu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan swyddfa Belfast bellach arbenigedd sylweddol, gydag aelodau tîm o lawer o dimau ar draws y Comisiwn. Yn ogystal â hyn, mae gwydnwch yn y tîm Gogledd Iwerddon wedi tyfu drwy recriwtio staff a chreu a llenwi swyddi newydd.
- Creon ni swydd newydd yn y tîm Gogledd Iwerddon ar gyfer Swyddog Partneriaethau ac Addysg i helpu gyda'n gwaith allgymorth gydag ysgolion a sefydliadau ieuenctid. Yn ystod yr 'Wythnos Croeso i Dy Bleidlais' drwy weithio cydgysylltiedig gyda Fforwm Ieuenctid Gogledd Iwerddon a phartneriaid addysg, ymgysyllton ni'n uniongyrchol â thros 1,450 o bobl ifanc ar draws Gogledd Iwerddon, gan gynnwys mwy nag 1,140 o ddisgyblion ysgol gynradd drwy ein gwers fyw gyntaf. Mae'r data effaith ehangach hefyd yn foddhaol iawn - gyda phobl ifanc yn adrodd gwybodaeth a hyder sydd wedi cynyddu'n sylweddol

Mae'r Fforwm Addysg Ddemocrataidd, gan weithio mewn partneriaeth, wedi dechrau tynnu ystod eang o randdeiliaid ynghyd o addysg, ieuenctid, polisi a chymdeithas sifil i ystyried sut rydym yn cryfhau addysg ddemocrataidd ar y cyd yng Ngogledd Iwerddon.

**Gwaith sy'n mynd rhagddo a gwaith y dyfodol**

- Bydd y flwyddyn sydd ar ddod yn cynnwys gwaith sylweddol ar gyfer cynllunio ar gyfer y pleidleisiau cyfun yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mai 2027 ar gyfer Cynlluniad a chynghorau lleol Gogledd Iwerddon. Bydd cryn dipyn o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda phleidiau gwleidyddol, EONI, cynghorau lleol, Swyddfa Gogledd Iwerddon a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.
- Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i bleidleiswyr, pleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr a'r gymuned ehangach a reoleiddir, ac EONI.
- Wrth i Fil Cynrychiolaeth y Bobl fwrw iddi drwy'r Senedd, rydym yn ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol ac yn cwrdd â nhw i drafod effaith deddfwriaeth yma. Byddwn yn parhau i gyfrannu at y gwaith ar draws y Comisiwn ar gyfer y Bil o safbwynt Gogledd Iwerddon.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith partneriaeth yng Ngogledd Iwerddon i ehangu ein cronfa rhanddeiliaid a nodi cyfleoedd i ymgysylltu'n fwy effeithiol â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy ein Strategaeth Partneriaeth.
- Bydd Gogledd Iwerddon yn cynnal cyfarfod bwrdd y Comisiwn ym mis Tachwedd 2026, ac mae'r tîm Gogledd Iwerddon yn edrych ymlaen at gynnal y digwyddiad hwn a chroesawu'r holl Gomisiynwyr.

# Adroddiad blynyddol Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gwaith ar faterion datganoledig fel y mynnir gan ddeddfwriaeth [1][2] ac yn edrych ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae manylion am y wybodaeth ariannol ar gael yn y datganiadau ariannol.

**Gwaith a wnaed i gyflawni ein nodau**

- Pwyslais ein gwaith yn 2025/26 oedd paratoi pleidleiswyr a'r gymuned etholiadol ar gyfer etholiadau'r Senedd ym mis Mai.

- Cefnogon ni Lywodraeth Cymru gyda gwaith deddfwriaeth a oedd yn cynnwys newidiadau terfynol i Orchymyn Ymddygiad y Senedd 2025 a datblygu terfynau gwariant newydd ar gyfer ymgyrch i weithio ochr yn ochr â'r etholaethau a'r system bleidleisio newydd.

- Diweddaron ni ein Codau Ymarfer ar dreuliau etholiad y Senedd i ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn dilyn ymgynghori â phleidiau perthnasol, a datblygon ni God Ymddygiad cyfwerth ar gyfer ymgyrchwyr di-blaid am y tro cyntaf. Gweithion ni'n llwyddiannus â Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru i gydlynu etholiad y Senedd a chyhoeddon ni ganllawiau etholiadau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ac ymgeiswyr.

- Cynhalion ni weminarau ymgeiswyr ac aethom i gynadleddau pleidleisiau a sesiynau briffio ymgeiswyr ac asiantiaid a gweithion ni'n agos gyda heddluoedd Cymru i rannu adnoddau ar uniondeb a diogelwch.

- Lansion ni ddau brosiect ymchwil weithredu newydd gyda Race Equality First a Shelter Cymru i wella gwybodaeth, hyder a dealltwriaeth o etholiadau datganoledig ymysg y bobl y mae'r grwpiau hyn yn eu cefnogi.

- Datblygon ni adnoddau addysg a modiwlau hyfforddi athrawon a oedd yn ddefnyddiol iawn i athrawon.

---

[1] Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA)

[2] Roedd y diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan Ddeddf Cymru 2017, yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru i'r Senedd o ddwylo Senedd y DU. Mae Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn amlinellu'r trefniadau ariannu ac atebolrwydd ar gyfer gweithgareddau datganoledig y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru. Mae gennym gyfrifoldeb statudol i ddarparu adroddiad i'r Senedd ar faterion datganoledig.

- Dechreuon ni bartneriaeth gorfforaethol newydd gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i hyrwyddo ein hymgyrch cofrestru pleidleiswyr.

- Paraton ni “Canllawiau ar Etholiad y Senedd” i gael ei ddosbarthu i bob cartref yng Nghymru cyn yr etholiad ym mis Mai.

- Gweithiom gyda Llywodraeth Cymru i alluogi cynnal cynlluniau peilot cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yn ardaloedd awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Casnewydd a Phowys a chynhaliom werthusiad a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion, a gafodd ei gyhoeddi gennym ym mis Rhagfyr 2025.

**Gwaith sy’n mynd rhagddo a gwaith y dyfodol**

- Byddwn yn rhoi cyngor i Lywodraeth newydd Cymru ar ei blaenoriaethau ar gyfer etholiadau a democratiaeth. Byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i gefnogi cynlluniau ar gyfer rhoi’r broses cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig ar waith ledled Cymru, cyn etholiadau llywodraeth leol 2027.
- Byddwn yn cynghori ar is-ddeddfwriaeth i roi darpariaethau Deddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) 2026 ar adalw a dichell fwriadol ar waith. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau Bil Cynrychiolaeth y Bobl ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru.
- Byddwn yn cynorthwyo’r Bwrdd Rheoli Etholiadol yng Nghymru, ac yn ei gefnogi, i gydlynu’r gwaith o gynnal etholiadau llywodraeth leol a fydd yn digwydd ar hyd a lled Cymru yn 2027 ac yn darparu cyngor ac arweiniad ar unrhyw ddeddfwriaeth newydd.
- Byddwn yn datblygu ein hadnoddau a’n hymgyrchoedd partneriaethau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd i sicrhau bod pleidleiswyr yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i’r ffordd y mae cofrestru’n gweithio. Byddwn hefyd yn datblygu a hyrwyddo ein hadnoddau addysg ymhellach ac yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl ifanc a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol yn deall sut i ymgysylltu â’r broses ddemocrataidd a chymryd rhan mewn etholiadau.

## Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a’r Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i’n dyletswyddau statudol ar gyfer trin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal yn ein gwaith a chydymffurfio â Safonau’r Gymraeg fel y’u nodir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Rydym wedi gweld manteisio ychwanegu rhagor o allu cyfieithu yn ein huned cyfieithu Cymraeg fewnol ac rydym hefyd wedi elwa ar ein contract gyda chyfieithydd allanol yn ystod cyfnodau prysur. Yn 2025/26, cafodd dros 700,000 o eiriau eu cyfieithu gan naill ai ein timau mewnol neu allanol.

Cyn etholiad y Senedd, gweithion ni gyda phartneriaid amrywiol, yn cynnwys Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru ac Anabledd Cymru i gyd-greu gwybodaeth ac adnoddau mewn ystod o fformatau a oedd yn cynnwys Iaith Arwyddion Prydain, Hawdd Ei Deall, sain, print bras a braille.

**Adnoddau**

Yn ystod 2025/26, gwarion ni 83.7% o'r gyllideb gwerth £2.7m a oedd ar gael. Roedd hyn yn bennaf ar gyfer staffio (51%), ac mae'r symiau sy'n weddill yn cynrychioli cyfraniad y Senedd at weithgareddau cyffredin a gorbenion corfforaethol.

Mae ein hadroddiad yn Nodyn 2 yn dangos y dadansoddiad o gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

**Llywodraethiant a Chynllun Corfforaethol Cymru**

Mae'r Comisiwn yn adrodd i Bwyllgor y Llywydd yn y Senedd ar gyfer dibenion atebolrwydd.

Ym mis Medi 2025, cyflwyno ni ein Hamcangyfrif i Bwyllgor y Llywydd yn y Senedd ar gyfer ariannu ein gwaith yn y flwyddyn 2026/27 a gafodd ei gymeradwyo ym mis Tachwedd. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor y Llywydd yn y Senedd i roi rhagor o fanylion ar ein rhaglen waith.

Yn 2026, byddwn yn creu Cynllun Corfforaethol newydd i Gymru ar gyfer 2027/28 - 2030/31 i gymryd lle ein Cynllun Corfforaethol Cymru 2022/23 - 2026/27 ac yn cyflwyno hwn i Bwyllgor y Llywydd yn y Senedd erbyn 30 Medi, ynghyd â'n hamcangyfrif blynyddol. Rydym wedi dechrau cwmpasu ein cynllun a byddwn yn ymgysylltu â Gweinidogion Llywodraeth newydd Cymru fel bod ein cynllun yn adlewyrchu unrhyw bolisïau newydd.

Er y bydd rhai pethau'n wahanol i'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer y DU, gan y bydd yn adlewyrchu Sefyllfa Cymru a blaenoriaethau Llywodraeth newydd Cymru a chaiff ei chreu ar ôl etholiad y Senedd 2026, bydd yna bethau sy'n gyffredin rhwng ein Cynllun Corfforaethol y DU gan fod llawer o'r prif themâu yn gyffredin i bawb; cefnogi pleidleiswyr, moderneiddio'r system etholiadol, a gwarchod ein democratiaeth a mynd i'r afael â'r bygythiadau a ddaw i'w ran.

# Adroddiad blynyddol yr Alban

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gwaith ar ein swyddogaethau datganoledig yn yr Alban ac yn edrych ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r wybodaeth ariannol yn yr adroddiad perfformiad.

Mae hwn yn adrodd ar y prif bwyntiau o'r datganiadau ariannol, lle mae rhagor o fanylion ar gael. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn uniongyrchol atebol i Senedd Cymru, Senedd y DU a Senedd yr Alban.

Mae Deddf Etholiadau'r Alban (Diwygio) 2020 yn amlinellu'r trefniadau ariannu ac atebolrwydd ar gyfer gweithgareddau datganoledig y Comisiwn Etholiadol yn yr Alban.

Gwaith a wnaed i gyflawni ein nodau

**Gwaith i gefnogi diwygio etholiadol**

- Cefnogon ni i roi Deddf Etholiadau'r Alban ar waith (Cynrychiolaeth a Diwygio) 2025 a Gorchymyn Senedd yr Alban (Etholiadau ac ati) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 ar waith. Yn ogystal, cyflwynon ni gyngor arbenigol wrth i ddeddfwriaeth newydd gael ei drafftio. Roedd hyn yn cynnwys rhoi diwygiadau ar waith i anghymhwyso ymgeiswyr a mandadau deuol.
- Cynhyrchon ni God Ymarfer, a'i osod gerbron y Senedd, ar gyfer ymgyrchwyr di-blaid yn etholiadau Senedd yr Alban, yn ogystal â chanllawiau statudol ar argraffnodau digidol yn dilyn ymgynghori â'r gymuned a reoleiddir.
- Cynhalion ni ddiweddariadau helaeth ar ein hadnoddau a'n canllawiau rhanddeiliaid, a thynnon ni sylw at newidiadau i ymarfer a darpariaethau newydd drwy ein gwaith ymgysylltu.
- Cynghoron ni ar weithredu'r ceisiadau pleidleisio absennol ar-lein i etholiadau Senedd yr Alban, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban a phartneriaid i sicrhau gweithrediad didrafferth.
- Cyflwynon ni gyngor arbenigol ar arferion etholiadol i Graham Simpson ASA ac i Uned Biliau Anllywodraethol Senedd yr Alban i gyfrannu at ddrafftio Bil Adalw a Diswyddo Aelodau o'r Senedd, a chyflwynon ni sesiynau briffio i'r Pwyllgor Penodiadau Cyhoeddus a Gweithdrefnau Safonol i gefnogi gwaith craffu'r Bil.

**Cefnogaeth i'r gymuned etholiadol cyn etholiad Senedd yr Alban**

- Gweithion ni gyda Heddlu'r Alban a Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban i gyflwyno sesiwn hyfforddiant i swyddogion yr heddlu sy'n gweithredu fel Pwyntiau Cyswllt Unigol yn eu hardal.

- Darparon ni gyngor a chymorth rheoleiddio i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid, ac ymgyrchwyr di-blaid a oedd yn ymgyrchu mewn etholiadau yn yr Alban. Cyflwynon ni gyfres o weminarau cyn etholiad a oedd yn canolbwyntio ar ddeall a chydymffurfio â'r rheolau, gan gynnwys seminar ar y cyd i elusennau a sefydliadau gwirfoddol mewn cydweithrediad â Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) a Chyngor Sefydliadau Gwirfoddol yr Alban.
- Fe gynigion ni hefyd gyfres o gymorthfeydd i'r holl ymgeiswyr a oedd yn sefyll yn etholiad Senedd yr Alban, a oedd yn cynnig cyfleoedd i drafod y rheolau a sut i gydymffurfio yn unigol. Yn ogystal, bûm yn cwrdd ag elusennau a sefydliadau ymgyrchu i'w helpu i ddeall sut y byddai cyfraith etholiadol yn berthnasol i'w gweithgarwch.
- Rhannon ni adnoddau gwybodaeth ac adnoddau cofrestru pleidleisiwr gyda chydweithwyr cyfathrebu mewn cynghorau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gefnogi'r gwaith o rannu negeseuon allweddol drwy'r wasg leol, cyfryngau cymdeithasol, a sianeli cyfathrebu sy'n eiddo i'r cyngor.
- Cynhalion ni ddigwyddiad briffio cyn yr etholiad gyda'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ar gyfer yr Alban, a oedd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn yr Alban. Roedd yn canolbwyntio ar risgiau, heriau, a gofynion deddfwriaethol newydd ar gyfer yr etholiad.
- Rydym wedi gweithio gyda'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i gefnogi gweithdai rhithwir sy'n archwilio arferion da ac ystyriaethau ymarferol mewn cynllunio, gweinyddu a chynnal sesiynau cyfrif cyn yr etholiad. Fe gefnogon ni'r Bwrdd Rheoli Etholiadol o ran darparu seminarau ar arferion cyfrif a gweinyddu enwebiadau ymgeiswyr.
- Rydym yn parhau i gefnogi is-grŵp Gwella Hygyrchedd y Bwrdd Rheoli Etholiadol, sy'n canolbwyntio ar gefnogi pleidleiswyr a gwelliannau i ddarpariaethau hygyrchedd mewn gwaith ymgysylltu ac arferion etholiadol.
- Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, ni chafodd y Comisiwn unrhyw hysbysiadau o euogfarnau a wnaed gan lys sy'n ymwneud â chyhoeddi deunydd digidol heb argraffnod sy'n cydymffurfio. Nid oedd ychwaith angen i ni ddefnyddio pwerau dan adran 57 1) o Ddeddf Etholiadau'r Alban (Cynrychiolaeth a Diwygio) i ofyn am wybodaeth i bennu a oedd y gyfundrefn argraffnodau digidol wedi'i thorri.

**Ehangu ein rhaglen ymgysylltu democrataidd yn yr Alban**

- Cyflwynon ni ein 'Wythnos Croeso i Dy Bleidlais' flynyddol ar hyd a lled yr Alban ym mis Mawrth. Thema eleni oedd 'Pam Mae Pleidleisio'n Bwysig' a chyflwynon ni raglen o ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys stondin wybodaeth yn Holyrood i groesawu myfyrwyr gwleidyddiaeth o Brifysgol Dundee i'r

swyddfa yng Nghaeredin, a chefnogi partner ein Rhwydwaith Lleisiau Ieuenctid, Children in Scotland, i gynnal digwyddiad a oedd yn dod â phobl ifanc ynghyd i drafod y thema ac etholiad Senedd yr Alban sydd ar ddod. Cynhalion ni hefyd weithdy ar gyfer y Gymdeithas Astudiaethau Modern i rannu adnoddau gydag athrawon a chyflwynon ni gyflwyniad i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc.

- Cysylltom â phartneriaid ledled yr Alban i rannu adnoddau sy'n benodol i etholiad ac i gyflwyno cyflwyniadau a gweithdai pwrpasol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ein partner, Enable, i gynnal sioe deithiol gwybodaeth i bleidleiswyr ym mhob un rhanbarth yn yr Alban ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, cynnal gweithdy ar-lein ar gyfer Scottish Action on Mental Health, a mynd i sesiynau cymorth i gymheiriaid a gynhaliwyd gan Maryhill Integration Network a Chyngor Ffoaduriaid yr Alban.
- Rydym wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol i ddarparu adnoddau mewn ieithoedd ar wahân i'r Saesneg ac wedi cyfieithu ein canllawiau pleidleisio i'r Aeleg, Sgoteg, Arabeg, Pwyleg, Rwmaneg ac Wcreineg. Yn ogystal â hyn, gweithion ni gyda Chyngor Ffoaduriaid yr Alban i gyfieithu Cwestiynau Cyffredin ynghylch pleidleisio i Arabeg, Cwrdeg (Sorani), Ffarsi, Wcreineg, Fietnameg a Thigrinya.
- Rydym wedi lansio ein prosiect ymchwil weithredu gyda Shout Out UK, a fydd yn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r rhwystrau sylweddol a chroestoriadol sy'n atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn democrataidd yng ngogledd orllewin Glasgow. Dewiswyd yr ardal hon ar gyfer y prosiect oherwydd bod y nifer sy'n pleidleisio yn isel erioed ac mae lefelau uchel o anfantais cymdeithasol-economaidd.
- Fel rhan o'n gwaith i fynd i'r afael â chyfraddau uchel o bapurau pleidleisio a ddifethwyd mewn etholiadau cyngor, cynhalion ni ymchwil ar ddatblygu adnodd gweledol i gefnogi pleidleiswyr mewn gorsaf bleidleisio i farcio eu papur pleidleisio ac i wahaniaethu rhwng y dull Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau cyngor a'r System Aelodau Ychwanegol ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban. Cwblhawyd yr ymchwil hon ym mis Ionawr 2026 a bydd yn llywio gwaith datblygu'r adnodd hwn.

**Gwaith sy'n mynd rhagddo a gwaith y dyfodol**

Bydd pwyslais gwaith y Comisiwn yn yr Alban am y flwyddyn nesaf ar etholiad Senedd yr Alban ym mis Mai 2026, a'r etholiadau llywodraeth leol yn 2027.

- Byddwn yn sicrhau bod newidiadau yn sgil Ddeddf Etholiadau'r Alban (Cynrychiolaeth a Diwygio) a diwygiadau i God Ymddygiad y Llywodraeth Leol yn cael eu gweinyddu, eu rheoleiddio a'u cyflawni yn effeithlon. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod pawb sydd yn rhan, sy'n cynnwys pleidleiswyr, pleidiau, ymgeiswyr, asiantiaid a gweinyddwyr, yn eu deall.

- Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth yr Alban i roi cyngor arbenigol i sicrhau bod ein hadnoddau a'n canllawiau a'n gwybodaeth a ddaw at sylw'r cyngor yn adlewyrchu'r gofynion ar gyfer pontio i'r gwasanaeth ceisiadau pleidleisio absennol ar-lein i bleidleiswyr mewn etholiadau datganoledig, ac ar gyfer ei roi ar waith.
- Byddwn hefyd yn cynghori Llywodraeth nesaf yr Alban a Senedd nesaf yr Alban ar unrhyw ddiwygiadau etholiadol pellach, ac yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i ddeall goblygiadau datganoledig Bil Cynrychiolaeth y Bobl y DU, ac Adolygiad Rycroft o wrthbwyso ymyrraeth a dylanwad ariannol tramor ar wleidyddiaeth y DU.
- Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i gefnogi Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i fodloni'r her o gynnal gwasanaethau etholiadau sy'n cael eu rhedeg yn dda ac sy'n parhau i fodloni anghenion pleidleiswyr. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i wella hygyrchedd yn ystod taith y pleidleisiwr a rheoli a lliniaru'r risgiau a amlygwyd mewn pleidleisiau blaenorol i sicrhau cyflawniad llwyddiannus.
- Byddwn yn gweithio gyda gweinyddwyr etholiadol, ymgyrchwyr a phartneriaid i leihau nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn yr etholiadau cyngor 2027, sy'n cynnwys defnyddio canfyddiadau ein hymchwil ddiweddar i ddatblygu adnoddau a chanllawiau gwybodaeth i bleidleiswyr ar gyfer staff pleidleisio. Byddwn yn adrodd ar y camau a gymerir yn unol â'n dyletswydd statudol dan Ddeddf Etholiadau'r Alban (Cynrychiolaeth a Diwygio) 2025.

**Am y tro cyntaf, byddwn yn creu a chyflwyno cynllun corfforaethol pum mlynedd ar gyfer yr Alban, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Etholiadau'r Alban (Cynrychioli a Diwygio) 2025**

- Rydym wedi dechrau cwmpasu gwaith ar Gynllun Corfforaethol yr Alban ar gyfer 2027/28 - 2031/32, a fydd yn cael ei gyflwyno gennym i Gorff Corfforedig Senedd yr Alban gyda'n Hamcangyfrif ym mis Medi 2026 yn dilyn ymgynghori â'r rhai yn y gymuned etholiadol.
- Bydd yna bethau sy'n gyffredin rhwng ein Cynllun Corfforaethol y DU gan fod llawer o'r prif themâu yn berthnasol ledled y DU (er enghraifft, cefnogi pleidleiswyr, moderneiddio'r system etholiadol a gwarchod ein democratiaeth) wrth adlewyrchu sefyllfa'r Alban a blaenoriaethau Llywodraeth yr Alban.

**Byddwn yn parhau i ehangu ein cyrhaeddiad ymgysylltu democrataidd ac yn cyflwyno addysg i bleidleiswyr**

- Mae Deddf Etholiadau'r Alban (Cynrychiolaeth a Diwygio) 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymgysylltu â phleidleiswyr a darparu gweithgareddau dysgu iddynt yn yr Alban. Dyma sydd eisoes yn agwedd graidd ar ein

gweithrediadau, ac yn 2026/27, byddwn yn cyhoeddi contract newydd ar gyfer partner ein Rhwydwaith Lleisiau Ieuenctid, sef Children in Scotland, gyda phwyslais newydd ar ennyn sylw pobl ifanc drwy weithgareddau a digwyddiadau, ynghyd â chreu adnoddau sy'n cael eu llywio gan bobl ifanc.

- Byddwn hefyd yn parhau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ein prosiect ymchwil weithredu gyda Shout Out UK yn yr Alban ac yn defnyddio ein dealltwriaeth well o'r rhwystrau sylweddol a chroestoriadol sy'n atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn democratiaeth yng ngogledd orllewin Glasgow i gyfrannu at ein gwaith yn y dyfodol.
- Bydd ein gwaith ymgysylltu democrataidd gyda phartneriaid drwy rannu adnoddau a chyflwyno gweithdai gwybodaeth a chofrestru pleidleiswyr yn parhau gyda'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2027 dan sylw. Bydd hyn yn adlewyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth o weithgareddau ymgysylltu ag etholiadau Senedd yr Alban, sy'n cynnwys darparu adnoddau mewn fformatau hygyrch ac mewn ieithoedd eraill.
- Byddwn hefyd yn adolygu cyngor a deunyddiau pleidleiswyr a ddarperir i bleidleiswyr yn yr Alban ynghylch y system pleidlais sengl drosglwyddadwy cyn yr etholiadau cyngor yn 2027 i sicrhau eu bod yn glir ac yn hawdd i bleidleiswyr eu deall.

**Byddwn yn parhau i hyrwyddo ymgyrchu diogel a pharchus**

- Byddwn yn ychwanegu at y gwaith a gyflawnwyd cyn etholiad Senedd yr Alban i dynnu sylw at aflonyddu a cham-drin ymgeiswyr a staff etholiadol. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda Heddlu'r Alban a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i rannu deunyddiau cyfathrebu ar y cyd a hyrwyddo gweminarau a gwybodaeth am ddiogelwch ymgeiswyr a gynigir gan Heddlu'r Alban, a rhannu negeseuon allweddol ar ein cynllun peilot monitro cynnwys ffugiad dwfn a gweithgareddau diogelu ymgeiswyr drwy Banel Pleidiau Gwleidyddol yr Alban.
- Byddwn yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhagweithiol â'r wasg i rannu ein hegwyddorion ar gyfer ymgyrchu sy'n dangos parch ac i siarad am ein gwrthwynebiad i aflonyddu a bygythiadau ar-lein.

**Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

- Rydym yn parhau i arwain, cynghori, herio a monitro cynlluniau ac agweddau Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar wella hygyrchedd ac ymgysylltu drwy ein gwaith monitro a'n fframwaith safonau perfformiad cyn y pleidleisiau sydd ar ddod. Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr o'r gymuned etholiadol drwy is-grŵp Gwella Hygyrchedd y Bwrdd Rheoli Etholiadol i barhau i ddatblygu gwelliannau hygyrchedd, a'u rhoi ar waith, ar gyfer y

broses etholiadol i bobl sy'n cael eu rhwystro wrth geisio cyfranogi mewn etholiadau.

- Siaradon ni mewn nifer o Grwpiau Trawsbleidiol yn Senedd yr Alban, sy'n cynnwys y Grŵp Trawsbleidiol ar Amhariad ar y Golwg, Byddardod, Anabledd a Phobl Hŷn, gyda phwyslais ar sut y gallai sefydliadau ac unigolion hyrwyddo cyfranogiad a hygyrchedd cofrestru i bleidleiswyr. Tynnon ni sylw hefyd at yr adnoddau sydd ar gael i'r rhai a allai fod angen rhagor o gymorth i bleidleisio.
- Cyn etholiad Senedd yr Alban, darparon ni wybodaeth mewn ystod o fformatau, sy'n cynnwys Iaith Arwyddion Prydain, fformat Hawdd ei Darllen, sain a phrint bras, ac rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i rannu'r adnoddau.
- Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid fel Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall yr Alban a Sight Scotland i greu canllawiau i bleidleiswyr dall a rhannol ddall i godi ymwybyddiaeth o'r cyngor sydd ar gael i bleidleiswyr sydd angen cymorth.

**Adnoddau**

Yn ystod 2025/26, gwarion ni 83.8% o'r gyllideb £4.3m a oedd ar gael. Roedd hyn yn bennaf ar gyfer staffio (56.5%), ac mae'r symiau sy'n weddill yn cynrychioli cyfraniad Senedd yr Alban at weithgareddau cyffredin a chostau corfforaethol.


Mae ein hadroddiad yn Nodyn 2 yn dangos y dadansoddiad o gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

**Llywodraethu**

Mae'r Comisiwn yn adrodd i Gorff Corfforedig Senedd yr Alban ar gyfer dibenion atebolrwydd. Rydym yn parhau i adrodd i bwyllgorau eraill ar gyfer ein gwaith mewn meysydd polisi gwahanol, gan amlaf y Pwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus.

Ym mis Medi 2025, cyflwynon ni ein hamcangyfrif i Gorff Corfforedig Senedd yr Alban ar gyfer ariannu ein gwaith yn y flwyddyn 2026/27. Byddwn yn creu Cynllun Corfforaethol newydd i'r Alban ar gyfer 2027/28 - 2030/31 a gaiff ei gyflwyno i Gorff Corfforedig Senedd yr Alban ym mis Medi 2026, ynghyd â'n Hamcangyfrif blynyddol.

Ym mis Chwefror 2026, bûm yn cwrdd â Chorff Corfforedig Senedd yr Alban am drafodaeth ddefnyddiol a oedd yn canolbwyntio ar ein prosiectau Cynllun Corfforaethol parhaus yn y DU, datblygu Cynllun Corfforaethol yn yr Alban, ac ymgysylltu â'r gymuned etholiadol cyn yr etholiadau llywodraeth leol a Senedd yr Alban sydd ar ddod.



**Vijay Rangarajan**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**13 Gorffennaf 2026**

# Adroddiad atebolrwydd



# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae gan Fwrdd y Comisiwn 10 o Gomisiynwyr a benodwyd gan Warant Frenhinol i arfer ein swyddogaethau fel y'u disgrifir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Mae'r Bwrdd yn penodi'r Prif Weithredwr i arwain a rheoli ein sefydliad, ac mae'r Prif Weithredwr yn penodi tîm arwain sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol. Mae manylion y Comisiynwyr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gael yn y datganiad llywodraethu.

### Cofrestr buddiannau

Rydym yn cynnal cofrestr buddiannau ar gyfer ein Comisiynwyr sy'n cael ei chyhoeddi ar ein gwefan. Mae'n rhaid i Gomisiynwyr a Chyfarwyddwyr lenwi datganiad blynyddol i nodi nad oeddent yn ddeiliaid ar swyddi cyfarwyddwyr sylweddol mewn cwmni nac ag unrhyw fuddiannau eraill a all fod wedi gwrthdaro â'u cyfrifoldebau. Nid oedd gan unrhyw Gomisiynydd na Chyfarwyddwr unrhyw fuddiannau cysylltiedig eraill.

### Busnes gweithredol

Cafodd ein Prif Amcangyfrif ei gymeradwyo ar gyfer yr adnoddau rydym eu hangen yn 2026/27. Fel corff cyhoeddus a sefydlwyd drwy ddeddfwriaeth ac sy'n dilyn egwyddorion yr FReM, mae lle i dybio bod darpariaeth y gwasanaeth yn parhau, nid oes unrhyw beth i awgrymu y bydd gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn yn dod i ben neu ni ddarperir cyllid yn y dyfodol.

### Archwilwyr

Caiff y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ei benodi fel ein harchwilydd allanol dan Atodlen 1 y PPERA. Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan BDO UK. Mae manylion llawn y tâl ar gyfer gwaith archwilio a gwaith nad yw'n ymwneud ag archwilio ar gael yn y datganiadau ariannol.

### Datgeliadau eraill

Mae rhai datgeliadau sydd eu hangen yn adroddiad y Cyfarwyddwyr wedi'u cynnwys mewn lleoliad arall yn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol. Rydym wedi adrodd data personol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau, enwau deiliaid rolau a chynnwys y Bwrdd yn y datganiad llywodraethu. Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cyflogau.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau sylweddol sy'n effeithio arnom ni wedi digwydd ers y diwrnod adrodd, ac rydym wedi datgelu rhagor o ddatblygiadau yn y dyfodol syn effeithio arnom ni yn adran 'Defnyddio ein hadnoddau ariannol yn effeithlon' yn yr Adroddiad Perfformiad.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan PPERA 2000, mae'n ofynnol i mi baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan roi manylion am yr adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwared yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan y Comisiwn Etholiadol yn ystod y flwyddyn.

Paratoir y cyfrifon yn ôl croniad ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa materion y Comisiwn Etholiadol ac o'i incwm a'i wariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn enwedig er mwyn:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF sy'n cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a yw safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u hamlinellir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, wedi eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw amrywiadau sylweddol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod y Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am y Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol a'r penderfyniadau sydd eu hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Yn unol â pharagraff 19(1) Atodlen 1 y PPERA, mae Pwyllgor y Llefarydd wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn Etholiadol ac mae ganddo'r cyfrifoldeb o baratoi'r cyfrifon ac am eu trosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, sy'n cynnwys bod yn gyfrifol am reoleidd-dra a phriodoldeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol ar ei gyfer, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Comisiwn Etholiadol, ar gael yn y ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn eu cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Comisiwn Etholiadol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. O'm dealltwriaeth i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Datgelu gwybodaeth i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a oedd yn ddeiliad ar y swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau, o ddealltwriaeth y Cyfarwyddwyr:

- nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr allanol yn ymwybodol ohoni
- mae pob Cyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i bennu bod yr archwilwyr allanol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Datganiad Llywodraethu

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn unol â chanllawiau Trysorlys EF ac mae'n crynhoi'r gweithdrefnau, y prosesau a'r strwythurau cefnogi a gynhelir i reoli'r adnoddau a wnaed ar gael i mi gan Senedd y DU yn effeithiol.

Cafodd y Comisiwn Etholiadol ei sefydlu dan PPERA. Yn unol ag Atodlen 1(19) PPERA, mae Pwyllgor y Llefarydd wedi fy mhenodi fel Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn Etholiadol. Mae fy nghyfrifoldebau yn y swydd hon i'w gweld ar wahân dan Ddatganiad cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fel y Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf sicrwydd bod y system reoli drwy gydol ein system lywodraethu a rheoli risg wedi gweithredu'n effeithiol drwy gydol y cyfnod adrodd hwn drwy ystod o ffynonellau. Mae hyn wedi cynnwys sicrwydd annibynnol a barn flynyddol gan y Pennaeth Archwilio, y canfyddiadau a'r canlyniadau a gyrhaeddwyd gan yr archwilydd allanol, yr oruchwyliaeth a'r sicrwydd a gafwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a thrwy drafodaethau gyda'r Cyfarwyddwyr a Chomisiynwyr.

Yn ogystal â'r atebolrwydd i Senedd y DU, mae'r Comisiwn hefyd yn uniongyrchol atebol i Senedd y DU a'r Senedd mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, yn dilyn diwygio'r PPERA gan Ddeddf Etholiadau (Diwygio) yr Alban 2020 a Deddf Etholiadau (Cymru) 2020. Mae Corff Corfforedig Senedd yr Alban a Phwyllgor y Llywydd yn y Senedd yn darparu gwasanaeth craffu i'r Comisiwn.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol i Gorff Corfforedig Senedd yr Alban a Phwyllgor y Llywydd yn y Senedd, yn yr un modd ag yr wyf yn atebol i Bwyllgor y Llefarydd.

Dan bwerau Deddf Etholiadau 2022, mae gan Bwyllgor y Llefarydd rôl i archwilio perfformiad y Comisiwn o ran rhoi ystyriaeth briodol i'r Strategaeth a'r Datganiad Polisi. Amlinellodd y Comisiwn Etholiadol sut rydym wedi bodloni ein dyletswydd i ystyried y Datganiad mewn llythyr i Bwyllgor y Llefarydd ym mis Mawrth 2026. Mae'r Datganiad yn nodi nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau, ac maent oll yn rhan o swyddogaethau statudol parhaus y Comisiwn. Mae'n cynnwys y pethau hyn ond nid yw'n gyfyngedig iddynt; darparu arweiniad a chefnogaeth i weinyddwyr etholiadol; cefnogi cyfranogiad mewn etholiadau drwy wybodaeth a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i'r cyhoedd; a sicrhau cydymffurfedd â'r fframwaith cyllid gwleidyddol. Mae'r Datganiad yn rhestru nifer o egwyddorion y dylai'r Comisiwn

gadw atynt, sy'n cynnwys didueddrwydd, atebolrwydd, ymatebolrwydd i fudd cyhoeddus, gwerth am arian a datganoli. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u gwreiddio yn niwylliant ac arferion y sefydliad, ac maent wedi arwain ein gwaith dros y 12 mis diwethaf.


Rydym yn nodi bod y Datganiad Strategaeth a Pholisi i'w ddiddymu dan Fil Cynrychiolaeth y Bobl.

**Atebolrwydd i seneddau'r DU a'n fframwaith llywodraethu mewnol**

Mae etholiadau yn y Deyrnas Unedig yn cael eu cyflawni drwy gyfuniad o bwerau datganoledig a phwerau a gedwir. Cedwir etholiadau ar gyfer Senedd y DU, llywodraeth leol Lloegr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (yng Nghymru a Lloegr), ac etholiadau Cynlluniad Gogledd Iwerddon ac etholiadau lleol i Senedd y DU. Mae'r cyfrifoldeb am etholiadau senedd ac etholiadau lleol yng Nghymru a'r Alban yn faterion datganoledig ar gyfer y seneddau perthnasol.

Ers 2022/23, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi bod yn atebol i bob senedd am ein gwaith ar etholiadau dan eu pwerau. Cawn ein hariannu gan bob un senedd ar gyfer y gwaith a wneir ar yr etholiadau perthnasol sydd â chostau cyffredin, sy'n cynnwys gwaith a rennir a chostau corfforaethol a rennir yn ôl y boblogaeth.

Mae'r diagram isod yn dangos sut wnaeth dirprwyo ac atebolrwydd weithio o fewn y sefydliad yn ystod 2025/26.



Ym mis Medi 2025, cymeradwyodd y Bwrdd y byddai'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn cael ei ail-enwi i Bwyllgor Pobl, Diwylliant a Chydnabyddiaeth, i adlewyrchu ei gyfrifoldebau a'i dermau modern yn well.

**Pwyllgor y Llefarydd**

Mae Pwyllgor y Llefarydd ar gyfer y Comisiwn Etholiadol (SCEC) yn gorff statudol a sefydlwyd dan Adran 2(1) o'r PPERA i gyflawni'r swyddogaethau a osodwyd arno gan y PPERA. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys:

- archwilio ein Hamcangyfrifon blynyddol ar gyfer adnoddau a'u cyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin, gydag addasiadau neu hebddynt
- archwilio ein cynlluniau pum mlynedd a'u cyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin, gydag addasiadau neu hebddynt
- cael ein cyfrifon
- penodi ein Swyddog Cyfrifyddu
- adrodd i Dŷ'r Cyffredin, o leiaf un waith y flwyddyn, ar sut rydym wedi rhoi ein swyddogaethau ar waith

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Pwyllgor y Llefarydd ar gael ar y wefan hon: https://committees.parliament.uk/committee/144/speakers-committee-on-the-electoral-commission/

Cyflwynodd Bwyllgor y Llefarydd ein Prif Amcangyfrif Cyflenwi (HC839) gerbron Senedd y DU ar 3 Ebrill 2025.

**Pwyllgor y Llywydd yn y Senedd**

Mae Pwyllgor y Llywydd yn y Senedd yn cyflawni swyddogaethau tebyg i'r rhai y mae Pwyllgor y Llefarydd yn eu gwneud i Senedd y DU o ran ein hatebolrwydd ariannol. Cytunodd y pwyllgor i'n hamcangyfrif ar gyfer 2025/26 ym mis Tachwedd 2024.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Pwyllgor y Llywydd i'w chael ar y wefan hon: https://senedd.cymru/pwyllgorau/pwyllgor-y-llywydd-y-chweched-senedd/

**Corff Corfforedig Senedd yr Alban**

Mae Corff Corfforedig Senedd yr Alban yn goruchwylio gweithrediad Senedd yr Alban ac mae'n darparu cefnogaeth i Aelodau Senedd yr Alban i'w galluogi i wneud eu dyletswyddau seneddol. Mae hefyd yn ariannu nifer fach o gomisiynwyr seneddol a chyrff cysylltiedig, gan gynnwys gweithgareddau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yr Alban. Cytunodd y Pwyllgor ar ein Hamcangyfrif Cyflenwi ar gyfer 2025/26 ar 28 Chwefror 2025.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Corff Corfforedig Senedd yr Alban ar gael ar y wefan hon: https://www.parliament.scot/about/how-parliament-works/parliament-organisations-groups-and-people/scottish-parliamentary-corporate-body.

## Bwrdd y Comisiwn a’r tîm arwain

### Bwrdd y Comisiwn

Mae Bwrdd y Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried ein cyfeiriad strategol a’n hamcanion ac i adolygu ein perfformiad. Mae aelodau ein Tîm Gweithredol a staff perthnasol eraill yn mynd i gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

Mae Ei Fawrhydi y Brenin yn penodi ein Cadeirydd a Chomisiynwyr ar argymhelliad Tŷ’r Cyffredin. Yn ôl traddodiad, mae Ei Fawrhydi fel arfer yn penodi Comisiynwyr dros gyfnod sydd heb fynd y tu hwnt i bedair blynedd yn y lle cyntaf, gyda’r posibilrwydd o ailbenodi.

Mae’r wybodaeth ganlynol yn crynhoi’r prif newidiadau i Gomisiynwyr yn 2025/26:

Ym mis Medi 2025, cafodd Dr Katy Radford, yr oedd ei thymor i fod i ddod i ben, ei hailbenodi am bedair blynedd arall hyd at Awst 2029.

Ceisiodd yr Arglwydd Stephen Gilbert gydsyniad Ei Fawrhydi i ymddiswyddo fel Comisiynydd ym mis Medi 2025 i ddal rôl yn y Blaid Geidwadol. Roedd y rôl newydd hon yn golygu na allai barhau â’i ddyletswyddau fel Comisiynydd mwyach. Cafodd Alan Mabbutt ei benodi am dymor dechreuol o bedair blynedd hyd at 30 Ebrill 2030.

Daeth cyfnod Sarah Chamber yn y rôl i ben ar 30 Mawrth 2026. Cafodd Rashik Parmar ei benodi am dymor dechreuol o bedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2030.

Mae John Pullinger CB wedi bod yn Gadeirydd ar y Bwrdd ers ei benodi ar 1 Mai 2021, ac mae’n gweithio dau ddiwrnod yr wythnos i'r Comisiwn. Ym mis Ebrill 2025, cafodd ei ailbenodi am bedair blynedd arall hyd at fis Ebrill 2029.

Mae’r Comisiynwyr yn treulio cyfartaledd o ddau i dri diwrnod y mis yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae’r tabl isod yn dangos y Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, gyda’u tymor yn y rôl yn cael ei ddangos. Bydd Pwyllgor y Llefarydd yn ystyried ailbenodi neu recriwtio i rolau’r Comisiynydd cyn i unrhyw dymor mewn swydd ddod i ben neu pe digwydd i rywun ymddiswyddo.

Sefydlir Pwyllgorau er mwyn cefnogi gwaith y Bwrdd, gyda chylch gwaith yn cael eu nodi gan gylch gorchwyl. Mae Pwyllgorau’n adrodd yn ôl yn rheolaidd i’r Bwrdd ar eu gwaith ac yn cyflwyno crynodeb blynyddol o gyflawniadau’r pwyllgor dros y flwyddyn.

Mae’r Bwrdd yn penodi cadeiryddion ei bwyllgorau ac mae’n cymeradwyo penodi cynghorwyr annibynnol. Mae aelodau pwyllgor fel arfer yn gwasanaethu am dair blynedd, oni bai bod aelod rhoi’r gorau i fod yn Gomisiynydd neu’n gofyn i adael y

rôl. Gall y Bwrdd eu hailbenodi am gyfnod hirach, fel arfer heb fod yn fwy na thair blynedd arall.

### Comisiynwyr sy'n gwasanaethu yn 2025/26

| Enw | Dyddiad dechrau yn y rôl | Dyddiad gorffennol yn y rôl | Aelodau'r Pwyllgor 2025/26 | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ARAC | PCR |
| **John Pullinger CB (Cadeirydd y Bwrdd)** | 1 Mai 2021 | 30 Ebrill 2029 | | |
| **Y Fonesig Susan Bruce DBE, CVO** | 1 Ionawr 2017 | 31 Rhagfyr 2026 | | |
| **Sarah Chambers** | 31 Mawrth 2018 | 30 Mawrth 2026 | | |
| **Roseanna Cunningham**[1] | 1 Hydref 2022 | 30 Medi 2026 | I | |
| **Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert o Bant-teg**[2] **(Cadeirydd ARAC tan fis Medi 2025)** | 1 Tachwedd 2022 | 15 Medi 2025 | I | |
| **Carole Mills (Cadeirydd PCR)** | 1 Ionawr 2024 | 31 Rhagfyr 2028 | I | I |
| **Dr Katy Radford MBE** | 1 Medi 2025 | 31 Awst 2029 | | I |
| **Sheila Ritchie MBE (Cadeirydd ARAC o fis Tachwedd 2025)**[3] | 1 Chwefror 2024 | 31 Ionawr 2027 | I | |
| **Chris Ruane** | 1 Tachwedd 2022 | 31 Hydref 2026 | | I |
| **Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens CBE** | 13 Mawrth 2017 | 12 Mawrth 2027 | | |

*[1] Ymunodd Roseanna Cunningham â'r ARAC ym mis Tachwedd 2025.*
*[2] Ymddiswyddodd yr Arglwydd (Stephen) Gilbert o Bant-teg o'r Bwrdd ym mis Medi 2025.*
*[3] Penodwyd Sheila Ritchie yn Gadeirydd ARAC ym mis Tachwedd 2025.*

Mae'r Bwrdd yn adolygu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd yn flynyddol, ac fe wnaeth hynny ym mis Tachwedd 2025. Ni chafodd unrhyw bryderon gormodol eu codi.

Nod blaenraglen cyfarfodydd y Bwrdd yw ymgysylltu ar lefel strategol, gan gefnogi a herio. Cafodd y Bwrdd sesiynau cynhwysfawr ar y materion canlynol:

- Cynigion ar gyfer diwygio etholiadol a'r goblygiadau i gylch gwaith y Comisiwn
- Ymchwil newydd gwaith polisi ar derfynau rhoddion
- Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd, sy'n cynnwys gweithgarwch ymgysylltu pleidleiswyr
- Paratoi, goruchwylio ac adrodd am etholiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn
- Goruchwylio rheolaeth ariannol a rheoli arian yn barhaus

- Bwrw ymlaen gyda phrosiectau sy'n ymwneud â'r Cynllun Corfforaethol

Ym mis Mai 2025, cynhaliodd y Bwrdd cyfarfod bwrdd oddi ffwrdd o'r safle yn Nottingham, ynghyd â'i ddigwyddiad blynyddol i bartneriaid allanol. Clywodd y Bwrdd gan gydweithwyr llywodraeth leol am y profiad o gynnal gwasanaethau etholiadol cadarn a gwydn ar y rheng flaen, a thrafododd yr heriau cynyddol sy'n wynebu cyfranogwyr mewn etholiadau.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu i gyflawni eu cyfrifoldebau atebolrwydd ffurfiol am sicrhau trefniadau rheoli risg digonol, rheolaeth fewnol, defnyddio cyllid cyhoeddus yn effeithiol ac yn effeithlon a threfniadau llywodraethu ariannol o fewn y Comisiwn.

Mae archwilwyr mewnol ac allanol y Comisiwn yn mynd i holl gyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd, ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a staff perthnasol.

| **Cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** |
|---|
| Goruchwylio cydymffurfedd â pholisïau cyfrifyddu, adolygu'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, a gwerthuso llythyrau rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Adolygu adroddiadau a chynlluniau archwilio, a sicrhau bod ymatebion y tîm rheoli i ganfyddiadau archwilio yn ddigonol ac yn brydlon |
| Adolygu'r prosesau strategol ar gyfer rheoli risg, rheoli, sicrwydd a llywodraethu |
| Goruchwylio llywodraethu gwybodaeth |
| Hyrwyddo moeseg a gwerthoedd priodol |
| Sicrhau y dysgir gwersi ar gyfer prosiect mawr ac y caiff y rhain eu gwreiddio i gynlluniau'r dyfodol. |
| Adolygu ac argymell cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan y Swyddog Cyfrifyddu. |
| Cymeradwyo a goruchwylio rhoi polisïau llywodraethu allweddol ar waith. |

Cytuno ar gynlluniau archwilio mewnol blynyddol a strategol ac adolygu adroddiadau'r gwasanaeth archwilio mewnol ynghyd ag ymatebion y tîm rheoli.

Cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd y Comisiynwyr sy'n rhoi manylion am ei waith, ei ganfyddiadau, a'i argymhellion, ac felly'n gwella atebolrwydd a gwelliant parhaus o fewn y Comisiwn Etholiadol.

Drwy'r cyfrifoldebau hyn, mae ARAC yn sicrhau llywodraethu cadarn, uniondeb ariannol, a rheoli risg o fewn y Comisiwn, ac mae'n hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd, a safonau moesegol. Daeth y Pwyllgor at ei gilydd bum gwaith yn 2025/26.

Mae ARAC yn cynnwys tri Chomisiynydd ac mae gofyn iddo gwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo penodi cynghorydd annibynnol â chymwysterau cymwys, sef unigolyn nad oes ganddo unrhyw gysylltiad â'r Comisiwn Etholiadol. Mae gan y cynghorydd annibynnol yr hawl i fynd i unrhyw un o gyfarfodydd y Comisiynydd.

Ddechrau 2025/26, Cadeirydd ARAC oedd yr Arglwydd Stephen Gilbert. Ar ôl iddo ymddiswyddo fel Comisiynydd, daeth Sheila Ritchie yn Gadeirydd. Y cynghorydd annibynnol oedd Paul Redfern.

## Y Pwyllgor Pobl, Diwylliant a Chydnabyddiaeth (PCR)

Mae'r Pwyllgor Pobl, Diwylliant a Chydnabyddiaeth yn goruchwylio ac yn rhoi sicrwydd ar strwythur sefydliadol, materion gweithlu a threfniadau uwch arwain y Comisiwn. Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri Chomisiynydd ac yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Aeth y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Pobl a Diwylliant i'r holl gyfarfodydd fel mater o drefn, a chafodd staff perthnasol eu gwahodd i siarad am eitemau a oedd yn cael eu trafod.

Dyma gyfrifoldebau'r Pwyllgor Pobl, Diwylliant a Chydnabyddiaeth:

| |
|---|
| Cymeradwyo newidiadau sylweddol i strwythur sefydliadol a/neu delerau ac amodau cyflogaeth cyffredinol staff ac unrhyw effaith yn sgil yn newid, megis terfynu contractau |
| Adolygu'r polisi ar gyfer cydnabyddiaeth, ac argymell cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr |
| Cytuno ar y cylch gorchwyl negodi blynyddol ar gyfer cyflogau staff (gan gynnwys ar gyfer y Tîm Gweithredol) |
| Cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd ar ffi'r Cynghorydd Annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Awgrymu aelodau i'r Bwrdd i'r paneli penodi ar gyfer y rolau Cynghorydd Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac ar gyfer y Prif Weithredwr |

## Adolygiad o berfformiad y Bwrdd a'r Pwyllgor yn ystod 2025/26

Caiff y Bwrdd ei sicrhau o'i effeithiolrwydd a hynny o'i bwyllgorau drwy gylch blynyddol o adolygu a myfyrio strwythuredig. Yn 2025/26, roedd hyn yn cynnwys Arolwg o Effeithiolrwydd y Bwrdd a hwyluswyd yn allanol, archwiliad sgiliau wedi'i ddiweddaru, a sesiwn bwrpasol ar ddatblygu'r Bwrdd.

Cymerodd yr holl Gomisiynwyr ac aelodau'r Tîm Gweithredol ran yn ddienw yn yr arolwg, a oedd yn dangos gwelliant sylweddol mewn perfformiad cyffredinol a diwylliant cryfach o dryloywder, heriau adeiladol a chyfrifoldebau cyffredin. Dangosodd lywodraethu strategol y cynnydd mwyaf, a chytunodd yr aelodau ar y canfyddiadau yn unol â'u profiad o Fwrdd mwy cydgysylltiedig a mwy hyderus.

Roedd yr archwiliad sgiliau yn gipolwg ar anghenion gallu heddiw ac yfory, yn enwedig mewn meysydd fel cadernid seiber, deallusrwydd artiffisial a rheoli rhaglenni ar raddfa fawr. Mae hyn yn parhau i gyfrannu at gynllunio olyniaeth ac ymgysylltu â Phwyllgor y Llefarydd ar benodiadau yn y dyfodol. Adolygodd y Bwrdd gyfansoddiad pwyllgorau a phwysleisiodd bwysigrwydd cynnal cysylltiadau cadarn, negeseuon allanol cyson, ac osgoi hunanfoddhad yn ystod cyfnod o weithgarwch deddfwriaethol a sefydliadol sylweddol.

### Presenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2025/26

Mae'r tabl isod yn dangos presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod 2025/26 (yr uchafswm presenoldeb posib mewn cromfachau).

| Enw | Bwrdd y Comisiwn | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Y Pwyllgor Pobl, Diwylliant a Chydnabyddiaeth |
|---|---|---|---|
| **John Pullinger CB (Cadeirydd)** | 7/(7) | - | - |
| **Y Fonesig Susan Bruce DBE, CVO** | 7/(7) | - | - |
| **Sarah Chambers** | 7/(7) | - | - |
| **Roseanna Cunningham** | 7/(7) | 2/(2) | - |
| **Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert o Bant-teg** | 8/(8) | 3/(3) | - |
| **Carole Mills** | 7/(7) | 5/(5) | 4/(4) |
| **Dr Katy Radford MBE** | 7/(7) | - | 4/(4) |
| **Sheila Ritchie MBE** | 7/(7) | 5/(5) | - |
| **Chris Ruane** | 7/(7) | - | 4/(4) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens CBE** | 7/(7) | - | - |

### Prif Weithredwr

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am ein sefydliad yn gyffredinol, sy'n cynnwys rheoli a staffio, ac am faterion sy'n ymwneud ag arian, ymddygiad a disgyblu. Penodwyd Dr Vijay Rangarajan CMG yn Brif Weithredwr ers 4 Mawrth 2024.

### Y Tîm Gweithredol

Mae'r Tîm Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn cwrdd pob wythnos i reoli cyflawniad nodau'r sefydliad ac i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau neu faterion sydd ar y gweill.


Mae gan y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr awdurdod dirprwyedig i reoli o ddydd i ddydd. Mae'r dirprwyaethau hyn yn cael eu gosod, eu cofnodi, a'u hadolygu'n ffurfiol yn flynyddol.

Mae'r Tîm Gweithredol yn cael adroddiadau misol ar berfformiad, cyllid a rheoli risg ar draws y sefydliad ac ar gynnydd prosiectau a mentrau allweddol. Yn ogystal â thrafodaethau anffurfiol, aml, mae'r Prif Weithredwr yn cwrdd â phob un aelod o'r Tîm Gweithredol o leiaf unwaith y mis i adolygu a herio perfformiad gweithredol ac ariannol.

### Aelodau'r Tîm Gweithredol yn ystod 2025/26

| **Y Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu** | **Vijay Rangarajan** |
|---|---|
| Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Datganoli a'r Gyfraith | Alison Williams (o 3 Tachwedd 2025) |
| Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadau a Rheoleiddio | Jackie Killeen |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol | Chris Pleass |
| Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Allanol | Niki Nixon |
| Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil ac Ymgysylltu â Phleidleiswyr | Sam Hartley (o 1 Hydref 2025) |
| Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Datganoli, Llywodraethu a'r Gyfraith | Binnie Goh (tan 31 Gorffennaf 2025) |
| Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil | Tom Hawthorn (tan 31 Hydref 2025 |

## Strwythur sefydliadol fel mae ar 31 Mawrth 2026



## Rheoli risg, rheolaeth fewnol a sicrwydd

Rydym yn cynnal system gynhwysfawr o reoli risg a rheolaeth fewnol a ddyluniwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau strategol, diogelu cyllid cyhoeddus, a gwarchod ei enw da. Mae'r system hon yn cyd-fynd â'r egwyddorion a nodir yn Llyfr Oren y Trysorlys EF ac mae'n destun adolygiad rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol ac yn gymesur.

Caiff prosesau rheoli risg eu gwreiddio ar draws pob lefel o'r sefydliad ac maent yn rhan annatod o gynllunio strategol, gwneud penderfyniadau a rheoli perfformiad.

## Llywodraethu ac atebolrwydd

Mae gan Fwrdd y Comisiwn gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod trefniadau effeithiol i reoli risg a rheolaeth fewnol ar waith. Mae'n pennu parodrwydd y sefydliad i gymryd risg ac mae'n goruchwylio risgiau strategol.

Mae'r ARAC yn cefnogi'r Bwrdd drwy ddarparu gwasanaeth craffu annibynnol o ddigonoldeb ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg, systemau rheolaeth fewnol a phrosesau sicrwydd.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol am effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg a rheolaeth fewnol ar draws y sefydliad ac mae'n sicrhau y pennir a chynhelir cyfrifoldebau clir ar bob lefel.

Mae'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am reoli risgiau yn y meysydd y mae'n atebol ar eu cyfer, sy'n cynnwys bod yn gyfrifol am risgiau strategol a'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosiectau a rhaglenni sylweddol.

## Fframwaith rheoli risg

Caiff ein fframwaith strwythuredig i reoli risg ei adolygu'n flynyddol i gadarnhau ei gydnawsedd parhaus ag arferion gorau a'i effeithiolrwydd wrth gefnogi ein hamcanion strategol. Mae'r fframwaith yn darparu ffordd gyson o adnabod, asesu, rheoli a monitro risgiau a chyfleoedd yn unol â pharodrwydd y sefydliad i gymryd risg.

Caiff risgiau eu diffinio'n glir a'u neilltuo i berchnogion atebol i sicrhau goruchwylio a rheoli priodol. Mae'r fframwaith yn cefnogi asesu risg yn gyson ar draws y sefydliad ac mae'n hyrwyddo adnabod a rheoli risgiau newydd yn amserol.

## Lefelau rheoli risg

Caiff risgiau o fewn y sefydliad eu rheoli ar draws hierarchaeth strwythuredig i sicrhau goruchwylio, cyfrifoldeb ac uwchgyfeirio priodol. Mae'r dull hwn yn cefnogi rheoli risgiau'n effeithiol ar bob lefel ac yn sicrhau y caiff risgiau eu hystyried yn unol â'u heffaith bosibl ar nodau sefydliadol. Mae'r lefelau risg gwahanol fel a ganlyn:

- **Risgiau strategol** - Dyma'r lefel uchaf o risgiau, a all effeithio ar flaenoriaethau hirdymor, cyfeiriad strategol, perfformiad neu enw da'r sefydliad. Mae'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am y rhain ac maent yn destun adolygu a goruchwylio rheolaidd gan uwch gyrff llywodraethu.
- **Risgiau gweithredol** - Dyma'r risgiau a ddaw i'r amlwg yn sgil gweithgareddau busnes, sy'n cynnwys prosesau, systemau ac adnoddau, a all effeithio ar gyflawni ein nodau. Caiff y rhain eu rheoli gan ein Penaethiaid Adran a Rheolwyr Timau a chânt eu hadolygu'n rheolaidd, gan uwchgyfeirio pan fo'n briodol.
- **Risgiau lleol / tîm** - Caiff risgiau eu rheoli o fewn timau unigol, lle y caiff effeithiau eu cyfyngu fel arfer. Caiff y rhain eu rheoli gan staff sy'n atebol ar lefel rheoli tîm a chânt eu huwchgyfeirio pan fo cysylltiad â risg yn cynyddu.
- **Risgiau prosiect a rhaglen** - Dyma'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni neu brosiectau penodol a all effeithio ar amserlenni cyflawni, costau neu ganlyniadau bwriadedig. Caiff y rhain eu rheoli o fewn fframweithiau llywodraethu sefydledig gan Reolwyr Prosiect a Rhaglen, a chyda'r Uwch Berchnogion Cyfrifol yn goruchwylio ac uwchgyfeirio yn ôl yr angen.

### Nodi, asesu a monitro risg

Dylunnir prosesau rheoli risg i gyfrannu at wneud penderfyniadau drwy alluogi ystyried prif risgiau a chamau lliniaru, a all fod ar gael mewn papurau Bwrdd ac awdurdod dirprwyedig pan fo'n briodol.

Caiff risgiau eu nodi a'u rheoli ar sawl lefel, sy'n cynnwys lefelau strategol, gweithredol a phrosiect/rhaglen, a chânt eu cofnodi mewn cofrestrau risg ffurfiol. Caiff y gofrestr risg strategol ei hadolygu bob chwarter gan y Tîm Gweithredol ac mae'n cael ei hadolygu'n flynyddol i sicrhau cydnawsedd parhaus â'n nodau strategol ac i ystyried cyfleoedd a bygythiadau perthnasol. Caiff risgiau gweithredol a phrosiect eu hadolygu'n rheolaidd ar lefel reoli a'u huwchgyfeirio pan fo'n briodol.

Caiff risgiau eu hasesu gyda dull safonol o fatrics 5x5, sy'n ystyried tebygolrwydd digwydd a'r effaith bosibl ar nodau sefydliadol. Mae hyn yn cynhyrchu sgôr risg sy'n cefnogi blaenoriaethu ac yn pennu lefel y sylw gan y tîm rheoli sydd ei hangen.

### Parodrwydd i Gymryd Risg

Mae ein datganiad parodrwydd i gymryd risg yn nodi sut rydym yn cydbwyso bygythiadau a chyfleoedd wrth fynd ati i gyflawni ein nodau ac mae'n nodi ein parodrwydd i gymryd risg i'n helpu i sicrhau ein bod yn ymateb i gyfleoedd a bygythiadau yn gyson.

Caiff parodrwydd i gymryd risg ei osod yn erbyn pedwar categori risg:

- Enw da a hygrededd
- Gweithredol a chyflawni polisi

- Ariannol a gwerth am arian
- Cydymffurfedd - cyfreithiol a rheoleiddio

Mae'r Bwrdd yn nodi'r parodrwydd i gymryd risg ar gyfer y Comisiwn ac mae'n adolygu'r sefyllfa hon o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r risg weddilliol ar gyfer risgiau strategol yn cael ei hadrodd yn erbyn y sefyllfa parodrwydd i gymryd risg.

### Risgiau Strategol

Rydym yn rheoli wyth risg strategol ar hyn o bryd, sy'n adlewyrchu ystod a chymhlethdod ein sefyllfa weithredu. Ddiwedd y flwyddyn ariannol 2025/26, cafodd pedair risg ei hasesu fel risgiau gweddilliol Uchel a phedair yn y categori Canolig, gyda chwech o'r wyth risg y tu hwnt i'n parodrwydd i gymryd risg datganedig ar hyn o bryd.

Mae llawer o'n risgiau mwyaf sylweddol yn deillio o ffactorau bygythiad allanol, sy'n cynnwys:

- effaith gynyddol camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar ymddiriedaeth etholiadol
- rhagor o fygylu a chamdriniaeth sy'n targedu ymgeiswyr
- risg o ddigwyddiadau a allai danseilio uniondeb prosesau etholiadol

Mae risgiau sgôr uchel eraill yn adlewyrchu hollbwysigrwydd cynnal annibyniaeth, didueddrwydd a hyder y cyhoedd, yn enwedig mewn sefyllfa wleidyddol a thechnolegol gymhleth.

Mae'r risgiau sy'n weddill yn cyd-fynd â gallu a chadernid sefydliadol, sy'n cynnwys rheoli adnoddau ariannol yn effeithiol, seiberddiogelwch, gallu'r gweithlu, ac ein gallu i ymateb i achosion tarfu sylweddol. Er y caiff y rhain ei hasesu fel rhai yn y categori Canolig, maent yn parhau i fod angen rheoli a goruchwylio gweithredol o ystyried eu potensial i waethygu os na chânt eu rheoli'n briodol.

Ar y cyfan, mae'r proffil risg strategol yn amlygu meysydd lle rydym yn gweithredu mewn amgylchedd risg uchel, sydd yn aml y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol ac sy'n atgyfnerthu'r angen am gamau lliniaru, monitro ac ymgysylltu cyson ar lefel y Bwrdd ac ar lefel weithredol.

### Prosesau sicrwydd

Daw sicrwydd bod ein risgiau'n cael eu rheoli'n briodol o ystod o ffynonellau, sy'n cynnwys goruchwyliaeth y tîm rheoli, byrddau llywodraethu a phwyllgorau, a gweithgarwch archwilio mewnol.

Caiff y Tîm Rheoli, ARAC a'r Bwrdd adroddiadau rheolaidd i alluogi ystyried y cysylltiad â risg ac effeithiolrwydd y camau rheoli, ac i gefnogi camau amserol pan fo angen gwelliannau.

## Adolygiad o effeithiolrwydd

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi cael diweddariadau ar risgiau strategol y sefydliad, sy'n cael eu cefnogi gan adroddiadau a adolygwyd gan ARAC. Mae hyn wedi cynnwys ystyried y wybodaeth ynghylch risgiau a gyflwynwyd drwg adroddiadau risg rheolaidd, ynghyd â diweddariadau'r tîm rheoli a gweithgarwch archwilio mewnol perthnasol pan roeddent ar gael.

Mae'r trafodaethau hyn wedi cefnogi'r Bwrdd i ddeall proffil risg y sefydliad a gweithrediad camau rheoli allweddol, ond nid oeddent yn cynnwys adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd cyffredinol y system rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Mae'r sefydliad yn parhau wedi ymrwymo i ddatblygiad a gwelliant parhaus ei reolaeth risg a threfniadau sicrwydd. Yn ystod y flwyddyn, daliwyd ati â gwaith i wella cysondeb adrodd am risgiau ac i gryfhau integreiddio ystyriaethau risg i gynllunio busnes a phrosesau perfformio.

Bwriad y pwyslais hwn ar wella parhaus yw cefnogi gallu'r sefydliad i ymateb i newidiadau yn ei broffil risg a'i amgylchedd gweithredu dros amser.

## Archwilio allanol

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yw pennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac ein harchwilydd allanol, fel y nodir dan Atodlen 1 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Ni ddarparodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw wasanaethau nad oeddent yn ymwneud ag archwilio yn 2025/26. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn darparu llythyrau i reolwyr, yn cynllunio, diweddaru a chwblhau adroddiadau fel rhan o'r broses archwilio statudol sydd hefyd yn hysbysu'r Swyddog Cyfrifyddu am yr arsylwadau a wnaed.

## Archwilio mewnol

Ein harchwilwyr mewnol yn 2025/26 oedd BDO UK. Cwblhaodd BDO archwiliadau yn unol gyda'u methodoleg, sy'n cyd-fynd â Safonau Archwilio Mewnol y Byd. Mae ei adroddiadau yn cynnig barn annibynnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd ein systemau rheoli. Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cymeradwyo'r rhaglen archwilio yn seiliedig ar risg y cytunwyd arni. Mae BDO wedi dyfarnu lefel 'resymol' o sicrwydd ar gyfer y farn archwilio flynyddol a gafodd ei llywio gan yr adroddiadau archwilio mewnol canlynol:

## Twyll a gwall

Darparodd BDO sicrwydd cymedrol dros ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol y trefniadau sydd ar waith sy'n gysylltiedig â thwyll a gwall, gan nodi dau ganfyddiad o flaenoriaeth ganolig ac un o flaenoriaeth isel.

### Rheoli mynediad

Darparodd BDO sicrwydd cymedrol dros ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol camau rheoli mynediad TG ac adeiladu, gan ychwanegu sylwadau ar y camau rheoli cadarn sydd ar waith i reoli mynediad a nodi'r meysydd i'w gwella ymhellach.

### Rheoli Perfformiad Sefydliadol

Darparodd BDO sicrwydd cymedrol dros ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol ein camau rheoli sy'n gysylltiedig â'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol, gan nodi saith canfyddiad o flaenoriaeth ganolig ac un o flaenoriaeth isel.

### Treuliau

Darparodd BDO sicrwydd cyfyngedig dros ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol ein camau rheoli sy'n gysylltiedig â threuliau. Daeth i'r casgliad bod prosesau strwythuredig a sefydlwyd yn dda i reoli treuliau a chymeradwyaeth, ond nododd feysydd y gellid eu gwella i gryfhau cydymffurfedd ac effeithlonrwydd.

### Caffael

Darparodd BDO sicrwydd cymedrol dros ddyluniad ein camau rheoli, gan gydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed i gryfhau prosesau caffael.  Fodd bynnag, gan eu bod yn eithaf newydd, gellid darparu sicrwydd cyfyngedig ar effeithlonrwydd gweithredol caffael a chamau rheoli cysylltiadau cyflenwyr parhaus oherwydd roedd y trefniadau hyn yn parhau i aeddfedu.

### Diogelu Data

Darparodd BDO sicrwydd cyfyngedig ar ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol ein rheolau ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Amlygodd yr adroddiad y gwelliannau angenrheidiol a oedd eu hangen i gryfhau trefniadau cydymffurfio presennol ac fe nododd y cynlluniau i gyflwyno arbenigedd ac adnoddau llywodraethu gwybodaeth ychwanegol.

### Recriwtio

Darparodd BDO sicrwydd cymedrol ar gyfer dyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol ein rheolau i ddenu talent a lleihau trosiant y gellir ei osgoi. Daeth yr archwiliad i'r casgliad bod prosesau recriwtio eithaf cadarn a oedd yn cael eu cefnogi gan gyflwyno swyddogaeth Caffael Talent bwrpasol a threfniadau llywodraethu wedi'u cryfhau.

### Camau Dilynol 2025/26

Allan o'r 41 o argymhellion a brofwyd yn ystod yr adolygiad hwn, cafodd 27 eu rhoi ar waith yn llawn, parhaodd 11 ar y gweill ac roedd un heb ei ddechrau. Ar gyfer dau o'r camau gweithredu, derbyniodd y rheolwyr y risg na fyddai'r gweithrediad yn cael ei roi ar waith yn llawn.

## Grantiau datblygu polisi

Rydym yn darparu Grantiau Datblygu Polisi i bleidiau gwleidyddol cymwys, fel y nodir yn Nodyn 3.

Rydym yn cynnal rheolaeth dros daliadau grant drwy broses hawlio ac adolygu gynhwysfawr. Cyflwynodd yr holl bleidiau ffurflenni gwariant a oedd yn dod i gyfanswm o daliadau gwerth £2m. Mae gwybodaeth ychwanegol sy'n rhoi diweddariad ar fater a adroddwyd yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024/25 wedi'i chynnwys dan Nodyn 3.1 i'r Cyfrifon.

Yn dilyn ein harchwiliad yn 2024/25, ni allem gadarnhau bod holl arian y grant PDG i un blaid wedi cael ei wario'n briodol ar ddatblygu polisi. Cyhoeddodd Plaid Alba ei Hadroddiad Blynyddol a'i Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

Nododd "Yn ystod y flwyddyn, nododd Swyddogion y Blaid na ellid profi rhai eitemau o wariant hanesyddol yn llawn drwy ddogfennaeth ategol angenrheidiol. [...] ni ddarparwyd cydweithrediad na thystiolaeth ategol i alluogi'r holl drafodion hanesyddol i gael eu cysoni'n gynhwysfawr l. [...] Mae nifer o eitemau o wariant yn parhau i fod heb eu dilysu'n ddigonol ac mae adroddiad wedi'i wneud, gan y Blaid, i Heddlu'r Alban mewn perthynas â'r gwariant hwnnw ac mae wedi'i nodi fel gwariant eithriadol yn y cyfrif incwm a gwariant. [...] mae pob plaid yn aros am ganlyniad ymchwiliadau Heddlu'r Alban."

Mae Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Plaid Alba ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025 wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar. Cyfeirir at ymchwiliad parhaus Heddlu'r Alban.

Rydym yn cadw rheolaeth dros daliadau grant drwy broses hawlio ac adolygu gynhwysfawr. Cyflwynodd pob plaid ffurflenni gwariant a arweiniodd at daliadau o £2m.

## Llywodraethu gwybodaeth

Mae ein proses rheoli risg gwybodaeth yn mynd rhagddi. Rydym yn seilio ein dull, ac yn ei fesur, yn erbyn y Safon Diogelwch a Hanfodion Seiber ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio ein dull o reoli risg gwybodaeth.

Ar gyfer 2025/26, roedd y pwyslais ar recriwtio tîm mwy i gefnogi'r cylch bywyd rheoli risg gwybodaeth a llywodraeth gwybodaeth.

Mae rhagor o welliannau wedi'u cyflawni mewn offer meddalwedd newydd ar gyfer Asesiadau o Effaith Diogelwch Data, gweithredu polisi cadw ar ddechrau cylch bywyd cynnyrch a chyflwyno Rheoli Hunaniaeth thrwy gydol setiau data'r Comisiwn.

## Digwyddiadau yn ymwneud â data personol

Yn 2025/26, cofnodwyd tri digwyddiad yn ymwneud â data personol, a oedd yn cynnwys un toriad data a gadarnhawyd a dau ddigwyddiad a fu bron â digwydd a oedd yn gysylltiedig â gwybodaeth a gyhoeddwyd neu a rannwyd mewn camgymeriad. Cafodd yr achosion hyn eu hasesu'n unol â'n proses rheoli toriadau data. Ym mhob achos, pennwyd bod y risg i unigolion yn isel ac nid oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer hysbysu'r rheoleiddiwr, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

## Chwythu'r Chwiban

Mae ein polisi chwythu'r chwiban yn darparu llwybrau i weithwyr ddatgelu camymarfer, gweithredoedd anghyfreithlon neu bryderon ynghylch camymddwyn. Yn 2025/26, roedd un achos o gydweithiwr yn codi pryderon drwy'r weithdrefn chwythu'r chwiban. Cafodd y mater ei archwilio'n llawn yn unol â'n gweithdrefn chwythu'r chwiban.

## Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli. Wrth gwblhau'r adolygiad hwn, rwy'n ystyried:

- gwaith rheolwyr sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli
- gwaith yr archwilwyr mewnol
- sylwadau a wnaed gan ein harchwilwyr allanol yn eu hadroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ein sefydliad

Rwy'n fodlon bod y gwendidau a nodwyd drwy'r amodi cyfrifon yn 2023/24 wedi eu hymgodymu drwy gamau priodol, neu fod hynny'n parhau, ac nid ydynt yn cyflwyno risgiau sylweddol i'n polisïau, ein hamcanion a'n nodau, na gwallau sylweddol yn ein datganiadau ariannol.

Rwyf wedi cael sicrwydd a gwybodaeth ddigonol gan ARAC, y Bwrdd, ac aelodau eraill o'r tîm Gweithredol, yn ogystal â gan archwilwyr mewnol ac allanol, bod camau rheoli priodol wedi bod ar waith drwy gydol 2025/26.

# Adroddiad Cydnabyddiaeth a staff

## Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Comisiynwyr

Caiff comisiynwyr eu penodi gan Warant Frenhinol i arfer eu swyddogaethau fel y'u disgrifir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA). Penodwyd John Pullinger yn Gadeirydd y Comisiynwyr ar 1 Mai 2021.

Mae Tŷ'r Cyffredin wedi penderfynu y bydd ffioedd ar gyfer y Comisiynwyr yn cynyddu ar 1 Ebrill bob blwyddyn, yn ôl y canran cynnydd a dalwyd am farnwyr yr Uchel Lys yn ystod y flwyddyn honno. Yn unol â'r trefniant hwn, cynyddodd ffioedd yn 2025/26 i gyfradd ddyddiol o £483 (2024/25: £464). Mae cyflog y Cadeirydd a ffioedd y Comisiynwyr yn cael eu talu o'r Gronfa Gyfunol, fel y gellir manylu arno mewn penderfyniad gan Dŷ'r Cyffredin.

Caiff comisiynwyr eu talu gan ôl-daliadau yn seiliedig ar nifer y diwrnodau a weithiwyd mewn gwirionedd ac ar ôl cyflwyno hawliadau. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r taliadau ffi a gafodd pob Comisiynydd fel arian parod i gyfateb â'r Gronfa Gyfunol yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. Mae cyflog Cadeirydd y Comisiynwyr hefyd wedi'i gynnwys. Mae Tŷ'r Cyffredin yn darparu ar gyfer pensiynau'r Comisiynwyr drwy benderfyniad.

## Cyflog a thaliadau ffi i Gomisiynwyr yn 2025-26 (Yn ddibynnol ar archwiliad)

| Enw | 2025-26<br>£ | 2024-25<br>£ |
|---|---|---|
| John Pullinger CB (Cadeirydd) | 99,254 | 93,756 |
| Y Fonesig Susan Bruce DBE, CVO | 14,333 | 9,099 |
| Sarah Chambers | 8,418 | 17,927 |
| Roseanna Cunningham | 6,886 | 12,414 |
| Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert o Bant-teg | 7404[1] | 14,636 |
| Carole Mills | 27,853 | 15,483 |
| Dr Katy Radford MBE | 14,574 | 17,518 |
| Sheila Ritchie MBE | 16,638 | 18,132 |
| Chris Ruane | 12,531 | 15,606 |
| Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens CBE | 21,045 | 14,109 |

[1]Cyfrifon ar gyfer ffioedd rhwng 1 Ebrill 2025 ac 16 Medi 2025 am y rheswm bod yr Arglwydd Gilbert wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd

Mae'r holl ffigyrau a ddangosir uchod yn cynnwys Yswiriant Gwladol y cyflogwyr i gyfateb i arian o'r Gronfa Gyfunol.

Mae'r ffigyrau a ddangosir yn adlewyrchu'r hyn a gafodd ei dalu ac nid yr hyn a oedd yn ddyledus am eu hamser yn y rôl yn ystod 2025/26.

Mae tâl cydnabyddiaeth y cynghorydd annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, fel y'i nodir gan y Pwyllgor Pobl, Diwylliant a Chydnabyddiaeth, yr un fath â'r gyfradd ddyddiol i Gomisiynwyr.

Cafodd cynghorydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, sef Paul Redfern, £2,822 am ei rôl yn 2025/26 (2024/25: £2,608). Caiff treuliau rhesymol ar gyfer teithio a chynhaliaeth a ysgwyddwyd go iawn eu talu yn unol â'n polisi teithio a chynhaliaeth. Nid oes unrhyw drefniadau pensiwn mewn grym ar gyfer y rôl hon.

## Costau busnes: teithio a llety 2025-26 (yn ddibynnol ar archwiliad)

| Enw | 2025-26<br>Cyfanswm £ | 2024-25<br>£ |
|---|---|---|
| John Pullinger CB (Cadeirydd) | 614 | 219 |
| Y Fonesig Susan Bruce DBE, CVO | 688 | 1,715 |
| Sarah Chambers | 240 | 158 |
| Roseanna Cunningham | 764 | - |
| Yr Arglwydd (Stephen) Gilbert o Bant-teg | 146 | 370 |
| Carole Mills | 3,275 | 723 |
| Dr Katy Radford MBE | 2,550 | - |
| Sheila Ritchie MBE | 3,089 | 1,701 |
| Chris Ruane | 917 | 1,703 |
| Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens CBE | 1,694 | - |
| Alex Attwood[1] | 756 | - |
| **Cyfanswm treuliau busnes** | 14,733 | 6,589 |

[1]Mae Alex Attwood yn gyn-gomisiynydd a adawodd ym mis Ionawr 2024, y gweithredwr. Gwnaed penderfyniad rheoli i ganiatáu i gais 2023/24 gael ei brosesu.

Mae costau busnes a ddigolledir yn ddi-dreth i'r unigolion. Mae'r Comisiwn yn talu unrhyw dreth sy'n ddyledus fel rhan o'u ffurflenni blynyddol i CThEF

## Tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol

Gadawodd Binnie Goh, Cyfarwyddwr a Chwnsler Cyffredinol Datganoli, Llywodraethu a'r Gyfraith, ym mis Gorffennaf 2025.

Daeth rôl Niki Nixon fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu dros dro i ben ym mis Gorffennaf 2025. Penodwyd Niki fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Allanol ym mis Awst 2025. Penodwyd Tom Hawthorn fel Cyfarwyddwr dros dro Polisi ac Ymchwil tan 31 Hydref 2025, a dychwelodd i'w rôl fel Pennaeth Polisi ar 1 Tachwedd 2025. Penodwyd Alison Williams fel Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Datganoli a'r Gyfraith o 3 Tachwedd 2025. Penodwyd Sam Hartley fel Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil ac Ymgysylltu â Phleidleiswyr o 1 Hydref 2025.

Mae'r Pwyllgor Pobl, Diwylliant a Chydnabyddiaeth yn gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ar gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a chytuno ar y cylch gorchwyl negodi blynyddol ar gyfer cyflogau staff (gan gynnwys y Tîm Gweithredol). Mae manylion am aelodau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor ar gael yn yr adroddiad llywodraethu.

Nid ydym yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, ac felly nid ydym wedi ein rhwymo i ganllawiau tâl y Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, mae'n ofynnol yn ôl Atodlen 1 y PPERA i ni ystyried buddion cadw telerau ac amodau cyflogaeth staff yn unol â rhai'r Gwasanaeth Sifil yn fras. Mae'r Pwyllgor Pobl, Diwylliant a Chydnabyddiaeth hefyd yn rhoi sylw i'r ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Caiff cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr ei ariannu drwy'r Amcangyfrif Cyflenwi a'i gyfrif amdano yn y cyfrifon blynyddol.

Mae'r bobl sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn ddeiliaid ar rolau sy'n ben agored. Er hynny, mae gan y staff y dewis i ymddeol a thynnu pensiwn o 60 neu 65 mlwydd oed, yn ddibynnol ar reolau eu cynllun pensiwn penodol. Byddai terfynu cytundeb gwaith yn gynnar ar ôl hyd gwasanaeth cymhwysol, ac eithrio ar gyfer camymddwyn, fel arfer yn arwain at yr unigolyn yn cael iawndal fel yr amlinellir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

**Cyfanswm unigol neu gydnabyddiaeth (Yn amodol ar archwiliad)**

| | Cyflog (£000) | | Buddiann (i'r £100 agosaf) | |
|---|---|---|---|---|
| **Enw** | **2025-26** | **2024-25** | **2025-26** | **202** |
| **Aelodau gweithredol Bwrdd y Comisiwn Etholiadol (CE) - Cyfarwyddwyr** | | | | |
| Vijay Rangarajan,<br>Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | 220-225 | 205-210 | 200 | |
| Binnie Goh,<br>Cyfarwyddwr Datganoli, Llywodraethu a'r Gyfraith<br>(hyd at 31 Gorffennaf 2025) | 35-40<br><br>(115-120 FYE) | 115-120 | 100 | |
| Jackie Killeen<br>Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth a Rheoleiddio Etholiadol | 125-130 | 115-120 | 200 | |
| Chris Pleass,<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol | 120-125 | 45-50<br><br>(115-120 FYE) | 200 | |
| Niki Nixon<br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Allanol | 115-120 | 65-70<br><br>(90-95 FYE) | 200 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Alison Williams<br>Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Datganoli a'r Gyfraith<br>(o 03 Tachwedd 2025) | 45-50<br><br>(115-120 FYE) | 0 | 100 |
| Sam Hartley,<br>Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil ac Ymgysylltu â Phleidleiswyr<br>(o 1 Hydref 2025) | 55-60<br><br>(115-120 FYE) | 0 | 100 |
| Tom Hawthorn **<br>Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil (tan 31 Hydref 2025) | 55-60<br><br>(95-100 FYE) | 70-75<br><br>(90-95 FYE) | 200 |

Nodiadau:

Mae pensiwn ailddatganedig yn 2024/25 oherwydd newidiadau mewn balans pensiwn oherwydd diweddariad i ddata cyflog. Mae hyn i'w weld yng nghyfrifiadau 2024/25 erbyn hyn.

* Mae unrhyw fuddion pensiwn sydd wedi cronni wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn sydd wedi ei effeithio gan Ddatrysiad Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar gael eu cynnwys yn y cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol y mae aelodau yr effeithir arnynt wedi cael eu symud yn ôl i'r cynllun gwaddol perthnasol ar gyfer y cyfnod datrys a bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn ymarfer ei hawl pan fydd yn ymddeol i benderfynu, yn lle hynny, i dderbyn buddion wedi'u cyfrifo dan amodau cynllun Alpha o'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Penodwyd Niki Nikton yn Gyfarwyddwr Interim Cyfathrebiadau tan 31 Gorffennaf 2025. Yna, cafodd ei phenodi fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Allanol o 1 Awst 2025.

** Penodwyd Tom Hawthorn yn Gyfarwyddwr Interim Polisi ac Ymchwil o 8 Gorffennaf 2024 tan 31 Hydref 2025.

## Cyflog

Mae'r cyflog yn cynnwys cyflog gros, goramser, hawliau a gedwir i gostau cyfatebol yn Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, cyflog diswyddo ac unrhyw lwfans arall os yw'n ddarostyngedig i drethiant yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaeth y Comisiwn Etholiadol ac o'r herwydd maent wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

### Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarparwyd gan y Comisiwn sy'n cael eu trin fel enillion trethadwy gan CThEF. Mae buddion mewn nwyddau aelodau'r Tîm Gweithredol yn cynnwys aelodaeth o Benenden Healthcare, ac yr ydym hefyd yn gwneud taliad ar ei gyfer i CThEF. Gwerth y buddion hyn ar gyfer pob aelod o'r tîm gweithredol yn 2025/26 oedd £186 (£153.60 yn 2024/25). Mae'r holl staff yn cael y buddion hyn.

### Tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad

Yn ystod 2025-26, cyflwynon ni dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Daw'r taliadau cyntaf sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn seiliedig ar berfformiad am flwyddyn lawn i rym yn 2026-27, ond cafodd dyfarniad tâl trosiannol ei roi yn ystod 2025/26. Roedd cymhwysedd yn seiliedig ar gytuno i'r telerau ac amodau newydd a'r hyd gwasanaeth.

### Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Mae buddion pensiwn yn cael eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cafodd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil ei gyflwyno - y Cynllun Pensiwn i Weinyddion Sifil a Phobl eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn Gwladol yr aelod (neu 65 os yn hŷn). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd pob un gwas sifil a benodwyd yn newydd a'r mwyafrif sydd eisoes yn y gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan PCSPS bedair adran: tair sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, ond mae cost y buddion yn cael eu talu gan arian wrth gefn gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan classic, premium, classic plus, nuvos, ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Fe wnaeth aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w oedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 barhau yn PCSPS wedi 1 Ebrill 2015. Cafodd y rhai rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a phum mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 eu trosglwyddo i alpha rhyw bryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. O 1 Ebrill 2022, symudwyd pob aelod i'r cynllun alpha waeth pa mor agos oeddent i'w hoedran pensiwn arferol. Mae pob aelod sy'n symud i alpha wedi cael eu buddion PCSPS wedi eu 'bancio', gyda rhai sydd â buddion cynt yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan maent yn gadael alpha. (Mae'r ffigyrau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y mae'n briodol. Lle mae'r swyddog wedi cael buddion yn PCSPS ac alpha, y ffigwr a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniadau buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad 'pryniant arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r gweithiwr yn gysylltiedig â thâl ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion yn classic yn crynhoi ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae swm cyfansymiol sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer premium, mae buddion yn crynhoi ar gyfradd o 1/60ain o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, does dim swm cyfansymiol awtomatig. Mae Classic plus i bob pwrpas yn hybrid gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un modd â classic ac mae'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 wedi eu cyfrifo yn yr un modd â premium. Yn nuvos, mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o fod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd y flwyddyn gynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn derbyn 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno ac mae'r pensiwn crynodedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion yn alpha yn adeiladu mewn ffordd debyg i nuvos, heblaw bod y gyfradd grynodedig yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis i ildio (symud) pensiwn am swm cyfansymiol hyd at y cyfyngiadau a amlinellir yn Neddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliad. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr gan y darparwr penodedig - Legal and General. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan maent yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu swm cyfatebol o hyd at gyfyngiad o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn bodloni cost trefniant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth yn ystod gwasanaeth ac ymddeoliad salwch £21,486).

Y pensiwn crynodedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w dderbyn pan maent yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth wedi iddo roi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu wedi mynd y tu hwnt iddo. Mae oedran pensiwn yn 60 ar gyfer aelodau o classic, premiun a classic plus, 65 ar gyfer aelodau o nuvos, a hŷn na 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau o alpha. (Mae'r ffigyrau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y mae'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigwr a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

### Gwerthoedd Trosglwyddo Arian Cyfatebol (CETV)

Gwerth Trosglwyddo Arian Cyfatebol (CETV) yw gwerth ariannol buddion y cynllun pensiwn, wedi'i asesu'n actiwaraidd a'i gyfalafu, sydd wedi'i grynhoi gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion crynodedig yr aelod a phensiwn partner dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu drefniant pan mae'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi crynhoi i'w cynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r

buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn rôl uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigyrau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant lle mae'r aelod wedi trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol sydd wedi'u cronni i'r aelod o ganlyniad iddo fod wedi prynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Mae CETVau yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddadwy) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib i fuddion o ganlyniad i'r Lwfans Treth Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan mae buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

### Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn crynodedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau cyffredin i werthuso'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Ar gyfer 2025/26, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £3,657,645 yn daladwy i'r Cynlluniau (2024/25; £3,066,081) ar gyfradd o 28.97% (2024/25: 28.97%) ar gyfer cyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad cynllun llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt grynhoi, nid y costau wrth iddynt ddigwydd go iawn, ac yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £52,676 (2024/25; £36,995) eu talu i ddarparwr pensiwn rhanddeiliad a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi tâl cyfatebol i gyfraniadau'r gweithiwr hyd at 3% o'r tâl pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £1,259 sef 0.5% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i fodloni costau darpariaeth o fuddion cyfansymiol yn y dyfodol yn dilyn marwolaeth wrth wasanaethu ac ymddeoliad ar sail iechyd y gweithwyr hyn.

Roedd y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partner ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn sero. Ni thalwyd unrhyw gyfraniadau ymlaen llaw erbyn y dyddiad hwnnw.

Ni wnaethom dalu unrhyw gyfraniadau pensiwn i'r Comisiynwyr yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ni dalu pensiynau i rai Cyn-gomisiynwyr penodol Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr. Mae cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer y costau hyn wedi ei lleihau i £96k ar 31 Mawrth 2026 (£103k ar 31 Mawrth 2025).

Cyfrifir ffigyrau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau gostyngedig ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; defnyddir y canllawiau hyn wrth gyfrifo ffigyrau CETV 2024/25.

## Gwybodaeth pensiwn ar gyfer Cyfarwyddwyr (£000) (Yn ddibynnol ar archwiliad)

| Cyfarwyddwyr | Pensiwn cronedig erbyn oedran pensiwn fel y mae ar 31/3/26 a'r cyfandaliad perthnasol | Cynnydd real yn y pensiwn a'r swm cyfansymiol perthnasol erbyn oedran pensiwn | CETV ar 31/3/26 | CETV ailddatgan edig ar 31/3/25[3] | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| **Vijay Rangarajan**<br>**Prif Weithredwr** | 85 - 90 yn ogystal â chyfandaliad o 210-215 | 5 - 7.5 ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 1984 | 1789 | 85 |
| **Chris Pleass**<br>**Cyfarwyddwr Corfforaethol** | 40 – 45 | 2.5 – 5 | 921 | 822 | 47 |
| **Binnie Goh**<br>**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Diwygio (tan 31 Gorffennaf 2025)** | 35 - 40 ynghyd â chyfandaliad o 85 - 90 | 0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 - 2.5 | 795 | 765 | 19 |
| **Alison Williams**<br>**Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr** | 35-40 | 0-2.5 | 604 | 579 | 4 |

[3] Mae unrhyw fuddion pensiwn sydd wedi cronni wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn sydd wedi ei effeithio gan Ddatrysiad Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar gael eu cynnwys yn y cynllun gwaddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae Datrysiad Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu yn gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol y mae aelodau yr effeithir arnynt wedi cael eu symud yn ôl i'r cynllun gwaddol perthnasol ar gyfer y cyfnod datrys a bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn ymarfer ei hawl pan fydd yn ymddeol i benderfynu, yn lle hynny, i dderbyn buddion wedi'u cyfrifo dan amodau cynllun Alpha o'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Datganoli a'r Gyfraith (o 3 Tachwedd 2025)** | | | | | |
| **Jackie Killeen**<br>**Cyfarwyddwr Canllawiau a Gweinyddu Etholiadol** | 40 - 45 ynghyd â chyfandaliad o 100 - 105 | 2.5 - 5 ynghyd â chyfandaliad o 0 - 2.5 | 926 | 838 | 36 |
| **Niki Nixon**<br>**Cyfarwyddwr Cyfathrebu** | 15 – 20 | 2.5 - 5 | 196 | 160 | 23 |
| **Sam Hartley Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil ac Ymgysylltu â Phleidleiswyr (o 1 Hydref 2025)** | 35 - 40 ynghyd â chyfandaliad o 80 - 85 | 2.5 - 5 ynghyd â chyfandaliad o 7.5 - 10 | 711 | 627 | 70 |
| **Tom Hawthorn Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil (o 8 Gorffennaf 2024 tan 31 Hydref 2025)** | 40 – 45 | 2.5 - 5 | 813 | 740 | 43 |

**Nodiadau**

- CTVE yw'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod
- Y pensiwn cronnus a ddangoswyd yn y tabl uchod yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w gael pan mae'n cyrraedd 60 ar gyfer cynlluniau pensiwn 'Clasurol', 'Clasurol Plws', a 'Phremiwm', 65 ar gyfer cynllun pensiwn 'Nuvos', a'r cynllun pensiwn 'Alpha' ar gyfer oedran pensiwn y wladwriaeth (neu 65 os yn hwyrach).

### Taliadau ar gyfer ymddeoliad cynnar neu golli swydd (Yn ddibynnol ar archwiliad)

Nid oedd unrhyw daliadau ar gyfer ymddeoliad cynnar neu golli swydd. (2024/25 dim)

### Datgeliad cyflog teg (i'r £1000 agosaf) (Yn ddibynnol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn eu sefydliad a'r chwartel isaf, y canolrif a'r chwartel uchel ar gyfer cydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad. Nid oes unrhyw daliadau bonws yn daladwy i unrhyw Gyfarwyddwr nac unrhyw staff eraill yn y Comisiwn.

| | 2025/26<br>£000 | 2024/25<br>£000 | |
|---|---|---|---|
| **Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf (ystod band cyflog)*** | 220-225 | 205-210 | 7.2% |
| **Cydnabyddiaeth y chwartel uchaf (yr holl staff eraill)** | 62 | 59 | 5.7% |
| **Canolrif y gydnabyddiaeth (yr holl staff eraill)** | 50 | 48 | 4.2% |
| **Chwartel isaf y gydnabyddiaeth (yr holl staff eraill)** | 41 | 39 | 6.8% |
| **Cymhareb (chwartel uchaf)** | 3.6 | 3.5 | 2.9% |
| **Cymhareb (canolrif)** | 4.4 | 4.3 | 4.7% |
| **Cymhareb (chwartel isaf)** | 5.4 | 5.4 | 3.8% |

Mae'r ffigurau'r cyflogau a chyfanswm y gydnabyddiaeth union yr un peth ar gyfer pob chwartel.

### Lluosrifau Cyflog

Cydnabyddiaeth band y cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 oedd £220-225k (2023/24, £205k-210k). Roedd hyn 4.4 gwaith (2024/25 4.3 gwaith) cydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, a oedd yn £50k (2024/25, £48k).

Yn 2025/26 a 2024/25, ni chafodd unrhyw gyflogai gydnabyddiaeth a oedd y tu hwnt i'r cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf. Roedd cyfraddau cydnabyddiaeth ar gyfer staff ac eithrio'r Cyfarwyddwr a delir fwyaf (yn seiliedig ar gyfraddau sy'n cyfateb i rai amser llawn) yn amrywio o £25-30k i £190-195k (2024/25: £30-35k i £165-170k). Noder bod y cyfraddau is ar gyfer y staff ar y cyflog isaf wedi lleihau yn sgil cyflwyno prentisiaethau.

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar gyfer pensiynau.

*Cynyddwyd cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr a delir uchaf 5.25% yn ystod 2025/26 a oedd yn gyson â'r holl staff eraill. Mae'r adroddiad cydnabyddiaeth yn dangos gwybodaeth ynghylch y Cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf.

## Adroddiad staff

### Cyfansoddiad staff (Yn ddibynnol ar archwiliad)

Roedd wyth o Gyfarwyddwyr yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod (pedwar ohonynt yn ddynion a phedwar ohonynt yn ferched). Roedd nifer y Comisiynwyr a staff mewn swyddi ar 31 Mawrth 2026 fel a ganlyn:

| | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Cadeirydd a'r Bwrdd** | 6 | 3 | 9 |
| **Cyfarwyddwyr/Penaethiaid (staff parhaol)** | 18 | 11 | 29 |
| **Cyfarwyddwyr/Penaethiaid (staff dros dro/tymor penodol)** | 1 | 1 | 2 |
| **Staff eraill (parhaol)** | 141 | 101 | 242 |
| **Staff eraill (dros dro/tymor penodol)** | 6 | 5 | 11 |
| **Contract/asiant** | 4 | 11 | 15 |
| **Cyfanswm** | **176** | **132** | **308** |

### Costau staff (i'r £000 agosaf) (Yn ddibynnol ar archwiliad)

| | Staff sy'n cael eu cyflogi'n barhaol | Eraill | 2025/26 Cyfanswm | 2024/25 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Taliadau a chyflogau** | 13,496 | 1,162 | 14,658 | 12,021 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | 1,952 | - | 1,952 | 1,320 |
| **Costau pensiwn eraill** | 3,658 | - | 3,658 | 3,066 |
| **Cyfanswm costau net*** | **19,106** | **1,162** | **20,268** | **16,407** |

* Noder: *Yn 2025/26, ni chafodd unrhyw gostau staff eu cyfalafu (Yn 2024/25 £DIM costau staff wedi'u cyfalafu).

### Cyfartaledd nifer y bobl a gyflogwyd (Yn ddibynnol ar archwiliad)

Yn ystod 2025/26, y nifer cyfartalog o unigolion yn cyfateb i gyflogaeth amser llawn (FTE) oedd 247 (2024/25: 208). Yn ogystal, roedd cyfartaledd o 9 o staff dros dro

cyfwerth ag amser llawn (2024/25: 10) mewn swyddi a sefydlwyd neu staff yn gweithio ar brosiectau oddi allan i'r sefydliad.

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| **Cyfateb i lawn amser - Staff mewn cyflogaeth barhaol** | 247 | 208 |
| **Staff dros dro** | 9 | 10 |
| **Cyfanswm** | **256** | **218** |

### Cyfraddau trosiant staff

Roedd cyfraddau trosiant staff ar gyfer 2025/26 yn 12.2% (2024/25, 13.6%). Mae hyn yn seiliedig ar gyfartaledd ein cyfrif o staff presennol a'r rhai a adawodd yn y cyfnod hwnnw.

### Absenoldeb oherwydd salwch

Yn 2025/26, nifer cyfartalog y diwrnodau absenoldeb oherwydd salwch oedd 4.8 fesul gweithiwr o'i gymharu â 4.8 fesul gweithiwr yn y flwyddyn flaenorol.

Bydd yr adran Pobl a Diwylliant yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi rheolwyr i reoli absenoldebau tymor byr a thymor hir yn 2025/26, gan gynnwys sicrhau bod yr holl staff yn cael trafodaeth dychwelyd i'r gwaith effeithiol gyda'u rheolwr llinell pan fyddant yn dychwelyd, a monitro a chefnogaeth effeithiol yn ystod eu habsenoldeb tymor hir. Yn ogystal, caiff rheolwyr adroddiadau rheolaidd ar lefelau absenoldeb yn eu timau i'w galluogi i ymyrryd ar y cyfle cyntaf posibl i gefnogi iechyd a llesiant gweithwyr. Rydym wedi ymrwymo i iechyd a llesiant yr holl staff ac yn hyrwyddo ffordd o fyw gytbwys, gan gynnwys aelodaeth gorfforaethol gyda Benenden Healthcare. Mae canllawiau a pholisi absenoldeb oherwydd salwch cynhwysfawr i reolwr ar ddelio gydag absenoldeb staff a chefnogaeth gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.

### Cyfradd absenoldebau salwch cyfartalog fesul gweithiwr

Roedd ein habsenoldeb oherwydd salwch cyfartalog ar ei uchaf yn 2023, wrth i 8.43 diwrnod gwaith ar gyfartaledd gael ei golli fesul unigolyn oherwydd salwch.  Ers hynny, mae wedi parhau'n is na'n targed o 5.8 o ddiwrnodau.

### Polisïau staff

Cymhwyson ni bolisïau staff yn gyson yn ystod y flwyddyn wrth i ni ystyried ceisiadau ar gyfer cyflogi a recriwtio staff. Rydym yn gofyn i bob ymgeisydd ddarparu data monitro cydraddoldeb ac nid yw'n cael ei gyflwyno i'r panel. Felly, rydym yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr yn seiliedig ar eu sgiliau a'u profiadau sy'n berthnasol i'r rôl.

Mae staff sy'n datgan anabledd neu sy'n dod yn anabl yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael cyfle i wneud cais am addasiadau rhesymol pe byddent eu hangen. Efallai y gofynnir i Iechyd Galwedigaethol wneud argymhellion a chynhelir asesiadau risg iechyd a diogelwch. Bydd gweithio hyblyg hefyd yn cael ei ystyried yn rhan o addasiadau rhesymol. Darperir hyfforddiant, yn ôl y galw i'r holl staff yn y fformat angenrheidiol.

### Gwariant ar ymgynghoriaeth

Roedd gwariant ar ymgynghoriaeth yn £422k ar gyfer 2025/26 (2024/25: £547k).

### Ymgysylltiadau oddi allan i'r gyflogres

Bu 15 ymrwymiad oddi allan i'r gyflogres yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26 (2024/25: 2). Roedd y rhain ar gyfer rolau arbenigol tymor byr o fewn y Comisiwn. Talwyd dros £245 y diwrnod i bob un o'r rolau hyn.

| Ymgysylltiadau gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2026 | Rhif |
|---|---|
| **Ymgysylltiadau presennol fel mae ar 31 Mawrth 2026** | 7 |
| **Wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd.** | 7 |
| **Wedi bodoli am rhwng un a dwy flynedd ar adeg adrodd.** | 0 |
| **Wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd.** | 0 |
| **Wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd.** | 0 |
| **Wedi bodoli am bedair neu fwy o flynyddoedd ar adeg adrodd.** | 0 |

| Yr holl weithwyr dros dro oddi allan i'r gyflogres yr ymgysylltwyd â hwy ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026. | Rhif |
|---|---|
| **Gweithwyr oddi allan i'r gyflogres yr ymgysylltwyd â hwy yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026** | 15 |
| **Pennwyd eu bod oddi mewn i gwmpas IR35** | 11 |
| **Pennwyd eu bod oddi allan i gwmpas IR35** | 4 |
| **Ymgysylltiadau a ailaseswyd at bwrpas cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn** | 0 |

| | |
|---|---|
| **O'r rhain: nifer yr ymgysylltiadau a welodd newid i'w statws IR35 yn dilyn adolygiad** | 0 |
| **Ymgysylltiadau lle'r oedd anghydfod ynghylch y statws dan ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth oddi allan i'r gyflogres** | 0 |
| **O'r rhain: nifer yr ymgysylltiadau a welodd newid i'w statws IR35 yn dilyn adolygiad.** | 0 |

Caiff yr holl weithwyr oddi allan i'r gyflogres eu hasesu gan ddefnyddio "Gwirio Statws Cyflogaeth ar gyfer Treth" CThEF cyn i unrhyw gontract gael ei awdurdodi.

## Pecynnau Ymadael (Yn ddibynnol ar archwiliad)

Yn ystod 2025/26, cafodd chwe phecyn gadael ei weinyddu gyda chyfanswm cost o £117k.

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | | Cyfanswm nifer o becynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|
| | 2025/26 | 2024/25 | 2025/26 | 2024/25 |
| **<£10,000** | 2 | - | - | - |
| **£10,000 - £25,000** | 2 | - | - | - |
| **£25,000 - £50,000** | 2 | - | - | - |
| **£50,000 - £100,000** | - | - | - | - |
| **£100,000 - £150,000** | - | - | - | - |
| **£150,000 - £200,000** | - | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | 6 | - | - | - |
| **Cyfanswm cost /£** | 117,493 | - | - | - |

Telir taliadau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaeth Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed dan Ddeddf Blwydd-daliadau Pensiwn 1972, neu drwy negodi ar gytundebau setlo.

Nid oedd unrhyw ymddeoliadau ar sail iechyd yn 2025/26.

# Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwiliad

## Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SOPS)

Yn ogystal â'r datganiadau cyntaf a baratowyd dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol baratoi Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SOPS) a nodiadau atodol.

Mae'r SOPS a'r nodiadau cysylltiedig yn ddibynnol ar archwiliad, fel y manylir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin.

Mae'r SOPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrif Cyflenwi. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at bwrpas adnoddau a gawariant) ac arian parod (a dynnwyd yn bennaf o'r gronfa Cyfunol), y mae'r Senedd yn eu rhoi i awdurdodau statudol er mwyn i endidau eu defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn rhoi manylion ynghylch y cyflenwad ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Pe bai endid yn mynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau a osodwyd gan ei Amcangyfrif Cyflenwi, sef cyfyngiadau rheoli, bydd barn gymwys yn cael ei rhoi ar ei gyfrifon.

Mae fformat y SOPS yn cyfateb i'r Amcangyfrifon Cyflenwi, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn galluogi cymhariaeth rhwng yr hyn mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SOPS yn cynnwys tabl crynhoi, sy'n rhoi manylion ar berfformiad yn erbyn y cyfyngiadau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio drostynt, yr arian a wariwyd (caiff cyllidebau eu llunio ar sail gronnol ac felly ni fydd alldro yn union gysylltiedig ag arian a wariwyd) a gwaith gweinyddol.

Mae'r nodiadau atodol yn manylu ar y canlynol: Alldro drwy linell Amcangyfrif, gan ddarparu dadansoddiad fwy manwl (nodyn 1); cysoni alldro i wariant gweithredol net yn y SOCNE, i gysylltu'r SOPS gyda'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni alldro i'r gofyn arian parod net (nodyn 3); a dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Cafodd y SOPS a'r Amcangyfrifon eu creu yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond eto'n wahanol, i IFRS. Mae dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac eglurhad o'r prif delerau ar gael yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad perfformiad.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS ym mhennod 1 y Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, ar gov.uk

Mae’r SOPS yn fanwl ynghylch perfformiad ariannol, ar ffurf y pleidleisiwyd arni a chaiff ei chydnabod gan y Senedd. Mae’r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad Perfformiad, yn crynhoi trafodaeth o’r alldro yn erbyn amcangyfrif a swyddogaethau fel cyflwyniad i ddatgeliadau SOPS.

## Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SOPS), 2025-26 (archwiliwyd)

### Tabl crynodeb, 2025-26, yr holl ffigurau wedi'u cyflwyno mewn £000

| Math o wariant | SOPS nodes: | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn Amcangyfrif: arbedion/(gormodedd) | | Blwyddyn flaenorol Cyfanswm yr Alldro 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pleidleisiwyd drosto | Heb bleidleisio | Cyfanswm | Pleidleisiwyd drosto | Heb bleidleisio | Cyfanswm | Gydaphleidlais | Cyfanswm | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1 | 36,993 | 230 | 37,223 | 42,355 | 259 | 42,614 | 5,362 | 5,391 | 39,925 |
| Cyfalaf | 1 | 176 | - | 176 | 2,112 | - | 2,112 | 1,936 | 1,936 | 1,085 |
| **Cyfanswm** | | 37,169 | 230 | 37,399 | 44,467 | 259 | 44,726 | 7,298 | 7,327 | 41,010 |
| **Gwariant Wedi'i Reoli'n Flynyddol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 27 | - | 27 | 50 | - | 50 | 23 | 23 | 13 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf | 1.2 | 20 | - | 20 | 100 | - | 100 | 80 | 80 | 25 |
| **Cyfanswm** | | 47 | - | 47 | 150 | - | 150 | 103 | 103 | 38 |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 37,020 | 230 | 37,250 | 42,405 | 259 | 42,664 | 5,385 | 5,414 | 39,938 |
| Cyfalaf | 1.2 | 196 | - | 196 | 2,212 | - | 2,212 | 2,016 | 2,016 | 1,110 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Gwariant** | | 37,216 | 230 | 37,446 | 44,617 | 259 | 44,876 | 7,401 | 7,430 | 41,048 |

**Nodiadau:**
1. Mae'r holl wariant ac incwm gweithredu
mewn cyllidebau wedi'i ddosbarthu fel rhaglen

2. Mae'r ffigurau yn y rhannau a amlinellir â llinell drom yn cwmpasu'r terfynau rheoli gyda phleidlais y pleidleisiodd Senedd y DU arnynt. Cyfeiriwch at y Canllawiau Amcangyfrifon Cyflenwi, sydd ar gael ar gov.uk, i gael manylion ar y cyfyngiadau rheoli y pleidleisiwyd arnynt gan Senedd y DU.

3. Caiff ein gwerthoedd amcangyfrifedig eu llywio gan weithgarwch etholiadol drwy gydol y flwyddyn ac felly maent yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae nodyn 2 y cyfrifon yn dangos dadansoddiad o gostau ar gyfer ein canlyniadau allweddol.

| | Nodyn SOPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn Amcangyfrif: arbedion/ (gormodedd) | Blwyddyn flaenorol Cyfanswm yr Alldro 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | 3 | 31,307 | 43,131 | 11,824 | 41,044 |

**Nodyn**
1. Rhoddir esboniadau o amrywiadau rhwng amcangyfrif ac alldro yn yr adroddiad ar berfformiad.

**Nodiadau i'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol 2025-26 (£000oedd) (archwiliwyd)**

**SOPS 1. Manylion alldro, fesul Llinell Amcangyfrif**
SOPS 1.1 Dadansoddiad o alldro adnodd fesul Llinell amcangyfrif

| Math o wariant (Adnodd) | Alldro Adnoddau Rhaglen | | | Amcangyfrif | | | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif: arbedion/(gormodedd) | | Y flwyddyn flaenorol alldro cyfanswm 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm | Trosglwyddiadau | Cyfanswm, gan gynnwys Trosglwyddiadau | | | |
| **Gwariant Adrannol Terfyn Gwariant (DEL)** | | | | | | | | | |
| **Gwariant y Pleidleisiwyd Drosto** | | | | | | | | | |
| A - Gwariant craidd | 40,983 | (5,990) | 34,993 | 40,355 | - | 40,355 | | 5,362 | 32,703 |
| Bil Etholiad | - | - | - | - | - | - | - | - | 5,045 |
| B - Grantiau Datblygu Polisi | 2,000 | | 2,000 | 2,000 | - | 2,000 | | - | 1,947 |
| Cyfanswm DEL y pleidleisiwyd drosto | 42,983 | (5,990) | 36,993 | 42,355 | - | 42,355 | - | 5,362 | 39,695 |
| **Gwariant Heb ei Bleidleisio Drosto** | | | | | - | | | | |
| C - Ffioedd y Comisiynwyr | 230 | | 230 | 259 | - | 259 | | 29 | 230 |
| **Cyfanswm DEL nas pleidleisiwyd drosto** | 230 | - | 230 | 259 | - | 259 | - | 29 | 230 |
| **Cyfanswm gwariant yn DEL** | 43,213 | (5,990) | 37,223 | 42,614 | - | 42,614 | - | 5,391 | 39,925 |
| **Gwariant Blynyddol Gwariant a Reolir (AME)** | | | | | | | | | |
| **Gwariant y Pleidleisiwyd Drosto** | | | | | | | | | |
| A - Darpariaethau a grëwyd neu a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | 27 | | 27 | 50 | | 50 | | 23 | 13 |
| **Cyfanswm gwariant o fewn AME** | 27 | - | 27 | 50 | - | 50 | - | 23 | 13 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Adnoddau** | 43,240 | (5,990) | 37,250 | 42,664 | - | 42,664 | - | 5,414 | 39,938 |

## SOPS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf yn ôl llinell Amcangyfrif 2025-26 (archwiliwyd)

| Math o Wariant [Cyfalaf] | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn Amcangyfrif: arbedion/(gormodedd) | Blwyddyn flaenorol Alldro Cyfanswm 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm | Trosglwyddiadau Arian | Cyfanswm yn cynnwys Trosglwyddiadau Arian | | |
| **Gwariant yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | |
| **Gwariant gyda phleidlais** | | | | | | | | |
| A - Y Comisiwn Etholiadol | 176 | 0 | 176 | 2,112 | 0 | 2,112 | 1,936 | 1,085 |
| **Cyfanswm y gwariant yn DEL** | 176 | 0 | 176 | 2,112 | 0 | 2,112 | 1,936 | 1,085 |
| **Gwariant yn y Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | |
| **Gwariant gyda phleidlais** | | | | | | | | |
| A - Darpariaeth wedi'i chreu neu ei defnyddio yn y flwyddyn | 20 | | 20 | 100 | | 100 | 80 | 25 |
| **Cyfanswm y gwariant yn AME** | 20 | 0 | 20 | 100 | 0 | 100 | 80 | 25 |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm y cyfalaf** | 196 | 0 | 196 | 2,212 | 0 | 2,212 | 2,016 | 1,110 |

Mae'r colofnau cyfanswm Amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadau yw'r broses o ail-ddyrannu darpariaethau yn yr Amcangyfrifon nad ydynt angen awdurdod seneddol (gan nad yw'r Senedd yn pleidleisio i'r lefel honno o fanylder ac mae'n dirprwyo i Drysorlys EF). Mae rhagor o wybodaeth ynghylch trosglwyddiadau ar gael yn y Llawlyfr ar Amcangyfrifon Cyflenwi, ar gov.uk.

Mae'r golofn alldro o'i gymharu ag amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau. Mae cyfanswm yr amcangyfrif cyn i drosglwyddiadau gael eu gwneud wedi'i gynnwys fel y gall defnyddwyr gysylltu'r amcangyfrif â'r Amcangyfrifon a gyflwynwyd gerbron y Senedd.

Yn ystod 2025/26, gwnaeth y Comisiwn ail-fesur y rhwymedigaeth brydles a'r ased hawl-i-ddefnyddio cyfatebol ar gyfer ei brydles 3 Bunhill Row Llundain yn dilyn newid mewn taliadau prydlesi yn deillio o gyfnod dim rhent o fis Hydref 2025 i fis Gorffennaf 2026. Oherwydd yr ail-fesur, roedd gostyngiad yn y rhwymedigaeth brydles, ac addasiad cyfatebol i'r ased hawl-i-ddefnyddio yn unol â Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16. Mae effaith yr ail-fesur hwn i'w weld yn yr adran ychwanegiadau/gwarediadau yn y nodyn hwn a daeth gostyngiad o £(415k) mewn gwariant cyfalaf yn ei sgil (CDEL).

## SOPS 2. Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net 2025-26 (archwiliwyd)

| Eitem | | Cyfeirnod | Cyfanswm yr Alldro | Blwyddyn flaenorol Alldro Cyfanswm 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm alldro adnoddau** | | **SOPS 1.1** | 37,250 | 39,937 |
| Ychwanegu: | Grantiau cyfalaf | | | |
| | Arall *(darparwch fanylion e.e. addasiadau PFI, ayyb)* | | | |
| Cyfanswm | | | 37,250 | 39,937 |
| Llai: | Incwm a dalwyd/sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | | |
| | Arall *(darparwch fanylion e.e. addasiadau PFI, ayyb)* | | | |
| Cyfanswm | | | - | - |
| **Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | | **SOCNE** | **37,250** | **39,937** |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu creu yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond eto'n wahanol, i IFRS.
Gan hynny, mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro adnodd gyda'r gwariant gweithredu net, ac yn cysylltu'r SOPS â'r datganiadau ariannol.

**SOPS 3. Cysoni alldro adnoddau net i ofyniad arian parod net 2025-26 (archwiliwyd)**

| Eitem | | Cyfeirnod | Cyfanswm Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif: arbedion/(gormodedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm alldro adnoddau | SOPS 1.1 | 37,250 | 42,664 | 5,414 |
| | Cyfanswm alldro cyfalaf | SOPS 1.2 | 196 | 2,212 | 2,016 |
| | **Addasiadau i ddiddymu eitemau nad ydynt yn arian parod:** | | | | |
| | Dibrisio / amorteiddio | 3 | (1,197) | (1,851) | (654) |
| | Newid mewn darpariaethau - Cydnabyddiaeth archwilwyr | 3 | (123) | (150) | (27) |
| | Darpariaethau ac addasiadau newydd i'r darpariaethau blaenorol | 11 | (60) | (175) | (115) |
| | Eitemau eraill nad ydynt yn arian parod - Amhariad ar asedau | 3 | (124) | - | 124 |
| | Ail-fesur hawl-i-ddefnyddio | 7 | 415 | - | (415) |
| | **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithredol** | | | | |
| | Cynnydd/(gostyngiad) mewn derbyniadau | 8 | 288 | - | (288) |
| | (Cynnydd)/gostyngiad mewn eitemau taladwy | 10 | (5,379) | 690 | 6,069 |
| | Defnydd o ddarpariaeth | 11 | 14 | - | (14) |
| | Ad-dalu cyfalaf ar brydlesi | 7 | 258 | - | (258) |
| Cyfanswm | | | 31,537 | 43,390 | 11,853 |
| | **Tynnu eitemau cyllideb nas pleidleisiwyd drostynt** | SOPS | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol | | | | |
| | Ffioedd y comisiynwyr | 1.1 | (230) | (259) | (29) |
| Cyfanswm | | | | | |
| | **Gofyniad arian parod net** | | 31,307 | 43,131 | 11,824 |

## SOPS 4. Symiau'r incwm i'r Gronfa Gyfunol 2025-26 (archwiliwyd)

Y symiau a ddangosir yn y tabl isod yw'r symiau a gasglwyd gan y Comisiwn lle'r oedd yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn hytrach nag fel pennaeth. Mae'r symiau a gesglir yn ymwneud â dirwyon a chosbau gan ymgyrchwyr gwleidyddol. Gellir gweld y manylion llawn yn yr adroddiad Pwerau a Sancsiynau yn yr Adroddiad Perfformiad.

**Incwm y Gronfa Gyfunol**

| **Eitem** | **Cyfanswm alldro 2025-26** | **Blwyddyn Flaenorol Alldro** Cyfanswm **2024-25** |
|---|---|---|
| Dirwyon a chosbau | 12 | 9 |
| Llai: | | |
| Costau casglu – y gellir eu didynnu | - | - |
| Dyledion na ellir eu casglu | - | - |
| Swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 12 | 9 |
| Balans a ddelir ar ddechrau'r flwyddyn | 9 | 10 |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | (12) | (10) |

| | | |
|---|---|---|
| Balans a ddelir ar ymddiriedaeth ar ddiwedd y flwyddyn | 9 | 9 |

**Nodiadau:**
Cafodd yr holl ddirwyon a chosbau a dderbyniwyd erbyn 31 Mawrth 2026 eu hildio i'r Gronfa Gyfunol, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.


## Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

**Rheoleidd-dra gwariant (yn ddibynnol ar archwiliad)**
Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cadarnhau bod gwariant y Comisiwn Etholiadol wedi'i gronni fel y bwriadwyd gan y Senedd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu, ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026.

**Colledion a thaliadau arbennig (yn ddibynnol ar archwiliad)**
Nid oedd unrhyw daliadau arbennig yr oedd angen eu datgelu i'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2025/26 (2024/25 £dim).
Nid oedd unrhyw golledion unigol a oedd dros £300,000 yn ystod 2025/26. (2024/25 £dim).

**Atebolrwydd Dibynnol Annhebygol (yn ddibynnol ar archwiliad)**
Yn ogystal â'r atebolrwydd dibynnol a ddatgelir yn y datganiadau ariannol, mae'r Comisiwn hefyd yn adrodd ar atebolrwydd lle mae'r tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn annhebygol ond yng nghwmpas IAS37 o hyd.

Nid oedd unrhyw atebolrwydd dibynnol annhebygol i'w adrodd ar gyfer dibenion adrodd Seneddol a dibenion atebolrwydd yn 2025/26 (2024/25 £dim).



**Vijay Rangarajan**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**13 Gorffennaf 2026**

# Tystysgrif y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban

## Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan y Comisiwn Etholiadol:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llifoedd Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiwn Etholiadol ar 31 Mawrth 2026 ac o'i wariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, a chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan hynny.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys:

- mae'r Datganiad Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, ac mae'n dangos nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Senedd y DU, ac mae'r trafodion

ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

# Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10, *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024).* Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach ar fy nhystysgrif o dan yr adran *Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol*.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024* y Cyngor Adroddiadau Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y Comisiwn Etholiadol, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill, yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi'i chasglu o'r archwiliad yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

# Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Comisiwn Etholiadol o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Comisiwn Etholiadol i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer y Comisiwn Etholiadol yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF, sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

# Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif i fel archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth rwyf wedi'i chael yn yr archwiliad, neu sy'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall.

Os byddaf yn canfod anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o ran yr wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

# Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

# Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Comisiwn Etholiadol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw gan y Comisiwn Etholiadol, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad yw rhai o'r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EF wedi'u gwneud, neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu

- nad yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

# Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni ac sy'n berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi'r wybodaeth a'r esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar y C&AG ar gyfer ei archwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig i'r C&AG at bersonau o fewn y Comisiwn Etholiadol y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath reolaethau mewnol ar waith yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb gynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;
- paratoi adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys Adroddiad Taliadau a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaethpwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- asesu gallu'r Comisiwn Etholiadol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai fod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn Etholiadol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

# Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a rhoi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol

â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu dod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

## Canfod ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiadau perthnasol ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, fe wnes i:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn Etholiadol.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Comisiwn Etholiadol a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Comisiwn Etholiadol ar:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll; a'r
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau'r Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Comisiwn Etholiadol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Comisiwn Etholiadol a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant a oeddent:
    - yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn y Comisiwn Etholiadol ar gyfer twyll, a nodais fod y posibilrwydd mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio dyddlyfrau anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â phob archwiliad o

dan y Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU), mae'n ofynnol i mi ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Comisiwn Etholiadol, a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Comisiwn Etholiadol yn gweithredu yn unol â nhw. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Comisiwn Etholiadol. Rhai o'r cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn oedd Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cyflenwi a Dyrannu (Prif Amcangyfrifon) 2024, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau a threth.

## Ymateb yr archwiliad i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- Holais y rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a rhai posibl;
- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant a'r Bwrdd, ac adroddiadau archwilio mewnol;
- Rhoddais sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, drwy brofi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; gan asesu a yw'r penderfyniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg busnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol.

Fe wnes i gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth briodol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n gywir yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd, ac nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Anghyllidebol (Adnoddau) a Gofynion Arian Net.

Mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth archwilio briodol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys o ran rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

# Adroddiad

Tynnaf sylw at faterion yn ymwneud â Grant Datblygu Polisi a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol i Blaid Alba yn 2024-25 o dan delerau'r cynllun Grant Datblygu Polisi statudol.

Nododd y Comisiwn wariant afreolaidd posibl sy'n gysylltiedig â'r grant hwn a rhoddodd wybod i mi amdano yn ystod fy archwiliad yn 2024-25. Ar ddyddiad llofnodi'r dystysgrif hon, mae prosesau'r Comisiwn i bennu hyd a lled unrhyw wariant afreolaidd ac i geisio adennill unrhyw symiau y canfyddir eu bod yn afreolaidd yn parhau, fel yr amlinellir ar dudalen XX yr Adroddiad Atebolrwydd.

Nodaf hefyd fod ymchwiliad gan yr heddlu ar y gweill ar hyn o bryd mewn perthynas â'r mater hwn. Efallai y bydd canlyniad yr ymchwiliad hwn yn dylanwadu ar y penderfyniad terfynol ynghylch unrhyw wariant afreolaidd ac adennill arian.

Credaf na fyddai unrhyw afreoleidd-dra'n crisialu nes bydd y prosesau hynny wedi'u cwblhau. Byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm barn ar reoleidd-dra ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar ôl i'r prosesau hyn ddod i ben. Nid yw fy marn ar reoleidd-dra yn amodol yn 2025-26.

# Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Y Comisiwn Etholiadol sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn.

**Gareth Davies** **13/07/2026**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

Llundain

SW1W 9SP

# Y datganiadau ariannol



## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

| | | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **(£000)** | **(£000)** |
| Incwm gweithredu – Llywodraeth yr Alban | 4 | (3,609) | (2,158) |
| Incwm gweithredu – Senedd Cymru | 4 | (2,295) | (1,552) |
| Incwm gweithredu arall | 4 | (86) | (104) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **(5,990)** | **(3,814)** |
| Costau staff | 3 | 20,268 | 16,407 |
| Prydlesau | 3 | 61 | 130 |
| Prynu Nwyddau a Gwasanaethau | 3 | 19,153 | 23,650 |
| Taliadau dibrisio ac amorteiddio* | 3 | 1,197 | 1,150 |
| Amhariad ar asedau | 3 | 124 | 25 |
| Eitemau anariannol eraill | 3 | 157 | 144 |
| Traul y Ddarpariaeth | 3 | 5 | 2 |
| Gwariant gweithredu arall | 3.1 | 2,000 | 1,947 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **42,965** | **43,455** |
| **Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn** | | **36,975** | **39,641** |
| Ffioedd Comisiynwyr | | 230 | 230 |
| Costau Ariannol ar gyfer prydlesi* | 3 | 45 | 66 |
| **Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn** | | **37,250** | **39,937** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| **Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i wariant gweithredu net** | | | |
| (Ennill)/Colled Actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 11 | 2 | (5) |
| **Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **37,252** | **39,932** |

Mae'r llog prydles £142k (2025 - £66k) yn cael ei ddangos ar wahân dan gostau cyllid. Mae'r symiau hyn wedi'u heithrio o "Bryniant nwyddau a gwasanaethau" i sicrhau cysondeb ag IFRS 16 ac i gefnogi cysoni gyda Nodyn 3.


*Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 2025-26 yn cynnwys gostyngiad o £156k mewn gwariant ar ôl cywiro model prydles IFRS 16 ar gyfer prydles 3 Bunhill Row, Llundain. Mae hyn yn cynnwys £144k o ddibrisiant a ddarparwyd yn ormodol yn flaenorol a £12k o log prydles a ddarparwyd yn ormodol yn flaenorol.

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' ar dudalennau 122-143 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

| | | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **(£000)** | **(£000)** |
| Incwm gweithredu – Llywodraeth yr Alban | 4 | (3,609) | (2,158) |
| Incwm gweithredu – Senedd Cymru | 4 | (2,295) | (1,552) |
| Incwm gweithredu arall | 4 | (86) | (104) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **(5,990)** | **(3,814)** |
| Costau staff | 3 | 20,268 | 16,407 |
| Prydlesau | 3 | 61 | 130 |
| Prynu Nwyddau a Gwasanaethau | 3 | 19,153 | 23,650 |
| Taliadau dibrisio ac amorteiddio* | 3 | 1,197 | 1,150 |
| Amhariad ar asedau | 3 | 124 | 25 |
| Eitemau anariannol eraill | 3 | 157 | 144 |
| Traul y Ddarpariaeth | 3 | 5 | 2 |
| Gwariant gweithredu arall | 3.1 | 2,000 | 1,947 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **42,965** | **43,455** |
| **Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn** | | **36,975** | **39,641** |
| Ffioedd Comisiynwyr | | 230 | 230 |
| Costau Ariannol ar gyfer prydlesi* | 3 | 45 | 66 |
| **Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn** | | **37,250** | **39,937** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| **Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i wariant gweithredu net** | | | |
| Ennill/Colled Actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 11 | 2 | (5) |
| **Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **37,252** | **39,932** |

Mae’r ‘Nodiadau i’r Cyfrifon Adnoddau’ ar dudalennau 122-143 yn rhan o’r cyfrifon hyn.



**Vijay Rangarajan**
**Y Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**13 Gorffennaf 2026**

## Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | 2025-26 (£000) | 2024-25 (£000) |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (36,975) | (39,641) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | 3 | 1,483 | 1,321 |
| Ffioedd Comisiynwyr | | (230) | (230) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a derbyniadau eraill | 8 | (288) | (202) |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn symiau masnach taladwy | 10 | 5,390 | (792) |
| Llai eitemau a ail-ddosbarthwyd fel gweithgareddau ariannu | | (7,048) | (3,715) |
| Llai symudiadau mewn symiau derbyniadwy a symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | | 19 | 58 |
| Defnyddio darpariaethau | 11 | (14) | (15) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(37,663)** | **(43,216)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | (468) | (810) |
| Prynu asedau anniriaethol | 6 | (122) | (275) |
| Symudiad mewn Croniadau Cyfalaf | | (29) | 24 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(619)** | **(1,109)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) | | 31,288 | 40,988 |
| Ad-dalu prifswm ar brydlesi | | (258) | (597) |
| Llog sy'n daladwy ar brydlesi cyllid | | (45) | (66) |
| O'r Gronfa Gyfunol (Ddim yn Cyflenwi) | | 230 | 230 |
| O Weinyddiaethau Datganoledig | | 7,048 | 3,715 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau ariannu** | | **38,263** | **44,270** |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **(19)** | **(55)** |
| Dirwyon a chosbau a dderbyniwyd ar ran y Gronfa Gyfunol | | 12 | 9 |
| Taliadau o symiau i'r Gronfa Gyfunol | | (12) | (10) |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **(19)** | **(56)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 9 | 28 | **84** |

| | | |
|---|---|---|
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **9** | **28** |

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' ar dudalennau 122-143 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026**

| | | Cronfa gyffredinol |
|---|---|---|
| | **Nodyn** | **(£000)** |
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr** | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | | (1,770) |
| Cyllid Seneddol Net – a ddefnyddiwyd | | 40,988 |
| Cyllid Seneddol Net – a dybiwyd | | 84 |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol (nad yw'n cyflenwi) yn y Flwyddyn Gyfredol | | 230 |
| Addasiad cyflenwi sy'n daladwy | 10 | (28) |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn | SOCNE* | (39,932) |
| **Addasiadau Anariannol** | | |
| Taliadau anariannol – cydnabyddiaeth yr archwilydd | 3 | 113 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | (315) |
| Cyllid Seneddol Net – a ddefnyddiwyd | | 31,288 |
| Cyllid Seneddol Net – a dybiwyd | 10 | 28 |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol (nad yw'n cyflenwi) yn y Flwyddyn Gyfredol | SOCNE* | 230 |
| Addasiad cyflenwi sy'n daladwy | 10 | (9) |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn | SOCNE* | (37,252) |
| Taliadau anariannol - Cydnabyddiaeth yr Archwilwyr | 3 | 123 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | | **(5,907)** |

* Ffioedd Comisiynwyr

Mae'r 'Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau' ar dudalennau 122-143 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i’r Cyfrifon Adnoddau

## 1. Polisïau cyfrifyddu, dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu allweddol

### 1.1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Caiff y datganiadau eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2025/26 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Mae’r polisïau cyfrifyddu yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y’u haddaswyd neu y’u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan mae’r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu a bennir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y diben o roi safbwynt gwir a theg.

Mae’r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Etholiadol wedi’u disgrifio isod. Maent wedi eu cymhwyso’n gyson wrth ddelio ag eitemau y’u hystyrir yn berthnasol i’r cyfrifon.

### 1.2 Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, oni nodir yn wahanol yn y polisïau cyfrifyddu. Cyflwynwyd ffigurau mewn punnoedd ac maent wedi eu talgrynnu i’r £1,000 agosaf.

Cânt eu paratoi yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a roddir gan Drysorlys EF yn unol â Pharagraff 17(2) Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

### 1.3. Safonau cyfrifyddu wedi’u cyhoeddi ond heb fod yn effeithiol eto

Mae 1 safon gyfrifyddu wedi ei chyhoeddi ond heb fod yn effeithiol eto:

Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 18 (Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol) (IFRS18)

Bydd Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 18 (Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol) yn disodli IAS 1

Mae cyflwyno Datganiadau Ariannol yn effeithiol ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027 yn y sector cyhoeddus. Nid yw’r dyddiad rhoi mewn grym wedi’i gadarnhau ar gyfer y Sector Cyhoeddus hyd yn hyn. Mae effaith IFRS 18 ar y Sector Cyhoeddus yn parhau i gael ei hasesu.

# Polisïau cyfrifyddu ar gyfer gwariant

### 1.4 Gwariant a chostau gweithredu

Rydym wedi cynhyrchu'r Cyfrifon hyn gyda manylion digonol i ddarparu darlun gwir a theg o'n gweithredoedd.

At ddibenion cyllidebu, rydym yn gwahaniaethu rhwng ein costau gweithredu craidd a gweithgareddau perthnasol i ddigwyddiadau. Yn y cyfrifon hyn, rydym wedi nodi'r costau cynnal craidd fel gwariant (Nodyn 3) ac rydym wedi nodi gweithgareddau perthnasol i ddigwyddiadau fel costau gweithredu eraill (Nodyn 3.1.).

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys costau y'u hysgwyddwyd ac unrhyw incwm gweithredu cysylltiedig.

### 1.5 Costau staff

Mae costau staff yn cynnwys tâl a chyflog, costau nawdd cymdeithasol a chostau pensiwn. Bydd holl gostau staff tymor byr sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a gaiff eu talu o fewn blwyddyn o'r dyddiad adrodd, yn cael eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw hawliau gwyliau cronnus.

### 1.6 Pensiynau

Mae darpariaeth Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gymwys i weithwyr presennol a'r gorffennol. Mae PCSPS yn gynllun aml-gyflogwyr â buddion wedi'u diffinio ac nid yw'n bosibl adnabod cyfran asedau a rhwymedigaethau'r Comisiwn. Mae felly yn cael ei gyfrif fel cynllun cyfraniadau diffiniedig gyda thaliadau yn cael eu nodi yn y cyfnod y maent yn dod yn ddyledus.

Cyfeiriwch at Nodyn 11.1 ar gyfer sefyllfa cyfrifyddu'r pensiwn ar gyfer cyn-weithwyr Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr oherwydd trosglwyddo ei swyddogaethau i'r Comisiwn Etholiadol ar 1 Ebrill 2002 ac ymgorffori ei asedau a'i rwymedigaethau o'r dyddiad hwnnw.

### 1.8 Ymchwil a datblygu

Mae gwariant ar ymchwil yn cael ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y'i hysgwyddwyd. Mae gwariant datblygu hefyd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gaiff ei ysgwyddo, oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer cyfalafu yn ôl safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

### 1.9 Grantiau sy'n daladwy

Mae grantiau sy'n daladwy yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r gweithgarwch neu ddigwyddiad dan sylw sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd. Yr unig grant yr ydym yn ei dalu ar hyn o bryd yw'r Grant Datblygu Polisi a nodir yn Nodyn 3.1.

### 1.10 Treth Ar Werth (TAW)

Mae'r gwaith a wneir gan y Comisiwn Etholiadol yn cael ei wneud dan statud a thu allan i gwmpas TAW wrth werthu. Caiff TAW wrth brynu ei chodi ar y categori gwario perthnasol, neu os yn briodol ei chyfalafu gydag ychwanegion i asedau nad ydynt yn gyfredol. Mae incwm a gwariant yn cael eu hadrodd yn gynhwysol o TAW.

# Polisïau cyfrifyddu ar gyfer incwm

### 1.11 Incwm

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn rhoi arian i'r Comisiwn ar gyfer costau y'u hysgwyddwyd mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoli yng Nghymru a'r Alban. Ystyrir yr arian hwn yn gydwedd â grant llywodraeth dan IAS 20 gan fod gan y Comisiwn hawl i incwm lle mae wedi ysgwyddo costau wrth gyflawni'r amcanion hynny. Caiff arian ei dynnu i lawr yn erbyn cyllideb sy'n cynrychioli rhagolwg gwario drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod yr arian a geir fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau y mae wedi ariannu gwariant uniongyrchol y Comisiwn a dosrannu gwariant anuniongyrchol fel y cytunwyd arno yn y Datganiad o Egwyddorion Ariannu. Pan mae swm yr arian sydd wedi ei dynnu i lawr yn mynd yn fwy na'r gwariant, caiff y gwahaniaeth hwn ei gydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol fel incwm wedi'i ohirio.

Nid yw incwm gweithredu yn cynnwys incwm a gasglwyd ar gyfer dirwyon a chosbau gan bleidiau gwleidyddol, gan fod y rhain i'w talu'n llawn i'r Gronfa Gyfunol wrth eu derbyn.

# Polisïau cyfrifyddu ar gyfer asedau a rhwymedigaethau

### 1.12 Eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol

Caiff gwariant o £5,000 neu fwy ar eiddo, offer a chyfarpar neu asedau anniriaethol ei gyfalafu pan fo disgwyl iddo ddod â buddion am y blynyddoedd sydd i ddod. O ran cydnabyddiaeth gychwynnol, caiff asedau eu mesur yn ôl cost ac maent yn cynnwys pob cost sy'n priodoli'n uniongyrchol i ddod â nhw i gyflwr gweithio.

Mae pob ased nad yw'n gyfredol yn cael ei adolygu'n flynyddol am amhariad ac yn cael ei gario ar gost hanesyddol dibrisiant. Mae eiddo, offer a chyfarpar yn dibrisio, ac asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio, ar sail llinell syth am gyfnod eu hoes ddefnyddiol.

Caiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu cyfalafu pan ddônt ar gael i'w defnyddio a byddant yn cynhyrchu buddion economaidd yn y dyfodol.

### Trwyddedau meddalwedd

Pan brynwn drwyddedau meddalwedd parhaus yr ydym yn eu llwyr berchnogi, mae'r trwyddedau yn cael eu cydnabod fel asedau anniriaethol ar yr adeg y caiff y trwyddedau eu rhoi ac fe allwn elwa arnyn nhw.

### Meddalwedd a ddatblygir yn fewnol

Pan ddatblygwn ein meddalwedd ein hunain, caiff ased anniriaethol ei gydnabod yn unol ag IAS 38 (Asedau Anniriaethol) lle allwn arddangos:

- ei fod yn dechnegol ddichonol i gwblhau'r feddalwedd ac mae ar gael i'w ddefnyddio
- y bydd ar gael i'w ddefnyddio a bydd yn cynhyrchu buddion economaidd yn y dyfodol; ac
- y gellir mesur y costau datblygu mewn ffordd ddibynadwy

Caiff costau ymchwil sy'n gysylltiedig â phrosiectau datblygu eu talu fel y'u hysgwyddir; mae hyn yn cynnwys unrhyw weithgareddau dadansoddi ac ymgysylltu â'r farchnad ac unrhyw gostau caffael neu reoli prosiectau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r cam ymchwil.

### Gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl

Pan wnawn daliadau mewn perthynas â defnyddio gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl a brynwyd gan wasanaeth trydydd parti, nid yw'r rhain wedi eu cyfalafu gan nad oes gennym deitl cyfreithiol i'r asedau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn, na'r hawl i'w rheoli. Mae hyn yn cynnwys costau gweithredu cysylltiedig, megis teilwra, cyflunio neu wasanaethau hyfforddiant, sy'n ein galluogi i elwa ar y gwasanaeth cyfrifiadura cwmwl.

## 1.13 Dibrisio ac amorteiddio

Nodir adeiladau, offer a pheiriannau yn ôl eu gwerth cost. Caiff asedau gweithredol nad ydynt yn eiddo eu prisio ar sail cost hanesyddol dibrisiant fel procsi ar gyfer gwerth teg. Mae hyn oherwydd bod y rhain yn asedau gydag oes eithaf byr neu o werth isel ac nad yw eu gwerthoedd yn amrywio'n sylweddol yn ystod y cyfnod y'u defnyddir.

Caiff asedau hawl eu defnyddio eu dibrisio dros dymor y les neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased dan sylw, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf, yn unol â'r IFRS 16.

Mae ased anniriaethol yn ased nad yw'n ffisegol. Yn y Comisiwn Etholiadol, mae asedau anniriaethol yn cynnwys trwyddedau ar gyfer hawl i ddefnyddio meddalwedd neu gostau datblygu ein meddalwedd ein hunain. Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes economaidd ddefnyddiol. Caiff costau dibrisio ac amorteiddio eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr dan gostau gweithredu.

| Gwelliannau i Eiddo ar Brydles | Yn unol â thymor y brydles |
|---|---|
| Cyfarpar swyddfa | 5 |
| Caledwedd TG | 3 |
| Gosodiadau a ffitiadau | 10 |
| Asedau anniriaethol (technoleg gwybodaeth, trwyddedau meddalwedd a gwefannau) | 3 |
| Asedau anniriaethol a ddatblygwyd yn fewnol | 10 |

### 1.14 Prydlesi

Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i endid gydnabod ased yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol sy'n berthnasol i gontractau sy'n brydles ased a nodir, fel eiddo, cerbydau neu gyfarpar, neu sy'n eu cynnwys. Caiff rhwymedigaeth brydles gyfatebol ei chydnabod ar yr un pryd, gan ei mesur drwy ddefnyddio gwerth presennol y taliadau prydles nad ydynt wedi eu talu eto.

**Asedau hawl i ddefnyddio / rhwymedigaeth brydles:**

**Cydnabyddiaeth gychwynnol:**

Lle mae prydles wedi ei nodi, mae'r Comisiwn Etholiadol yn cydnabod ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth brydles gyfatebol yn seiliedig ar werth presennol llif arian y dyfodol ar gyfer pob prydles dros dymor y brydles berthnasol. Mae addasiad yn cael ei wneud i'r ased hawl i ddefnyddio ar gyfer rhagdaliadau. Nid yw dadfeiliadau yn rhan o'r asedau hawl i ddefnyddio a gafodd eu cydnabod ar y dyddiad gweithredu ar 1 Ebrill 2022, fodd bynnag, dan IFRS16, dylai dadfeiliadau newydd ar brydlesi gael eu cyfalafu i'r ased hawl i ddefnyddio.

Mae taliadau prydlesu ar gyfer prydlesi tymor byr, sef y prydlesi hynny sy'n llai na blwyddyn a phrydlesi y mae'r ased dan sylw o werth isel yn cael eu cyfrif fel gwariant. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cymhwyso trothwy o £5,000 ar gyfer asedau gwerth isel.

Lle na ellir pennu cyfradd llog mewn prydles yn hawdd, mae'r Comisiwn Etholiadol yn cyfrifo'r rhwymedigaeth gan ddefnyddio cyfraddau disgownt Trysorlys EF a gyhoeddwyd yn y papurau PES fel y gyfradd fenthyg gynyddrannol. Ar gyfer prydlesi sy'n dechrau neu'n cael eu hail-fesur yn 2025/26, mae'r gyfradd hon yn 4.81%. Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn cymhwyso IFRS 16 i brydlesi asedau Anniriaethol ac mae'n cydnabod y rhain yn unol ag IAS 38 lle bo'n briodol.

**Mesuriad dilynol:**

Fel y caniateir gan yr FReM, caiff asedau hawl-i-ddefnyddio eu mesur yn ddilynol gan ddefnyddio'r model costau fel procsi ar gyfer mesur y gwerth mewn defnydd. Mae hyn oherwydd bod telerau prydlesu yn gofyn i daliadau prydlesu gael eu diweddaru ar gyfer amodau'r farchnad, er enghraifft, adolygiadau rhent ar gyfer eiddo ar brydles.

Ar hyn o bryd, mae gennym ein pedwar eiddo ar brydles, sydd wedi eu prisio yn ôl cost, 3 Bunhill Row Llundain, Tŷ James William, Caerdydd, City Chambers Caeredin a 49 Queen's Square Belfast. Mae ein prydlesi eiddo am gyfnod o 10 mlynedd gyda chytundebau terfynu hanner ffordd. Rydym yn cymryd y bydd ein prydlesi yn parhau am gyfnod llawn y brydles. Mae'r rhwymedigaethau prydlesi yn datod dros y tymor prydlesu wrth i daliadau gael eu gwneud a chostau ariannu gael eu rhyddhau. Gweler nodyn 7.

Yn ystod 2025/26, gwnaeth y Comisiwn ail-fesur y rhwymedigaeth brydles a'r ased hawl-i-ddefnyddio cyfatebol ar gyfer ei brydles Bunhill Row Llundain yn dilyn newid mewn taliadau prydlesi yn deillio o gyfnod dim rhent y cytunwyd arno o fis Hydref 2025 i fis Gorffennaf 2026.

Oherwydd yr ail-fesur, roedd gostyngiad yn y rhwymedigaeth brydles, ac addasiad cyfatebol i'r ased hawl-i-ddefnyddio yn unol ag IFRS 16. Mae effaith yr ail-fesur hwn i'w weld yn yr ail-fesur yn y nodyn hwn a daeth gostyngiad mewn gwariant cyfalaf (CDEL) yn ei sgil a adroddir amdano yn y Datganiad Cyflenwi Seneddol.

### 1.15 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys balans presennol a gedwir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

### 1.16 Offeryn ariannol

**Asedau ariannol**

Mae symiau masnach a derbyniadau eraill yn cael eu hadnabod dan IFRS 9. Mae ganddynt fel arfer telerau o 30 diwrnod a chânt eu cydnabod a'u cario ar swm gwreiddiol yr anfoneb tynnu lwfans ar gyfer unrhyw symiau na ellir eu casglu yn seiliedig ar asesu colled credyd disgwyliedig dros oes y ddyled. Ar 31 Mawrth 2026, nid oes angen unrhyw ddarpariaeth ar gyfer colled credyd.

**Rhwymedigaethau ariannol**

I ddechrau, rydym yn cydnabod symiau masnach a symiau taladwy eraill yn ôl cost, lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, wedyn rydym yn mesur pethau taladwy ar gost wedi'i hamorteiddio.

Gan fod ein gofynion arian parod yn cael eu cyflawni drwy'r broses amcangyfrifo, mae offerynnau ariannol yn llai pwysig ac yn llai o risg na mewn corff sector cyhoeddus o faint tebyg.

Nid oes gennym bwerau i fenthyca nac i fuddsoddi cronfeydd gwarged. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn berthnasol i gontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â'n gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig; felly, rydym yn dod i gysylltiad prin â chredyd, hylifedd neu risg farchnad.

Nid oes gennym unrhyw offerynnau ariannol cymhleth. Yr unig offerynnau ariannol ac eithrio arian parod a nodir yn y cyfrifon hyn yw symiau derbyniadwy a thaladwy ar 31 Mawrth 2026. (gweler nodyn 8 a 10).

**Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu**

### 1.17 Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu

Rydym wedi trafod a chytuno ar ddatblygu, dethol a datgelu dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol, yn ogystal â chymhwyso'r dyfarniadau hyn gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Datgelir nodyn 1.14 y dyfarniadau allweddol ar gyfer cydnabod a mesur asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau prydlesu.

Fel yr amlinellir yn Nodyn 11.2, rydym yn cydnabod rhwymedigaeth i wneud taliadau dadfeilio i berchnogion eiddo ein lleoliadau swyddfa pan ddaw prydlesi unigol i ben. Mae taliadau o'r fath yn adlewyrchu cost ddisgwyliedig y gwaith adfer llawn ar gyfer addasiadau ac addurniadau tenant ar adeg gadael. Mae'r tîm rheoli wedi asesu'r lefel ddarpariaeth yn seiliedig ar asesiad proffesiynol o gostau'r dyfodol gan syrfëwr siartredig.

### 1.18 Rhwymedigaethau ac asedau dibynnol

Caiff asedau a rhwymedigaethau dibynnol eu datgelu yn unol ag IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Dibynnol ac Asedau Dibynnol).

Lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, caiff rhwymedigaethau dibynnol sydd angen eu datgelu dan IAS 37 eu nodi yn ôl symiau gostyngedig.

Datgelir ased dibynnol pan mae ased posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau'r gorffennol a bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau yn unig gan ddigwyddiad neu ddiffyg digwyddiad un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt dan reolaeth lwyr yr endid.

### 1.19 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau

Rydym yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd o amseru neu nifer ansicr ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gwario gorau sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Mae darpariaethau o'r fath yn cael eu gostwng i werth cyfredol pan mae gwerth amser arian yn berthnasol.

Yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr i'r Comisiwn Etholiadol ar 1 Ebrill 2002 ac ymgorffori ei asedau a'i rwymedigaethau o'r dyddiad hwnnw gan ddefnyddio IAS19, mae darpariaeth wedi ei sefydlu i fodloni ei rwymedigaethau o ran taliadau pensiwn i Gyn-gomisiynwyr penodol yr endid hwnnw, dangosir datgeliadau perthnasol yn nodyn 11.1

### 1.20 Busnes Gweithredol.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026 yn dangos bod sefyllfa rwymedigaeth net. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu bodloni drwy ddarparu cyllid cyflenwi yn y dyfodol.

Cafodd ein Prif Amcangyfrif ei gyflwyno gerbron y Senedd ar 13 Ebrill 2026 ar gyfer yr adnoddau rydym eu hangen yn 2026/27. Cafodd ein Cynllun Corfforaethol 2025/26-2029/30 ei gyflwyno i'r Senedd ar 3 Ebrill 2025.

Fel corff a sefydlwyd drwy ddeddfwriaeth ac sy'n dilyn egwyddorion yr FReM, mae lle i dybio bod darpariaeth y gwasanaeth yn parhau. Nid oes unrhyw beth i awgrymu y bydd gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn yn dod i ben neu ni ddarperir cyllid yn y dyfodol.

## 2. Datganiad o Gostau Gweithredu gan Adrannau Gweithredu

Rydym yn adrodd gwariant rhwng ein nodau craidd. Yn ogystal â hyn, mae'r dadansoddiad yn nodi costau ymylol y cyflawniadau allweddol canlynol a reolwn drwy adrannau ffurfiol a threfniadau rheoli prosiect. Caiff y rhain eu nodi isod.

Mae'r etholiadau a'r adran refferenda lleol yn llywodraethu ein gwaith i sicrhau etholiadau a refferenda sy'n rhedeg yn dda drwy ddarparu canllawiau a chymorth i weinyddwyr etholiadol, ymgeiswyr ac asiantiaid, datblygu a monitro safonau perfformio i'r Swyddog Canlyniadau a llunio adroddiadau ar weinyddiaeth etholiadau a refferenda. Mae'r gweithgarwch cofrestru etholiadol yn cefnogi ein gwaith dylunio ac ymchwil ar ffurflenni i bleidleiswyr. Nid ydym yn priodoli costau staff a gorbenion corfforaethol i weithgarwch prosiect neu raglen, ond at ddibenion y nodyn hwn, rydym wedi naill ai neilltuo neu ddosrannu'r costau hyn yn uniongyrchol fel sy'n briodol, rhwng cyllid etholiad plaid a gweithgarwch gweinyddiaeth etholiadol. Rydym yn adrodd am gostau cyflawni ymylol yn unig ar gyfer rhaglen a phrosiect i Fwrdd a Thîm Gweithredol y Comisiwn.

## Datganiad y Comisiwn Etholiadol o Gostau Gweithredu yn ÔI Adrannau Gweithredu

| | | | | | | | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Refferenda ac Etholiadau Lleol | Cofrestr Etholiadol | Etholiad Cyffredinol Senedd y DU | Deddf Etholiadau | Gweinyddu Etholiadol | Rheoleiddio | Cyfanswm |
| | | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Gwariant Gros | | 5,788 | 6,320 | 325 | 2,382 | 12,523 | 15,902 | 43,240 |
| Incwm | | (113) | (2,355) | - | (164) | (1,589) | (1,769) | (5,990) |
| **Gwariant Net** | | 5,675 | 3,965 | 325 | 2,218 | 10,934 | 14,133 | 37,250 |

| | | | | | | | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Refferenda ac Etholiadau Lleol | Cofrestr Etholiadol | Etholiad Cyffredinol Senedd y DU | Deddf Etholiadau | Gweinyddu Etholiadol | Rheoleiddio | Cyfanswm |
| | | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Gwariant Gros | | 3,224 | 3,549 | 8,421 | 5,089 | 10,305 | 13,163 | **43,751** |
| Incwm | | (60) | - | - | (44) | (1,733) | (1,977) | **(3,814)** |
| **Gwariant Net** | | **3,164** | **3,549** | **8,421** | **5,045** | **8,572** | **11,186** | **39,937** |

I ddadansoddi ymhellach, mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r gwariant a'r incwm rhwng Senedd y DU, Senedd yr Alban a'r Senedd.

**Datganiad y Comisiwn Etholiadol o Gostau Gweithredu yn ÔI Adrannau Gweithredu**

| | | | | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| Nodyn | Senedd y DU | Senedd yr Alban | Y Senedd | Cyfanswm |
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Gwariant Uniongyrchol | 26,685 | 3,433 | 2,190 | 32,308 |
| Gwariant Anuniongyrchol | 10,652 | 176 | 104 | 10,932 |
| Incwm | (5,990) | - | - | (5,990) |
| **Gwariant net** | **31,347** | **3,609** | **2,294** | **37,250** |

| | | | | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| Nodyn | Senedd y DU | Senedd yr Alban | Y Senedd | Cyfanswm |
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Gwariant Uniongyrchol | 31,101 | 1,206 | 946 | 33,253 |
| Gwariant Anuniongyrchol | 8,940 | 952 | 606 | 10,498 |
| Incwm | (3,814) | - | - | (3,814) |
| **Gwariant net** | **36,227** | **2,158** | **1,552** | **39,937** |

## 3. Gwariant

| | | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | Nodyn | (£000) | (£000) |
| **Costau staff[1]:** | | | |
| Taliadau a chyflogau | | 14,658 | 12,021 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | 1,952 | 1,320 |
| Costau pensiwn eraill | | 3,658 | 3,066 |
| **Cyfanswm costau staff** | | **20,268** | **16,407** |
| **Gwariant ar brydlesi** | | | |
| Rhent eiddo | | 54 | 123 |
| Offer | | 7 | 7 |
| Llog ar brydlesi | | 45 | 66 |
| **Cyfanswm y gwariant ar brydlesi** | | **106** | **196** |
| **Pryniant nwyddau a gwasanaethau** | | | |
| Gwariant Adran 13 - Ymwybyddiaeth y cyhoedd | | 8,791 | 16,661 |
| Gwariant Adran 10 | | 1,792 | 60 |
| Ymchwil a Datblygiad | | 523 | 347 |
| Ymgynghoriaeth | | 422 | 547 |
| Recriwtio | | 472 | 291 |
| Datblygu a hyfforddi staff | | 426 | 348 |
| Lletygarwch a threuliau teithio | | 311 | 245 |
| Teithio a chynhaliaeth – Comisiynwyr | | 16 | 18 |
| Llety, cynnal a chadw | | 762 | 868 |
| Cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau | | 2,329 | 1,748 |
| Cynadleddau/cyfarfodydd cyhoeddus | | 104 | 79 |
| Cyflenwadau swyddfa, llyfrau a chyfnodolion | | 140 | 120 |
| Warws ac Archifo | | 116 | 109 |
| TG/Ffôn | | 2,724 | 2,005 |
| Costau Banc a Chyflogres | | 99 | 89 |
| Ffioedd archwiliad allanol | | 126 | 115 |
| **Cyfanswm y pryniannau** | | **19,153** | **23,650** |
| **Eitemau di-arian** | | | |
| Dibrisiant | | 996 | 974 |
| Costau amorteiddio | | 201 | 176 |
| Effaith ddisgowntio | | 34 | 31 |
| Ffioedd Archwilwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol* | | 123 | 113 |
| Darpariaethau a wnaed yn y flwyddyn | | 5 | 2 |
| Amhariad ar asedau | | 124 | 25 |
| **Eitemau eraill di-arian** | | 1,483 | **1,321** |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **41,010** | **41,574** |

* Dim gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio wedi'u darparu gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

[1] Mae dadansoddiad pellach o gostau staff i'w gael yn yr Adroddiad Staff yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

## 3.1 Gwariant Gweithredu Arall

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | (£000) | (£000) |
| Grantiau datblygu polisi | 2,000 | 1,947 |
| **Cyfanswm y grantiau datblygu polisi** | **2,000** | **1,947** |

Mae Adran 12 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) yn gofyn i'r Comisiwn Etholiadol weinyddu cynllun i wneud taliadau grantiau datblygu polisi i bleidiau gwleidyddol cofrestredig. Mae'r cynllun presennol wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn Etholiadau (Cynllun Grantiau Datblygu Polisïau) 2006 fel y'i diwygiwyd.

Mae'r cynllun yn gofyn i ni neilltuo £2,000,000 y flwyddyn i bleidiau gwleidyddol cofrestredig i gynorthwyo gyda chostau datblygu polisïau i'w cynnwys mewn maniffestos ar gyfer llywodraethau lleol, Cynulliad Gogledd Iwerddon, neu etholiadau Senedd Cymru, yr Alban, San Steffan neu Ewrop. I blaid wleidyddol gofrestredig fod yn gymwys i gael ei chynnwys yn y cynllun, mae'n rhaid iddi gael o leiaf dau Aelod Seneddol yn eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mawrth cyn y flwyddyn dan sylw, sydd wedi tyngu'r llw teyrngarwch a ddarparwyd gan Ddeddf Llwon Seneddol 1866.

Mae'r dyraniad blynyddol yn cael ei rannu rhwng y pleidiau cymwys yn unol â'r fformiwla dyrannu a nodir yn y Cynllun.

## 3.2 Gwariant ar ymwybyddiaeth y cyhoedd

Mae adran 13 PPERA yn gofyn i ni hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o systemau etholiadol presennol ac yn yr arfaeth yn y DU. Mae'n ein galluogi i greu a chyflwyno cynnwys a rhaglenni addysg neu wybodaeth i'r cyhoedd a darparu grantiau i bobl neu gyrff eraill i'w galluogi nhw i wneud hynny.

Mae gwariant Adran 13 ar gyfer systemau etholiadol neilltuedig ond heb eu datganoli wedi'u cyfyngu gan Orchymyn y Comisiwn Etholiadol (Cyfyngiad ar Wariant Ymwybyddiaeth y Cyhoedd) 2023 SI 2023/807 i £17,000,000 fesul blwyddyn ariannol ar gyfer 2023/2024 a 2024/2025 ac i £12,000,000 fesul blwyddyn ariannol ar ôl hynny.

Mae terfyn gwariant adran 13 yn berthnasol i'n gwaith i hysbysu ac addysgu pobl ac i'n hymgyrchoedd cyhoeddus ynghylch systemau etholiadol presennol a rhai neilltuedig sydd yn yr arfaeth. Nid yw'n berthnasol i gostau y gellir eu priodoli'n gywir i swyddogaethau statudol eraill y Comisiwn fel cynllunio, ymchwil a staffio, sy'n cynnwys y rhai a ysgwyddir gan randdeiliaid neu gyflenwyr ar ran y Comisiwn.

Mae systemau etholiadol wedi'u cadw yn cynnwys etholiadau Seneddol y DU, etholiadau lleol Lloegr (gan gynnwys etholiadau Awdurdodau a Maerol) ac etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu boed yng Nghymru neu Loegr. Mae costau ymwybyddiaeth gyhoeddus ar gyfer systemau etholiadol presennol neu yn yr arfaeth yng Nghymru a'r Alban wedi'u cynnwys yn y tabl isod (adran 10) ond nid ydynt yn ddarostyngedig i derfyn gwariant adran 13.

### Gwariant ymwybyddiaeth y cyhoedd

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | (£000) | (£000) |
| Gwariant craidd ymwybyddiaeth y cyhoedd | - | - |
| Adran 13 | 8,791 | 16,661 |
| **Cyfanswm gwariant Adran 13** | **8,791** | **16,661** |
| Llywodraeth Leol yr Alban (Adran 10) | 1,008 | 30 |
| Senedd (Adran 10) | 784 | 30 |
| **Cyfanswm Gwariant Adran 10** | 1,792 | 60 |
| **Cyfanswm Gwariant Ymwybyddiaeth y Cyhoedd** | **10,583** | **16,721** |

## 4. Incwm

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| | (£000) | (£000) |
| **Incwm Gweithredu:** | | |
| Llywodraeth yr Alban | 3,609 | 2,158 |
| Y Senedd | 2,295 | 1,552 |
| Cofrestru Pleidiau Gwleidyddol o'r Newydd | 15 | 10 |
| Ail-gofrestru Pleidiau Gwleidyddol | 9 | 8 |
| Newid i Gofrestru Pleidiau Gwleidyddol | 2 | 2 |
| Incwm gan gontract gwasanaethau | 60 | 84 |
| **Cyfanswm yr Incwm Gweithredu** | **5,990** | **3,814** |

Nid yw incwm a geir gan bleidiau gwleidyddol ar gyfer cosbau a dirwyon yn rhan o'n hincwm o fewn ein datganiadau ariannol oherwydd mae'n cael ei dalu'n llawn i'r Gronfa Gyfunol wrth ei dderbyn; mae dadansoddiad o hyn ar gael yn SoPs 4.

## 5. Eiddo, offer a chyfarpar ac asedau hawl i ddefnyddio

| | Asedau Hawl i Defnyddio Gwelliannau i Brydlesau | Technoleg Gwybodaeth - Caledwedd | Peiriannau ac Offer Cyfarpar swyddfa | Dodrefn a Ffitiadau | 2025-26 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2025** | **1,264** | **1,255** | **75** | **387** | **2,981** |
| Ychwanegiadau | 150 | 175 | 56 | 87 | 468 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **1,414** | **1,430** | **131** | **474** | **3,449** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2025** | **348** | **603** | **11** | **86** | **1,048** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 187 | 288 | 22 | 40 | 537 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **535** | **891** | **33** | **126** | **1,585** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2026** | **879** | **539** | **98** | **348** | **1,864** |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2025** | **916** | **652** | **64** | **301** | **1,933** |
| **Ariannu asedau: Yn berchen arnynt** | **879** | **539** | **98** | **348** | **1,864** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2026** | **879** | **539** | **98** | **348** | **1,864** |

| | Asedau Hawl i Defnyddio | 2024-25 |
|---|---|---|

| | Gwelliannau i Brydlesau | Technoleg Gwybodaeth - Caledwedd | Peiriannau ac Offer Cyfarpar swyddfa | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **1,233** | **815** | **33** | **187** | **2,268** |
| Ychwanegiadau | 31 | 564 | 42 | 173 | **810** |
| Gwarediadau | - | (1,244) | - | - | **(1,244)** |
| Ailddosbarthu – Eitemau Anniriaethol | - | | - | 27 | **27** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **1,264** | **1,255** | **75** | **387** | **2,981** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **193** | **581** | **4** | **64** | **842** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 155 | 146 | 7 | 22 | **330** |
| Gwarediadau | - | (1,244) | - | - | **(1,244)** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **348** | **603** | **11** | **86** | **1,048** |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2025** | **916** | **652** | **64** | **301** | **1,933** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2024** | **1,041** | **29** | **234** | **123** | **1,427** |
| **Ariannu asedau: Yn berchen arnynt** | **916** | **652** | **64** | **301** | **1,933** |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2025** | **916** | **652** | **64** | **301** | **1,933** |

# 6. Asedau anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth | Trwyddedau Meddalwedd | Gwefannau | Technoleg Gwybodaeth - Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu | 2025-26 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 331 | 95 | 837 | 124 | **1,387** |
| Ychwanegiadau | 4 | 8 | 86 | 24 | **122** |
| Amhariadau | | | | (1,244) | (1,244) |
| Gwarediadau | - | - | (305) | - | (305) |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **335** | **103** | **618** | **24** | **1,080** |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 192 | 73 | 576 | - | **841** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 96 | 16 | 88 | - | 200 |
| Gwarediadau | - | - | (305) | - | (305) |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **288** | **89** | **359** | **-** | **736** |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2025** | **139** | **22** | **261** | **124** | **546** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2026** | **47** | **14** | **259** | **24** | **344** |

| | Technoleg Gwybodaeth | Trwyddedau Meddalwedd | Gwefannau | Technoleg Gwybodaeth - Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu | 2024-25 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 253 | 95 | 747 | 69 | **1,164** |
| Ychwanegiadau | 78 | - | 73 | 124 | **275** |
| Gwarediadau | | | | | |
| Amhariadau | - | - | - | (25) | **(25)** |
| Ailddosbarthiadau | - | - | 17 | (17) | - |
| Ailddosbarthu – PPE | - | - | - | (27) | **(27)** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **331** | **95** | **837** | **124** | **1,387** |
| **Amorteiddio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 107 | 51 | 507 | - | **665** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 85 | 22 | 69 | - | 176 |
| Gwarediadau | | | | | - |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **192** | **73** | **576** | **-** | **841** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2025** | **139** | **22** | **261** | **124** | **546** |

Mae gwarediadau yn cynnwys asedau nad ydynt mwyach mewn defnydd sydd â dim Gwerth Llyfr Net. Technoleg gwybodaeth - mae asedau y maent yn cael eu hadeiladu a Gwefannau yn bennaf yn Arian Gwleidyddol ar-lein (PFO - platfform diogel ar-lein y Comisiwn a ddefnyddir gan bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr i gyflwyno gwybodaeth ariannol a gwybodaeth gydymffurfio). Mae'r amhariad o £124k yn berthnasol i straeon defnyddwyr PFO sydd wedi'u cyfalafu ynghynt ac a gedwir o fewn asedau Technoleg Gwybodaeth sydd wrthi'n cael eu creu. Yn dilyn adolygiad rheoli, cafodd y rhain eu cadarnhau fel rhai nad ydynt yn berthnasol i'r adeilad PFO presennol mwyach ac nid oes disgwyl iddo gael ei ddefnyddio. Mae'r balans felly wedi cael ei amharu'n llawn yn ystod 2025 i 2026.

## 7. Prydlesi

Mae asedau hawl-i-ddefnyddio yn cynrychioli'r hawl i gyfarwyddo defnydd ased sylfaenol sy'n codi oherwydd prydles. Nid yw'r Comisiwn Etholiadol yn berchen ar yr ased sylfaenol, ond mae'n cydnabod gwerth yr hawl i ddefnyddio yn unol ag IFRS 16.

### 7.1 Datgeliadau meintiol mewn perthynas ag asedau hawl i ddefnyddio

| | | 2025-26 |
|---|---|---|
| | **Adeiladau** | **Cyfanswm** |
| | **(£000)** | **(£000)** |
| **Cost neu brisiad** | | |
| Gwerth asedau hawl i ddefnyddio ar 1 Ebrill 2025 | 3,902 | 3,902 |
| Ychwanegiadau - prydlesi newydd | 21 | 21 |
| Ailfesuro - addasiad yn y flwyddyn | (415) | (415) |
| Dibrisiant a godwyd yn ystod y flwyddyn | (460) | (460) |
| **Gwerth asedau hawl i ddefnyddio ar 31 Mawrth 2026** | **3,048** | **3,048** |

| | | 2024-25 |
|---|---|---|
| | **Adeiladau** | **Cyfanswm** |
| | **(£000)** | **(£000)** |
| **Cost neu brisiad** | | |
| Gwerth ased hawl-i-ddefnyddio ar 1 Ebrill 2024 | 4,522 | 4,522 |
| Ychwanegiadau - prydlesi newydd | 25 | 25 |
| Dibrisiant a godwyd yn ystod y flwyddyn | (645) | (645) |
| **Gwerth asedau hawl i ddefnyddio ar 31 Mawrth 2025** | **3,902** | **3,902** |

Parhaodd prydlesi Cymru a Gogledd Iwerddon y Comisiwn yn eu lle yn ystod 2025/26, ac ni chafodd prydlesi newydd eu caffael yn y flwyddyn. Mae'r symudiad yng ngwerth yr ased hawl-i-ddefnyddio yn adlewyrchu addasiadau ar gyfer costau dadfeilio cynyddol sy'n gysylltiedig â phrydlesi presennol.

Yn ystod 2025/26, cywirodd y Comisiwn model prydles IFRS 16 ar gyfer ei eiddo Bunhill Row, Llundain ar ôl nodi cyfnod rhent hedyn pupur ym mhrydles wreiddiol 2020. Mae'r cyfnod yn rhedeg o 26 Hydref 2025 hyd at 25 Gorffennaf 2026 os na chaiff yr opsiwn torri ei roi ar waith.

Cafodd y rhwymedigaeth brydles ei chyfrifo eto gan ddefnyddio cyfradd ostyngiad wreiddiol IFRS 16, gan leihau'r rhwymedigaeth oddi gan £415k gydag addasiad cyfatebol i'r ased hawl i ddefnyddio.

Penderfynodd y rheolwyr fod yr effaith ar gymariaethau'r flwyddyn flaenorol yn amherthnasol, felly nid yw ffigurau 2024/25 wedi'u hailddatgan.

Cytunwyd ar weithred amrywio sy'n berthnasol i'r brydles Belfast ym mis Ebrill 2026, a oedd yn diwygio'r cymal terfynu cytundebol. Mae'r Comisiwn wedi asesu nad yw'r newid hwn yn effeithio ar y tymor les a nodwyd ynghynt, oherwydd mae'n parhau'n rhesymol bendant y bydd y brydles yn parhau am y tymor cytundebol llawn.

Yn unol â hynny, nid oes unrhyw ail-fesur y rhwymedigaeth les na'r ased hawl i ddefnyddio wedi eu nodi yn y datganiadau ariannol 2025/26. Yn ogystal â hyn, cytunwyd ar les ar wahân ar gyfer lle ychwanegol ym Melfast ar ôl y dyddiad adrodd, a fydd yn cael ei gydnabod o 2026/27.

### 7.2 Datgeliad meintiol ynghylch rhwymedigaetha prydlesi

| Dadansoddiad o aeddfedrwydd | Adeiladau (£000) | 2025/26 Cyfanswm (£000) | 2024/25 Cyfanswm (£000) |
|---|---|---|---|
| **Rhwymedigaeth prydlesu** | | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 638 | 638 | 676 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 2,374 | 2,374 | 2,668 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 246 | 246 | 647 |
| | **3,258** | **3,258** | **3,991** |
| Tynnu'r elfen llog | 179 | 179 | 240 |
| **Gwerth Cyfredol Rhwymedigaethau** | 3,079 | 3,079 | **3,751** |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | 589 | 589 | 618 |
| Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol | 2,490 | 2,490 | 3,133 |
| **Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer prydlesi** | **303** | **303** | **663** |

Mae holl brydlesi'r Comisiwn Etholiadol yn berthnasol i eiddo â thaliadau sefydlog, rhagweladwy. Nid oes unrhyw opsiynau na thelerau prydlesi amrywiol sy'n cyflwyno ansicrwydd o ran llif arian. O'r herwydd, mae cysylltiad y Comisiwn Etholiadol â risg hylifedd sy'n deillio o brydlesi yn isel. Caiff y risg hon ei rheoli drwy gynllunio ariannol cadarn, cydnawsedd â chyllidebau DEL, cynnal hyblygrwydd rhagweld, a chydlynu â Thrysorlys EF i sicrhau yr adlewyrchir rhwymedigaethau prydlesu yn yr Amcangyfrifon Cyflenwi.

### 7.3 Datgeliad meintiol ynghylch elfennau yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | (£000) | (£000) |
| Disgownt yn y flwyddyn | 45 | 66 |
| Treuliau yn ymwneud â phrydlesi asedau gwerth isel (ac eithrio byrdymor) | - | - |
| **Cyfanswm** | **45** | **66** |

## 8. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | (£000) | (£000) |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | - | 32 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 1 | - |
| Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | 9 | 9 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 1,414 | 1,095 |
| **Cyfanswm** | **1,424** | **1,136** |

## 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | (£000) | (£000) |
| **Balans ar 1 Ebrill 2025** | 28 | **84** |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (19) | (56) |

| | | |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | 9 | **28** |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth 2026 yn cael eu dal yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 9 | 28 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **9** | **28** |

## 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau

| | Pensiwn | Dadfeiliadau | 2025-26 Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **(£000)** | **(£000)** | **(£000)** |
| Balans ar 1 Ebrill 2025 | 103 | 699 | 802 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 20 | 20 |
| Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd | - | - | - |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (14) | - | (14) |
| Newidiadau yn y gyfradd ddisgownt | - | - | - |
| (Ennill)/Colled Actiwaraidd | 2 | - | 2 |
| Costau benthyca (dad-ddirwyn disgowntiau) | 5 | 34 | 39 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **96** | **753** | **849** |

| | Dadfeiliadau | 2025-26 Cyfanswm |
|---|---|---|
| | **(£000)** | **(£000)** |
| **Dadansoddiad o amseru disgwyliedig llifau wedi'u disgowntio** | | |
| Dim mwy na blwyddyn | | |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | | |
| Mwy na phum mlynedd | 753 | 753 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **753** | **753** |

## 11.1 Datganiad Rhwymedigaeth Pensiwn

Rydym yn darparu ar gyfer y rhwymedigaeth pensiwn i rai o Gyn-gomisiynwyr Comisiwn Llywodraeth Leol Lloegr, yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau ar 1 Ebrill 2002.

Nid yw'r ddarpariaeth pensiwn wedi'i ariannu, a chaiff budd-daliadau eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a'u gwarantu gan y cyflogwr. Nid oes cronfa, ac felly dim gwarged na ddiffyg arian. Ceisiwyd cyngor actiwaraidd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei gosod ar lefel realistig. Cynhaliwyd prisiant actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth i ddarparu gwerth y rhwymedigaeth pensiwn ar 31 Mawrth 2026. Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cyfrifo drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

O ystyried diffyg perthnasedd y rhwymedigaethau pensiwn, nid yw gofynion datgelu llawn IAS 19 yn ofynnol.

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| **Y tybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:** | | |
| Tybiaethau chwyddiant CPI | 2.55% | 2.65% |
| Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensiynau | 2.55% | 2.65% |
| Y gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau cynllun | 5.60% | 5.15% |

Sensitifrwydd y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio (DBO) i newidiadau yn y rhagdybiaethau actiwaraidd sylweddol:

| **Newid mewn tybiaeth*** | | **Effaith ar DBO** | |
|---|---|---|---|
| | | **%** | **(£000)** |
| Cyfradd rhwymedigaethau cynllun disgowntio | + 0.5% y flwyddyn | (2) | (2) |
| Cyfradd cynnydd mewn CPI | + 0.5% y flwyddyn | 2 | 2 |
| Disgwyliad oes: cymerodd pob aelod 1 flwyddyn yn iau na'u hoedran | | 4 | 4 |

* Bydd newidiadau gwrthwyneb yn y dybiaeth yn cynhyrchu newidiadau cyfartal a gwrthwyneb yn y DBO. Bydd dyblu'r newidiadau yn y rhagdybiaethau yn cynhyrchu tua dwbl y newid yn y DBO. Mae'r sensitifrwydd yn dangos y newid yn y rhagdybiaeth mewn unigedd. Yn ymarferol, anaml y bydd tybiaethau o'r fath yn newid mewn unigedd ac, o ystyried y cyd-ddibyniaethau rhwng y rhagdybiaethau, gall yr effeithiau wrthbwyso i ryw raddau.

O 2010-11 ymlaen, newidiwyd y sail ar gyfer mynegeio buddiannau ymddeol o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

**Paratôdd Adran Actiwari'r Llywodraeth brisiad ar 31 Mawrth 2026**

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| | (£000) | (£000) |
| **Prisiad ar 31 Mawrth 2026** | | |
| Darpariaeth ar 1 Ebrill 2025 | 103 | 117 |
| Cost Llog | 5 | 6 |
| Colled/(Enillion) actiwaraidd | 2 | (5) |
| Tynnu'r buddion a dalwyd | (14) | (15) |
| Costau'r gwasanaeth blaenorol | - | - |
| **Gwerth cyfredol cynllun ar ddiwedd y flwyddyn** | 96 | **103** |

| | Gwerth ar 31-Maw-26 | Gwerth ar 31-Maw-25 | Gwerth ar 31-Maw-24 | Gwerth ar 31-Maw-23 | Gwerth ar 31-Maw-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | | | | | |
| Aelodau gweithredol | - | - | - | - | - |
| Aelodau gohiriedig | - | - | - | - | - |
| Pensiynwyr | - | - | - | - | - |
| Pensiynwyr presennol | 96 | 103 | 117 | 126 | 160 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | | | | | |
| Pensiynwyr presennol | **96** | **103** | **117** | **126** | **160** |

## 11.2 Dadfeiliadau

Rydym yn cydnabod rhwymedigaeth i wneud taliadau dadfeilio i berchnogion eiddo ein lleoliadau swyddfa pan ddaw prydlesi unigol i ben. Mae'r taliadau hyn yn adlewyrchu cost lawn ddisgwyliedig y gwaith adfer addasiadau ac addurniadau tenant ar yr adeg gadael.

Mesurir dadfeiliadau yn ôl yr amcangyfrif gorau, sy'n cael ei ddarparu gan syrfëwr allanol sy'n defnyddio arweiniad pris y diwydiant ar gyfer y gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth bresennol. Mae'r amcangyfrif hwn yn adlewyrchu gwerth cyfredol y gwariant angenrheidiol, lle mae gwerth amser arian yn berthnasol. Adolygodd y Comisiwn Etholiadol yr asesiad yn fanwl i sicrhau ei fod yn ystyried beth sy'n ddilys a beth sy'n debygol i'r landlord ei ofyn i'r Comisiwn ei gwblhau cyn gadael yr eiddo ac addaswyd amcangyfrifon y syrfëwr yn unol â hynny pryd bynnag mae hynny'n berthnasol. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, rydym wedi cyflwyno darpariaeth ar gyfer dadfeilio sy'n realistig ac yn debygol ar gyfer prydlesi newydd.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio cyfraddau disgownt Trysorlys EF i gyfrifo'r gwerth cyfredol. Dan IFRS 16, caiff dadfeiliadau ar brydlesi newydd eu cyfalafu i'r ased hawl-i-ddefnyddio.

## 12. Rhwymedigaethau ac asedau dibynnol

Mae rhwymedigaethau dibynnol yn cynnwys pob hawl hysbys lle mae cyngor cyfreithiol yn dynodi nad yw meini prawf ar gyfer cydnabod darpariaeth wedi eu bodloni neu lle mae'r posibilrwydd o drosglwyddo economaidd yn brin.

Nid oedd unrhyw achosion cyfreithiol yn weithredol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol neu sydd wedi dechrau ers hynny lle all fod angen i'r Comisiwn Etholiadol wneud darpariaeth neu rwymedigaeth ddibynnol.

Nododd y Comisiwn er bod y tebygolrwydd y bydd sefyllfa angen defnyddio rhwymedigaeth ddibynnol yn brin, byddai'n gwireddu rhwymedigaethau ariannol ar gyfer hawliadau a oedd yn deillio o'r ymosodiad seiber 2021.

Mae'r tîm rheoli wedi dod i'r casgliad nad oes rhwymedigaeth gyfredol debygol i drosglwyddo buddion economaidd yn bodoli.

Ar 31 Mawrth 2026, nid oedd angen datgelu unrhyw asedau dibynnol na rhwymedigaethau dibynnol dan IAS37. (2024/25: asedau digwyddiadol a rhwymedigaethau digwyddiadol £dim).

## 13. Trafodiadau pleidiau cysylltiedig

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol ar y Llywodraeth a phleidiau gwleidyddol, ac yn uniongyrchol atebol i'r Senedd, Senedd y DU a Senedd yr Alban. Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw gysylltiadau pleidiol perthnasol fel y'u diffinnir gan IAS 24 Datgeliadau pleidiol perthnasol.

Mae gan y Comisiwn Etholiadol drafodiadau gydag adrannau'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog. Ar wahân i'r taliadau cydnabyddiaeth a ddatgelir yn y cyfrifon, nid yw unrhyw un o'r Comisiynwyr, y Tîm Gweithredol na phleidiau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â nhw wedi ymgymryd ag unrhyw drafodiadau sylweddol gyda'r Comisiwn Etholiadol yn ystod y flwyddyn.

## 14. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10, mae digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Caiff hyn ei ddehongli fel dyddiad Tystysgrif y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw ddigwyddiadau ers 31 Mawrth 2026 a allai effeithio'r datganiadau ariannol.

## Atodiad

### Data cynaliadwyedd (ddim yn destun archwiliad)

Mae'r adran isod yn dangos dadansoddiad o'n costau a'n hallyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer teithio busnes am y 4 blynedd diwethaf.

| **Metrig** | Cam | 2025/26 | 2024/25 | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfwerth â thunelli o garbon deuocsid (CO2e)** | Teithio busnes swyddogol - allyriadau domestig | 50 | 30 | 30 | 26 |
| | Teithio busnes swyddogol - allyriadau rhyngwladol | 17 | 18.5 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr** | | **67** | **48.5** | **30** | **26** |
| **£000oedd** | | | | | |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol domestig | 45 | 121 | 76 | 75 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol rhyngwladol | 8 | 17 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm gwariant perthnasol** | | **53** | **138** | **76** | **75** |

Roedd y pellter a deithiwyd gan hediadau busnes rhyngwladol yn fyr iawn o fewn y Comisiwn rhwng 2022 - 2024 ac felly mae wedi'i gofnodi yn sero.

# Y COMISIWN ETHOLIADOL

**Cyfarwyddyd Cyfrifon**

CYFARWYDDYD CYFRIFON A RODDWYD GAN Y TRYSORLYS YN UNOL Â PHARAGRAFF 17(2) ATODLEN 1 I DDEDDF PLEIDIAU GWLEIDYDDOL, ETHOLIADAU A REFFERENDA 2000.

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn paratoi cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd ariannol dilynol yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r argraffiad o Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ('y FReM') a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi.

Rhaid paratoi'r cyfrifon fel eu bod:

(a) yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiwn Etholiadol ar 31 Mawrth 2011 ac ar ddiwedd blynyddoedd ariannol dilynol, ac o'i alldro adnoddau net, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; ac

(b) yn datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nad yw wedi'i gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Bydd yn angenrheidiol cydymffurfio â gofynion y FReM, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, er mwyn i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg. Mewn amgylchiadau eithriadol, os yw cydymffurfio â gofynion y FReM yn anghyson â'r gofyniad i roi darlun gwir a theg, dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i roi darlun gwir a theg y dylid gwyro oddi wrth ofynion y FReM. Mewn achosion o'r fath, dylid arfer barn ddeallus a diduedd i lunio dull arall priodol a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd y FReM. Dylid trafod unrhyw wyriad sylweddol oddi wrth y FReM yn y lle cyntaf â'r Trysorlys.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn disodli'r cyfarwyddyd dyddiedig 27 Chwefror 2006.

**Chris Wobschall**
**Pennaeth, Polisi Sicrwydd ac Adroddiadau Ariannol, Trysorlys EF**
**15 Ebrill 2011**

# Cysylltwch â ni
# Ein swyddfeydd

## Lloegr

Y Comisiwn Etholiadol

3 Bunhill Row

Llundain EC1Y 8YZ

Ffôn: 020 7271 0500

info@electoralcommission.org.uk

## Cymru

Y Comisiwn Etholiadol

Llawr 3, Tŷ James William

9 Maes yr Amgueddfa, Caerdydd

CF10 3BD

Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

## Yr Alban

Y Comisiwn Etholiadol
City Chambers
High Street
Caeredin EH1 1YJ

Ffôn: 0333 103 1928

infoscotland@electoralcommission.org.uk.

## Gogledd Iwerddon

Y Comisiwn Etholiadol

The Boat

49 Queen's Square

Belfast, BT1 3FG

Ffôn: 0333 103 1928

infonorthernireland@electoralcommission.org.uk.

E03597713

978-1-5286-6496-7